




Chwedlau Cymru fu

<https://hdl.handle.net/1874/379785>

CHWEDLAU
CYMRU FU

(THE CHILD'S MABINOGION)



PRICE—ONE SHILLING NETT.

KEL
97
EL
ONA.P
UC

364

VAN HAMEL

475

vervallen

E DONATIONE

A. G. van HAMEL


PROFESSORIS
ORDINARIII IN
ACADEMIA
RHENO-TRAIECTINA


1923—1946

W II p Jon 1

R. Wynne Parry

~~W II p~~





3611

20 Oct

R. Wynne Parry - W^m


County School

Portmadoc
or.

School House.

Rhyd-Ddu. V^{ia} Camarvon

12.67



DWYN Y BABAN YN OL AT RIANNON (tudalen 29).

RIJKSUNIVERSITEIT UTRECHT



1556 8284

360

W II f 100 1
18.67

Chwedlau Cymru Fu



Detholwyd ac addaswyd gan

ABEL J. JONES, B.Sc., Ph.D.,

Coleg Clare, CAERGRAWNT, a

DAVID R. JONES, B.A.,

LLANBRADACH.

Instituut voor
Keltische taal—en letterkunde
der Rijksuniversiteit te Utrecht

SECOND EDITION,

1907.

THE EDUCATIONAL PUBLISHING COMPANY, LTD.
CARDIFF & MERTHYR TYDFIL.

Instituut voor
Keltische taal — en letterkunde
der Rijksuniversiteit te Utrecht

PRINTED AT
THE PRINCIPALITY PRESS
MERTHYR TYDFIL



vervallen

RHAGY MADRODD.

CEISIWYD addasu rhai o chwedlau'r Hên Gymry ar gyfer y plant. Tynnwyd allan lawer o eiriau dieithr, newidiwyd ffurf aml i frawddeg, ac weithiau gadawyd allan ambell i ddarn tywyll—a'r cyfan er gwneud yr oll mor syml ag oedd bosibl. Credwn yn sicr na fydd y chwedlau yr un mymryn yn llai dyddorol oherwydd symledd y wisg a roddwyd arnynt.

Ychwanegwyd ychydig nodiadau ar ddiwedd y rhaniadau. Yng nghorff y llyfr cadwasom yn hollol at y Gymraeg, am y credwn mai goreu dysgu Cymraeg drwy'r Gymraeg pan fydd hynny yn ddichonadwy. Rhoddwyd geirfa yn niwedd y llyfr ar gyfer yr ysgolion hynny lle y mae llawer o ddisgyblion yn blant i Saeson, ac y bydd eisieu feallat ychydig o gymorth y Saesneg er dysgu'r Gymraeg.

Gobeithiwn y bydd i'r chwedlau hyn greu awydd yn ein plant am glywed rhagor eto am chwedlau eu gwlad.

Caergrawnt.

Llanbradach.

ABEL J. JONES.

DAVID R. JONES.

CYNWYSIAD.

PWYLL, PENDEFIG DYFED.

Pwyll yn hela	1
Pwyll yn Annwn	4
Pwyll ac Arawn yn dychwelyd	6
Pwyll yn gweled rhyfeddod	8
Pwyll a Rhiannon	11
Pwyll yn addaw yn ddifeddwl	14
Gwawl yn y sach	16
Rhyddhâd Gwawl a phriodas Pwyll	18
Pwyll yn colli ei etifedd	20
Pa le y mae'r baban?	24
Dwyn y baban yn ol at Riannon	29

BRANWEN, FERCH LLYR.

Matholwch yn ceisio Branwen	33
Efnisien yn achosi gofid	36
Bendigaid yn gwneud y golled i fyny	39
Dyrnod Branwen	43
Bendigaid yn yr Iwerddon	46
Tynged alaethus gwyr Ynys y Cedyrn a Branwen	50
Claddu pen Bendigaid Frân	53

BREUDDWYD MACSEN WLEDIG.

Yr Ymerawdwr yn breuddwydio	56
Myned i chwilio am y forwyn	60
Macsen ac Elen	63
Macsen yn dychwelyd i Rufain	65

Y BRENIN ARTHUR A'I FARCHOGION.

Dewis Brenin newydd	68
Cynnyg eto i dynnu'r cleddyf	70
Penderfynu'r frenhiniaeth	74
Dirgelwch genedigaeth Arthur	77
Gwenhwyfar a'r Ford Gron	81
Arglwyddes y Llyn	85

Syr Balin a'r Cleddyf Hudol—

Y llances a'r cleddyf	-	-	-	-	-	89
Balin yn tynnu'r cleddyf	-	-	-	-	-	91
Syr Balin yn lladd boneddiges a'i gleddyf	-	-	-	-	-	93

Ergyd Alaethus Balin—


Y marchog anweledig	-	-	-	-	-	96
Balin yn ymlid Garlon	-	-	-	-	-	99
Balin yn lladd Garlon	-	-	-	-	-	101

Marwolaeth Arthur—

Brâd Syr Medrod	-	-	-	-	-	104
Neidr yn peri dechreu brwydr	-	-	-	-	-	105
Yr ornest rhwng Arthur a Medrod	-	-	-	-	-	106
Oriau olaf Arthur Frenin	-	-	-	-	-	107
Arthur	-	-	-	-	-	110

IARLLES Y FFYNNON.

Cynnon yn dechreu dweyd stori	-	-	-	-	-	111
Cynnon a'i stori	-	-	-	-	-	114
Effaith y chwedl ar Owain	-	-	-	-	-	118
Owain yn cychwyn i ffwrdd	-	-	-	-	-	120
Owain a Luned	-	-	-	-	-	123
Owain a'r Iarlles	-	-	-	-	-	126
Arthur yn myned i chwilio am Owain	-	-	-	-	-	130
Arthur ac Owain yn cyfarfod	-	-	-	-	-	132
Owain yn tramwy byd	-	-	-	-	-	134
Owain a'r llew	-	-	-	-	-	138
Owain yn gwaredu meibion gwr y castell	-	-	-	-	-	141
Owain yn dychwelyd i lys Arthur	-	-	-	-	-	143
<hr/>						
Geirfa	-	-	-	-	-	147



PWYLL YN HELA

8

PWYLL, PENDEFIG DYFED.



I.—PWYLL YN HELA.

Yr oedd Pwyll, Pendefig Dyfed, yn arglwydd ar saith gantref Dyfed. Unwaith, pan yn Arberth, ei brif lys, daeth i'w fryd fyned i hela. Y darn o'i dir a fynnai ei hela oedd Glyn Cuch, a chychwynnodd y nos honno o Arberth, ac a ddaeth hyd ymhen Llwyn Diarwya, ac yno y bu drwy'r nos.

Cyfododd yn foreu drannoeth, a daeth i Llyw Cuch i ollwng ei gwn o dan y coed. Canodd y corn, a dechreuodd yr hela. Wrth ddilyn y cwn, collodd ei gymdeithion. Ac fel y gwrandawai ar lef y cwn, clywai lef cwn ereill, heb fod o'r un swm a'i gwn ef, yn dyfod o gyfeiriad arall.

Ac efe a welai lannerch o faes gwastad yn y coed. Ac fel y deuai ei gwn ef i ymyl y llannerch, gwelai garw o flaen y cwn ereill; a thua chanol y llannerch, dyma'r cwn a'i dilynnai yn ei ddal, ac yn ei daro i'r llawr.

Yna yr edrychodd Pwyll ar liw'r cwn, heb feddwl edrych ar y carw; ac o'r holl helgwn a welsai erioed, ni welsai gwn o'r un lliw a'r rhai hyn. Yr oeddynt o liw gwyn disglair, a'u clustiau yn gochion; ac fel y disgleiriai gwynder y cwn, felly y disgleiriai cochder eu clustiau.

Ac ar hynny daeth at y cwn, a gyrrodd y cwn a laddasai'r carw ymaith, a galwodd ei gwn ei hun at y carw. Ac wrth ddenu'r cwn, gwelai farchog yn dyfod ar ol y cwn ar farch llwyd, mawr, a chorn canu am ei wddf, a gwisg hela o frethyn llwyd am dano.

Daeth y marchog ato, gan ddywedyd wrtho :

“Ha, frenin, mi a wn pwy wyt ti, ond ni chyfarchaf well i ti.”

“Feallai,” ebe Pwyll, “dy fod mor anrhydeddus fel nas dyli.”

“Yn wir,” ebe efe, “nid maint fy anrhydedd sydd yn fy atal i wneud hynny.”

“Ha, frenin, pa beth arall?” meddai Pwyll.

“Ar fy llw,” ebe yntau, “dim ond dy anwybod-aeth a'th ddiffyg moes dy hun.”

“Pa ddiffyg moes, syr, a welaist arnaf fi?” meddai Pwyll.

“Ni welais i fwy o ddiffyg moes ar wr erioed,” ebe efe, “na gyrru'r cwn a laddodd y carw ymaith, a denu dy gwn dy hun arno; ac am i ti wneud hyn, mi a wnaf werth can carw o niwed i ti.”

“Ha, frenin,” ebe Pwyll, “os gwneuthum gam â thi, mi a brynaf dy gyfeillgarwch.”

“Pa fodd y gwnei di hynny?” ebe efe.

“Mewn modd teilwng o'th anrhydedd,” ebe Pwyll, “os caf wybod pwy wyt ti.”

“Brenin wyf fi,” oedd yr ateb, “yn y wlad y deuaaf o honi.”

“Ac o ba wlad y deui, fy arglwydd?” ebe Pwyll.

“O Annwn,” ebe efe. “Arawn, brenin Annwn, wyf fi.”

“Arglwydd,” ebe Pwyll, “pa fodd yr enillaf dy gyfeillgarwch?”

“Dyma'r modd y cei di ef,” ebe Arawn. “Y mae gwr ar dir cyferbyn â'm tir i yn rhyfela yn fy erbyn yn wastadol. Ei enw yw Hafgan, brenin o

Annwn. Ac os gwaredi fi o'r gelyn hwn (a thi a elli wneud hynny yn hawdd) ti a gei fy nghyfeillgarweh."

"Gwnaf hynny yn llawen," ebe Pwyll, "a dywed dithau wrthyf sut y gallaf wneud hynny."

"Dywedaf," ebe yntau; "dyma'r modd y gelli. Mi a wnaft gytundeb a thi. Danfonaf di i'm lle i yn Annwn, a rhoddaf fy ffurf a'm gwedd innau arnat ti, fel na bydd gwas ystafell, na swyddog, na'r un dyn a'm canlynnodd erioed yn gwybod nad myfi wyt ti; a hynny a fydd hyd ymhen blwyddyn i'r dydd yfory, ac yna y cyfarfyddwn eto yn y lle hwn."

"Ië," ebe yntau, "er i mi fod yno am flwyddyn, pa fodd y caf weled y gwr y dywedi am dano?"

"Blwyddyn i heno, ebe Arawn, "yw'r amser penodedig iddo ef a minnau i gwrdd ar y rhyd; a bydd di yno ar fy ffurf i. A dyro un ergyd iddo, a bydd hwnnw yn farwolaeth iddo; ac er iddo ofyn yn daer am ergyd arall, na ddyro un iddo, oblegid pan wnawn i hynny iddo, ymladdai a mi drannoeth gystal ag erioed."

"Ond," ebe Pwyll, "pa beth a wnaft fi a'm teyrnas fy hun?"

"Trefnaf," ebe Arawn, "na fydd gwr na gwraig yn dy deyrnas yn gwybod nad tydi wyf fi, a myfi a âf yn dy le di yno."

"Af felly yn llawen," ebe Pwyll.

"Rhwydd hynt i ti," ebe Arawn, "ac na rwystred dim dydi hyd nes y deui i'm teyrnas, a mi a fyddaf yn hebryngydd i ti."

Ac Arawn a'i arweiniodd nes dyfod i olwg y tai a'r llys.

“Dyma'r llys a'r deyrnas,” ebe Arawn. “Dos i'r llys; nid oes neb yno na fydd yn dy adnabod, ac wrth sylwi ar y drefn sydd yno, ti a ddealli arferion y llys.”

Dyfed: dyma yr enw roddid yn yr hên amser i ran orllewinol deheudir Cymru. Y mae Sir Benfro yn bresennol yn cynnwys y rhan fwyaf o Ddyfed.

Arberth (Narberth): saif tref o'r enw yn awr yn Sir Benfro, ddeng milltir o Ddinbych-ar-Bysgod.

Cantref: byddai cantref fel rheol yn cynnwys o leiaf gant o deuluoedd.

Llys: ty pendefig neu frenin.

Llannerch: darn o dir agored mewn coedwig.

Cyfarch gwell: annerch neu ddymuno'n dda.

Rhwydd hynt: ffordd o ddymuno taith hapus.

Amser penodedig: yr amser wedi ei benderfynu ymlaen llaw.



II.—PWYLL YN ANNWN.

Daeth Pwyll i'r llys, ac yno y gwelodd hun-dai a neuaddau, a'r ystafelloedd harddaf a welodd neb erioed; ac i'r neuadd yr aeth i ddad-wisgo; a daeth y llanciau a'r gweision i'w ddad-wisgo ef, a chyfarch gwell a wnai pawb iddo fel y delent ato. A dan farchog a ddaeth i dynnu ei wisg hela oddiarno, ac i ddodi gwisg o sidan arno. Trefnwyd y neuadd, ac yna y gwelai ef y teulu a'r canlynwyr yn dyfod i fewn (y rhai harddaf a welwyd erioed), a'r frenhines gyda hwynt, a hi oedd y wraig decaf a welodd neb, ac yr oedd gwisg o sidan euraidd disglair am dani.

Ar hynny aethant i ymolchi; a daethant at y byrddau, gan eistedd yn y drefn yma—y frenhines ar un ochr i Bwyll, ac iarll, debygai ef, ar yr ochr arall. Dechreuodd Pwyll ymddiddan a'r frenhines, ac

o bawb y bu yn ymddiddan erioed â hwynt, hi oedd y wraig fwynaf a'r foneddigeiddiaf ei natur a'i hymddiddan.

A mwynhau y wledd, a'r canu, a'r gyfeddach a wnaethant. Ac o holl lysoedd y ddaear a welodd Pwyll erioed, dyma'r llys llawnaf o fwyd a diod, o lestri aur, ac o dlysau brenhinol.

Treuliodd Pwyll y flwyddyn trwy hela, a chanu, a chynnal gwleddoedd, ac ymddiddan a'i gyfeillion, hyd y noswaith benodedig i'r ymladdfa. Ac ar y noswaith honno, cofiodd pob pennaeth yn y wlad am yr ornest, a daeth Pwyll a'i filwyr gydag ef.

A phan ddaeth i'r rhyd, cyfododd marchog i fyny, a dywedodd:

"Ha, wŷr, gwrandewch; rhwng y ddau frenin y mae'r ornest hon; hawlia pob un o honynt dir y llall. Yr ydych chiwi oll yn ddiogel, a gadewch rhwng y ddau yma a'u gilydd."

Ar hynny y daeth y ddau frenin i ganol y rhyd, ac a ddechreusant ymladd. Ar yr ergyd cyntaf y gwr oedd yn lle Arawn (sef Pwyll) a darawodd darian Hafgan nes yr holltodd yn ddau hanner, ac y torrodd yr arfau, ac y syrthiodd Hafgan dros ei farch i'r llawr. Yr oedd yr ergyd yn un marwol.

"Ha, bennaeth," ebe Hafgan, "pa hawl sydd gennyf i fy lladd? Nid oeddwn yn gofyn dim oddiwrthyt, ac ni wn un achos paham y dylesit fy lladd; ac yn wir, gan i ti ddechreu fy lladd, gorffen dy waith."

"Na wnafl," ebe yntau, "fe all fod yn ddrwg gennyf am yr hyn a wneuthum yn barod i ti; edrych am arall i'th ladd, ni laddaf fi di."

“Fy ngwŷr ffyddlon,” ebe Hafgan, “dygwch fi oddiyma; fy angeu yn sicr a ddaeth.”

“Ha, wŷr,” ebe'r gwr oedd yn lle Arawn, “penderfynwch yn eich plith eich hunain pwy ddylai fod yn wŷr i mi.”

“Arglwydd,” ebe'r gwŷr, “pawb a ddylai; canys nid oes frenin ar holl Annwn ond tydi.”

“Ië,” ebe yntau, “ac i'r hwn a ddél yn ostyngedig y bydd popeth yn dda; ond yr hwn na ddél yn ostyngedig, gorfoder ef drwy'r cleddyf.”

Ar hynny cymerodd warogaeth y gwŷr, a dechreuodd goncro'r wlad; ac erbyn hanner dydd drannoeth, yr oedd y ddwy deyrnas yn ei feddiant.

Hun-dai: tai i gysgu ynddynt.

Neuaddau: ystafelloedd mawrion ar gyfer gwleddoedd

Dadwisgo: tynnu 'r dillad i ffwrdd.

Tlysau brenhinol: pethau gwerthfawr y brenin.

Yr ornest: yn yr ornest byddent yn ymladd ac ymdrechu er cael allan pwy oedd yr ymladdwr goren.

Talu gwarogaeth: dangos parch ac addaw ufuddhau.

Cyfeddach: yfed a gwledda.



III.—PWYLL AC ARAWN YN DYCHWELYD.

Yna y cerddodd Pwyll i'r fan lle yr oedd i gyfarfod Arawn, ac a ddaeth i Lyn Cuch. A phan ddaeth yno, yr oedd Arawn, brenin Annwn, yn ei ddisgwyl, a llawen iawn oedd gan y ddau weled eu gilydd eto.

“Duw a dalo i ti,” ebe Arawn, “am ffyddlondeb dy gyfeillgarwch i mi; mi a glywais am dano.”

“Pan y deui i'th wlad,” ebe Pwyll, “ti a weli drosot dy hun yr hyn a wneuthum.”

Yna y rhoddodd Arawn ei ffurf a'i ddull ei hun i Bwyll, Pendefig Dyfed, ac a gymerodd yn ol ei ddull a'i ffurf ei hunan. A cherddodd Arawn ymlaen tua'i lys yn Annwn, a llawen oedd ganddo weled ei luoedd a'i deulu, gan nas gwelsai hwynt er ys llawer o amser. A hwythau ni welsent ei eisien ef, ac nid oedd ei ddyfodiad y tro yma yn fwy rhyfedd iddynt hwy na rhyw dro arall. Treuliodd y dydd hwnnw yn llawen, gan eistedd ac ymddiddan gyda'i wraig a'i benaethiaid.

A daeth Pwyll, Pendefig Dyfed, hefyd i'w deyrnas ei hun, ac a ddechreuodd ofyn i benaethiaid y wlad pa un ai gwell neu gwaeth y bu ei lywodraeth y flwyddyn honno na'r hyn a fu cyn hynny.

"Arglwydd," ebe hwy, "ni fuost mor ddoeth, nac mor fwyn, nac mor hael erioed; ac ni fu dy drefniadau yn well erioed na'r flwyddyn hon."

"Yn wir," ebe Pwyll, "hawdd y medrwch ddiolch i mi, ond tég yw i chwi ddiolch i'r gwr a fu gyda chwi; dyma'r hanes i chwi fel y bu."

A dywedodd Pwyll yr holl hanes am Arawn ac Annwn wrthynt.

"Diolch i Dduw," ebe hwy, "am i ti gael y fath gyfaill a hwn, a gobeithiwn na wnei dithau newid dim ar y llywodraeth gawsom y flwyddyn honno."

"Na wnaif yn wir," ebe Pwyll.

Ac o hynny allan y bu y ddau frenin yn gyfeillion mawr, a danfon meirch, a milgwn, a hebogau a thlysau y naill at y llall a wnaethant er ennill serch eu gilydd. Ac o achos ei arhosiad ef y flwyddyn honno yn Annwn, ac am iddo lywodraethu yno mor llwyddiannus, ac am iddo uno'r ddwy deyrnas drwy ei ddewrder, newidiwyd

enw Pwyll, Pendefig Dyfed a galwyd ef Pwyll Pen Annwn o hynny allan.

Hebogau : y mae yr adar hyn yn nodedig am ladd adar llai na hwy eu hunain. Byddai pobl yr hen amser yn eu cadw i'r pwrpas.

I Lyn Cuch : i Gwm Cuch (glyn=cwm).



IV.—PWYLL YN GWELED RHYFEDDOD.

Dro arall yr oedd Pwyll yn ei brif lys yn Arberth, lle y darparwyd gwledd iddo ef a nifer mawr o'i wŷr. Wedi'r pryd cyntaf o fwyd, cyfododd Pwyll i fyned allan i gerdded. A daeth i ben twyn a elwid Gorsedd Arberth.

"Arglwydd," ebe un o'r llys, "y mae hynodrwydd yn perthyn i'r orsedd hon. Pa bendefig bynnag a eisteddo arni, nid â oddiarni heb i un o ddau beth ddigwydd—naill ai y derbynia efe friwiau, ynte ca weled rhyfeddod."

"Nid oes arnaf ofn y caf niwed ynghanol cynifer o wŷr," ebe Pwyll, "a boddlon wyf i weled rhyfeddod, felly mi a âf i eistedd ar yr orsedd."

Ac fel yr eisteddent ar yr orsedd, gwelent wraig ar farch gwyn mawr, a gwisg euraidd disglair am dani, yn dyfod ar hyd y brif ffordd a arweiniai i'r orsedd. Yr oedd y march yn cerdded i fyny yn araf tua'r orsedd.

"Ha wŷr," ebe Pwyll, "a oes un o honoch yn adnabod y farchoges acw?"

"Nac oes, Arglwydd," meddent hwy.

"Aed un o honoch," ebe Pwyll, "i'w chyfarfod, i wybod pwy yw hi."

Cyfododd un yn ufudd, a phan ddaeth i'w chyfarfod i'r ffordd, aeth hithau heibio iddo. Dilynnodd yntau hi gynted ag y gallai ar draed. Ond po fwyaf fyddai ei frys ef, pellaf fyddai hithau oddiwrtho.

A phan welodd nad oedd yn well o'i dilyn, dychwelodd at Bwyll, a dywedodd wrtho: "Nis gall gwr ar ei draed ei dilyn."

"Gwir yw hynny," ebe Pwyll, "dos i'r llys a chymer y march cyflymaf a weli, a dos eto ar ei hol."

Cymerodd y march, ac aeth rhagddo, a daeth i faes eang, gwastad. Yspardynnodd ei farch, ond po fwyaf y tarawai y march, pellaf fyddai hithau oddiwrtho ef, er na fyddai ei march hi yn cyflymu o gwbl; a phan welodd ef fod ei farch yn blino, dychwelodd at Bwyll.

"Arglwydd," ebe efe, "nid yw o'r un pwrpas i mi ddilyn y bendefiges acw. Nid oes march cyflymach yn y deyrnas na hwn, eto ofer yw ei dilyn."

"Yn wir," ebe Pwyll, "rhyfedd iawn yw yr hyn a welsom; awn tua'r llys."

Daethant i'r llys, a threuliasant y dydd hwnnw yn llawen. A thrannoeth cyfodi a wnaethant, ac wedi bwyta, dywedodd Pwyll: "Ni a awn, yr un rhai ag a fu ddoe, i ben yr orsedd, a dygwch y march cyflymaf y gwyddoch am dano i'r maes."

Gwnaeth y gwas hynny, a daethant at yr orsedd a'r march ganddynt. Ac fel yr oeddynt yn eistedd, gwelent y wraig ar yr un march, a'r un wisg am dani, yn dyfod yr un ffordd.

"Dyma'r farchoges a welsom ddoe," ebe Pwyll, bydd barod fy ngwas i weled pwy yw hi."

"Gwnaf hynny yn llawen," ebe efe.

Ar hynny daeth y farchoges gyferbyn a hwynt

Esgynnodd y gwas ar ei farch, a chyn iddo eistedd yn iawn ar ei gyfrwy, yr oedd y farchoges wedi myned heibio iddo, a chryn bellter rhyngddynt. Eto, nid âi ei march hi yn gyflymach na'r dydd cynt.

Cyflymodd y gwas ei farch, gan feddwl dal y farchoges gan mor araf y cerddai ei march. Rhoddodd lawn rhyddid i'w farch, ond nid oedd nes ati nag ar y cyntaf. Po fwyaf y tarawai ef ei farch, pellaf y byddai oddiwrthi, tra nad oedd cam ei march hi gyflymach na chynt. A phan welodd nad oedd yn well o'i dilyn, dychwelodd at Bwyll.

"Arglwydd," ebe efe, "nis gall y march wneud mwy nag a welaisit."

"Mi a welais," ebe Pwyll, "nad wyt well o fyned ar ei hol. Eto, yr wyf yn sier fod ganddi neges at rai sydd ar y maes hwn, pe gadawai ei brys iddi ei ddweyd; awn tua'r llys."

Daethant i'r llys, a threuliasant y nos honno yn canu a gwledda wrth eu bodd. A thrannoeth mwynhau y dydd a wnaethant hyd nes oedd yn amser myned i fwyta. Wedi gorffen bwyta, dywedodd Pwyll:

"Pa le y mae'r gwŷr fu gyda mi ddoe ac echdoe ar ben yr orsedd?"

"Wele ni, Arglwydd," ebe hwythau.

"Awn tua'r orsedd," ebe efe, "a thiithau fy ngwas, cyfrwya fy march yn dda, arwain ef i'r ffordd, a dwg fy yspardynnau gennyt."

Gwnaeth y gwas hynny, a daethant i'r orsedd i eistedd.

Hynodrwydd: rhywbeth
allan o'r cyflredin.

A: gyda, neu
y mae yn myned.

Yspardynnau: yr hyn a
wsg marchog am ei esgidiau
er gwneud i'w farch gyflymu
pan bydd eisieu.

A: yr un ystyr ag "ac."

V.—PWYLL A RHIANNON.

Ac ni fuont yn hir ar yr Orsedd cyn gweled y farchoges yn dyfod eto yr un ffordd, ar yr un wedd, ac â'r un cerddediad.

"Ha, was," ebe Pwyll, "gwelaf y farchoges yn dyfod. Dyro fy march i mi."

A chyn iddo braidd esgyn ar ei farch, aeth hithau heibio iddo. Trôdd yntau ar ei hol, a meddylodd y daliai hi ar yr ail gam neu'r trydydd; eto, nid oedd nes iddi nag o'r blaen. Gwnaeth i'w farch redeg mor gyflym ag y gallai, a gwelodd nad oedd yn well o'i dilyn.

Yna y dywedodd Pwyll, "Ha, forwyn, er mwyn y gwr a geri fwyaf, aros am danaf."

"Arhosaf yn llawen," ebe hi, "a gwell fuasai i'th farch pe gofynaset hynny o'r blaen."

Arhosodd y forwyn, a thynnodd y rhan o wisg ei phen oedd am ei hwyneb ac a edrychodd ar Bwyll, ac a ddechreuodd ymddiddan ag ef.


"Arglwyddes," ebe efe, "o ba wlad y deui, a beth yw dy neges?"

"Deuaf ar neges," ebe hi, "a da yw gennyf dy weled di."

"Cei bob croesaw gennyf," ebe efe.

A meddylodd nad oedd wyneb yr un forwyn a welodd erioed yn haeddu ei gyffelybu â'i hwyneb hi.

"Arglwyddes," ebe fe, "a ddywedi di i mi ddim o'th neges?"



RHIANNON

“Dywedaf, yn wir,” ebe hithau; “fy neges bennaf oedd ceisio dy weled di.”

“Dyna'r neges oreu,” ebe Pwyll, “y gelli ddod arni; ac a ddywedi di pwy wyt ti?”

“Dywedaf, Arglwydd,” ebe hi. “Rhiannon, merch Hefeydd Hên, wyf fi, a cheisir fy rhoddi i wr yn erbyn fy ewyllys: ac ni fynwn un gwr, gan faint fy nghariad atat ti, ac ni fynnaf eto os na wrthodi di fi. Ac i wybod dy ateb y deuthum i.”

“Yn wir,” ebe Pwyll, “dyma fy ateb i ti, pe cawn ddewis o holl wragedd a morwynion y byd, ti a ddewiswn.”

“Os hynny yw dy ewyllys,” ebe hi, “trefna i gwrdd a mi cyn fy rhoddi i wr arall.”

“Goreu po gyntaf,” ebe Pwyll, “cwrddaf â thi yn y lle a fynni, a dewis di y fan.”

“Gwnaf, Arglwydd,” ebe hi, “blwyddyn i heno trefnaf wledd yn llys Hefeydd erbyn dy ddyfod.”

“Deuaf finnau i'r llys gyda phleser.” ebe Pwyll.

“Arglwydd,” ebe hi, “bydd wych, cofia gadw dy addewid; ac yn awr mi a âf ymaith.”

Wedi iddynt ymwahanu, daeth Pwyll at ei deulu a'i luoedd; ac er iddynt hwy ymofyn ynghylch y forwyn, ni ddywedai efe air am dani.

Bydd wych: ffordd o ddy-
muno'n dda pan yn ymadael
a chyfeillion.

Cerddediad: y ffordd neu'r
dull o gerdded.

VI.—PWYLL YN ADDAW YN DDIFEDDWL.

Ar ben y flwyddyn, darparodd Pwyll ei farchogion (cant mewn nifer), ac a aeth i lys Hefeydd Hên. Cafodd yno dderbyniad llawen. Yr oedd gwledd o'r bwydydd goreu yn ei aros. Trefnwyd y neuadd, a daethant at y byrddau, ac fel hyn yr eisteddasant—Hefeydd Hên ar y naill law i Bwyll, a Rhiannon ar y llaw arall, a'r lleill yn ol eu hanrhydedd. Bwyta a gwledda, a siarad a wnaethant.

Ar ddechreu'r wledd, wedi'r bwyta, gwelent ddyn mawr anrhydeddus yr olwg arno, a gwisg o sidan am dano, yn dod i fewn. A phan ddaeth i ddrws y neuadd, cyfarchodd well i Bwyll a'i gyfeillion.

“Bendith y nef fo arnat,” ebe Pwyll, “a dos i eistedd.”

“Na wnafl,” ebe efe; “neges bwysig sydd gennyf.”

“Dywed dy neges yn llawen,” ebe Pwyll.

“Arglwydd,” ebe efe, “i ti y mae fy neges, ac i ofyn cais gennyf y deuafl.”

“Pa gais bynnag a ofynni, ti a'i cei, os gallaf,” ebe Pwyll.

“Och fi,” ebe Rhiannon, “paham yr atebi felly?”

“Rhoddodd efe yr addewid i mi, fy arglwyddes, yng ngŵydd y pendeigion hyn,” ebe'r llanc.

“Fy ngwas,” ebe Pwyll, “pa beth yw dy gais di?”

“Rhiannon yw'r wraig a garaf fwyaf,” ebe'r dyn, “ac i'w cheisio hi, ac i gael rhan o'r wledd yma, y deuafl fi.”

Distawodd Pwyll, gan nad oedd ganddo ateb i'w roddi.

“Ti a fedri fod yn dawel,” ebe Rhiannon, “gan na fu dyn ifolach erioed na thi.”

“Arglwyddes,” ebe efe, “ni wyddwn i pwy oedd efe.”

“Dyma'r gwr yr oeddynt am fy rhoddi iddo o'm hanfodd,” ebe hi. “Gwawl, fab Clud, gwr o allu a chyfoeth mawr, a chan i ti ddywedyd yr hyn a ddywedaist, dyro fi iddo, rhag i ti gael dy feio gan y bobl hyn.”

“Arglwyddes,” ebe Pwyll, “nis gallaf wneud yr hyn a ddywedi.”

“Dyro di fi iddo,” ebe hi, “a threfnaf na cha efe fi fyth.”

“Pa fodd y bydd hynny?” ebe Pwyll.

“Mi a roddaf gôd fechan yn dy law,” ebe Rhiannon, “a chadw di honno yn ddiogel. Ac efe a ofyn am y wledd a'r danteithion, ond ni fydd y wledd yn dy feddiant, canys mi a roddaf y wledd i'r gwŷr ac i'r teulu. Am danaf fy hun, trefnaf i'w briodi flwyddyn i heno. Ac ymhen y flwyddyn bydd di a'r gôd hon gennyt gyda'th farchogion yn y berllan gerllaw. A phan fydd efe yn mwynhau ei hun yn y wledd, tyred dithau i mewn a dillad gwael am danat, a'r gôd yn dy law; ac na ofyn am ddim ond llond y gôd o fwyd. A mi a drefnaf, pe dodid yr holl fwyd a diod sydd yn y saith gantref hyn ynddi, ni fydd lawnach na chynt. Ac wedi bwrw llawer iddi, Gwawl a ofyn i ti: ‘A fydd dy gôd fyth yn llawn?’ a dywed dithau: ‘Na fydd, os na ddaw pendefig cyfoethog, a gwasgu y bwyd yn y gôd, a dywedyd: Rhoddwyd digon yma.’ A mi a wnafl iddo ef fyned i sangu'r bwyd yn y gôd, a phan êl efe, tro dithau'r gôd, fel

yr êl dros ei ben iddi; ac yna, gwna gwllwm ar y gôd. A bydded corn canu da am dy wddf, a phan fo efe yn rhwymedig yn y gôd, chwyth dy gorn, a bydded hynny yn arwydd rhyngot ti a'th farchogion. Pan glywont hwy lef dy gorn, deuent ar unwaith i'r llys."

"Arglwydd," ebe Gwawl, "y mae yn bryd i mi gael atebiad i fy nghais."

"Rhoddaf i ti gymaint ag y dymunaist, os yw yn fy meddiant," ebe Pwyll.

Dywedodd Rhiannon: "Rhoddais y wledd a'r danteithion sydd yma i wŷr Dyfed, a'r teulu a'r lluoedd sydd yma; ni adawaf eu rhoddi i neb arall. Blwyddyn i heno y bydd gwledd yn y llys hwn i tithau, Gwawl, a deuf yn wraig i ti."

Gwawl felly a gerddodd tua'i deyrnas, a Phwyll a ddaeth i Ddyfed.

Perllan: maes lle y tyfir | O'm hanfodd: yn erbyn fy
ffrwythau, megis afalau. | ewyllys.

VII.—GWAWL YN Y SACH.

Ar ol i'r flwyddyn fyned heibio, daeth Gwawl, fab Clud, i lys Hefeydd Hên, i'r wledd a ddarparwyd iddo, ac amser llawen iawn a gafwyd yno. Daeth Pwyll, Pen Annwn, hefyd i'r berllan gyda'i farchogion, a'r gôd ganddo, fel y gorchymynasai Rhiannon iddo. Gwisgodd ddillad carpiog am dano, ac esgidiau trymion am ei draed.

A phan wybu eu bod ar ddechreu'r wledd, ac wedi bwyta, aeth ymlaen tua'r neuadd. Ac wedi dyfod i gyntedd y neuadd, cyfarch gwell a wnaeth i Wawl a'i gyfeillion o wŷr a gwragedd.

“Duw a'th fendithio,” ebe Gwawl, “a phob croesaw i ti.”

“Arglwydd,” ebe yntau, “Duw a dalo i ti ; ar neges yr wyf atat.”

“Pob croesaw i'th neges,” ebe Gwawl, “ac os gofynni i mi rywbeth rhesymol, ti a'i cei yn llawen.”

“Rhesymol, Arglwydd,” ebe yntau, “ni ddymunaf am ddim ond i dorri newyn ; a dyma fy nghais, sef cael llond y gôd fechan a weli o fwyd.”

“Dyna gais hollol resymol,” ebe Gwawl, “a thi a'i cei yn llawen. Rhoddwch fwyd iddo.”

A nifer mawr o wŷr a godasant i fyny, gan ddechreu llanw'r gôd, ond er yr holl a fwrid iddi, nid oedd lawnach na chynt.

“Ha, ddyn,” ebe Gwawl, “a lenwir dy gôd di fyth?”

“Na wneir,” ebe yntau, “er bwrw llawer iddi, os na chyfyd bonheddwr cyfoethog i fyny, a sangu a'i ddwy droed ar y bwyd yn y gôd, a dywedyd : ‘Digon a ddodwyd yma’.”

“Ha, gyfaill,” ebe Rhiannon wrth Wawl, “cyfod i fyny ar unwaith.”

“Cyfodaf yn llawen,” ebe efe.

Ac efe a gododd i fyny, ac a roddodd ei ddwy droed yn y gôd.

A Phwyll a drôdd y gôd, nes yr oedd Gwawl dros ei ben ynnddi, ac wedi cau'r gôd, a'i chylymu, chwythodd ei gorn. Ac ar hynny daeth ei wŷr i fewn i'r llys, gan gymeryd gwŷr Gwawl, a'u doddi yng ngharchar. A thaflodd Pwyll ei garpiau a'i esgidiau trymion oddi arno.

A phan ddeuai ei wŷr i fewn, tarawai pob un o honynt y gôd gan ofyn : “Pa beth sydd yma?”

“Broch,” meddent hwythau.

A chwareu fel yma a wnaethant—tarawodd pob un ergyd ar y gôd, naill ai gyda'i droed, neu ynte gyda'i ffon. Ac fel y deuai pob un i fewn gofynnai: "Pa chwareu yw hwn?"

"Chwareu broch mewn côd," meddent hwy.

Dyma'r pryd y chwareuwyd "Broch mewn côd" gyntaf.

Carpiog: mewn dillad gwael. | Cyntedd: ystafell yn arwain
i'r llys.



VIII.—RHYDDHÂD GWAWL A PHRIODAS PWYLL.

Ar ol dioddef yn hir, gwaeddodd Gwawl: "Arglwydd, nid wyf yn haeddu fy lladd mewn côd."

"Y mae efe yn dywedyd y gwir," ebe Hefeydd Hên, "ni haedda hyn."

"Mi a wnaaf yn ol dy air di am dano ef," ebe Pwyll wrth Riannon.

"Dyma fy nghyngor," ebe hithau, "yr wyt mewn safle y disgwylir arnat foddhau y rhai sydd yn gofyn ffafir gennyt. Gâd iddo ef roddi i bawb drosot, a chymer ymrwymiad ganddo na wna ddial byth am hyn; a hyn fydd ddigon o gosb arno."

"Efe a gaiff hynny gyda phleser," ebe'r gwr o'r gôd.

"Cymeraf innau hynny," ebe Pwyll, "os dyna yw cyngor Hefeydd a Rhiannon.

"Dyna yw ein cyngor ni," meddent hwy.

"Boddlon wyf," meddai Pwyll; "cais feichiau drosot."

“Ni a fyddwn feichiau drosto,” ebe Hefeydd Hên,
 “hyd oni fydd ei wŷr yn rhydd i fyned drosto.”

Ac ar hynny y gollyngwyd ef o'r gôd, a rhyddhâwyd
 ei wŷr.

“Gofyn yn awr am feichiau oddiwrth Wawl,” ebe
 Hefeydd.

A Hefeydd a rifodd y meichiau.

“Darpar dy amodau dy hun,” ebe Gwawl.

“Boddlon wyf ar amod Rhiannon,” ebe Pwyll.

A'r meichiau a aethant ar yr amod hwnnw.

“Arglwydd,” ebe Gwawl, “briwedig wyf, a chlwyfau
 mawr a gefais, ac y mae arnaf angen ymolchi; ac os
 caf, mi a âf ymaith, a mi a adawaf wŷr yma i roddi i
 bawb fydd yn ceisio dim gennyt.”

“Gwnaf hynny, gyda phleser,” ebe Pwyll.

A Gwawl a aeth yn ol i'w deyrnas ei hun.

Trefwyd y neuadd i Bwyll a gwŷr y llys. A
 daethant at y byrddau i eistedd, ac fel yr eisteddasant
 flwyddyn i'r nos honno, yr eisteddodd pawb yn awr.
 Bwyta a gwledda a wnaethant, a'r noson honno y
 priodwyd Pwyll a Rhiannon.

Yn foreu drannoeth, dywedodd Rhiannon wrth
 Bwyll:

“Cyfod i fyny, fy Arglwydd, a dechreua dalu'r
 cerddorion, ac na wrthod ddim i neb heddyw a ofynno
 gennyt.”

“Gwnaf hynny yn llawen,” ebe Pwyll, “heddyw
 a phob dydd tra y parhâo y wledd hon.”

Cyfododd Pwyll, a gwahoddodd bob un a ddymunai
 ffafr, a'r holl gerddorion, i ddyfod ger ei fron, a
 rhoddwyd i bob un yr hyn a ddymunai.

Ac wedi gorffen y wledd dywedodd Pwyll wrth Hefeydd: "Os wyt yn foddlon, âf yn ol yfory tua Dyfed."

"Dymunaf daith hapus i ti," ebe Hefeydd, "a threfna'r amser i Riannon ddod ar dy ol."

"Yn wir," ebe Pwyll, "ni a awn oddiyma gyda'n gilydd."

"Ai hynny yw dy ddymuniad?" ebe Hefeydd.

"Ië, yn wir," ebe Pwyll.

Felly aethant gyda'n gilydd tua Dyfed, a daethant i lys Arberth, a darparwyd gwledd yno ar eu cyfer; ac aeth son mawr am danynt trwy'r wlad. A'r gwŷr goreu a'r gwragedd goreu a ddaethant i dalu ymweliad a hwynt; ac ni adawodd Rhiannon i neb fyned ymaith heb rôdd ardderchog—naill ai o fodrwy, neu o freichled, neu o faen gwerthfawr.

Ymrwymiad: addewid sicr. | **Meichiau:** pobl i fod yn
wystl dros ereill.



IX.—PWYLL YN COLLI EI ETIFEDD.

Bu llywodraeth Pwyll a Rhiannon ar y wlad y flwyddyn honno, a'r nesaf, yn llwyddiannus iawn. Yn y drydedd flwyddyn dechreuodd gwŷr y wlad fod yn flin ganddynt wrth weled eu harglwydd a garent mor fawr, heb un etifedd. A hwy a alwasant Bwyll atynt i ymddiddan ag ef am hyn. A daethant ynghyd i Breseleu yn Nyfed.

"Arglwydd," ebe'r gwŷr, "ni a wyddom na byddi byw cyhyd a rhai o wŷr y wlad hon, a'n hofn ni yw na fydd i ti etifedd. Ni fyddi di fyw byth, ac er i ti

foddloni byw heb etifedd, ni fyddai dda gennym hynny."

"Arhoswch am flwyddyn," ebe Pwyll, "a blwyddyn i'r amser hwn y down ynghyd eto, a gwnaf yr amser hwnnw yr hyn a geisiwch gennyf."

Felly y trefnwyd, ond cyn pen y flwyddyn, mab a aned iddo, ac yn Arberth y ganed ef. A'r nos y ganed ef, dygwyd chwech o wragedd i wyllo'r mab a'i fam; a chysgodd y gwragedd a Rhiannon. Yn foreu iawn y gwragedd a ddeffroisiant, ac a edrychasant ar y lle y dodasant y mab, ac nid oedd efe yno.

"Och," ebe un o'r gwragedd, "collwyd y mab."

"Yn wir," ebe un arall, "ni fyddai yn ormod i ni gael ein llosgi neu ein dienyddio am golli o honom y mab."

"Pa beth a wnawn?" ebe'r llall.

"Hyn a wnawn," ebe un o'honynt, "y mae yma ast a chenawon ganddi. Lladdwn rai o'r cenawon, a rhoddwn waed ar wyneb a dwylaw Rhiannon, a gosodwn yr esgyrn ger ei bron, a dywedwn iddi hi ddifetha ei mab ei hun, ac fe fydd ein gair ni ein chwech yn gadarnach na'i gair hi."

A hwy a benderfynasant wneuthur hynny.

Tua'r dydd, deffrôdd Rhiannon, ac a ddywedodd: "Wragedd, pa le y mae fy mab?"

"Arglwyddes," ebe hwy, "na ofyn i ni am dy fab. Edrych ar y cleisiau ac ôl y dyrnodiau sydd arnom wedi ymladd a thi. Ni welsom ni erioed wraig yn meddu y fath nerth a thydi. Nid oeddem ddim gwell o geisio dy rwystro. Lleddaist dy fab dy hun, ac na ofyn am dano oddiwrthym ni."

"Och fi," ebe Rhiannon, "er mwyn y Duw a wŷr

bopeth, na ddywedwch anwiredd am danaf. Duw a wŷr mai anwiredd yw yr hyn a ddywedwch, ac os ofn sydd arnoch i ddweyd y gwir, addawaf eich amddiffyn."

"Yn sicr," ebe hwythau, "nid oes arnom ofn neb yn y byd."

"Ha, drueiniaid," ebe hithau, "ni chewch un drwg os dywedwch y gwirionedd."

Ond er siarad yn dëg ac yn wylofus wrthynt, ni chai ond yr un ateb gan y gwragedd.

Ac aeth y sôn drwy'r wlad. A chlywodd yr holl bendefigion am dano, a daethant i gyd at Bwyll i orchymyn iddo ymadael a'i wraig, am iddi gyflawni y fath weithred ddrwg.

"Na wnafl," ebe Pwyll; "ganwyd mab iddi yn awr, ac nid ymadawaf a hi. Os gwnaeth hi ddrwg, cymered ei chosb am dano."

A Rhiannon a alwodd ati'r athrawon a'r doethion, a chan fod yn well ganddi gymeryd cosb nag ymddadleu â'r gwragedd, hi a ddewisodd hynny.

Dyma'r gosb a roddwyd arni: Yr oedd i aros yn llys Arberth am saith mlynedd. Wrth borth y llys yr oedd esgyn-faen, ac yr oedd yn rhaid iddi eistedd gerllaw hwnnw bob dydd, a dweyd yr hanes wrth bawb na wyddai am dano, a chynnyg dwyn pob ymwelwr ac estron i'r llys ar ei chefn. Ond eithriad oedd i neb adael iddi ei ddwyn. Ac felly y treuliodd ran o'r flwyddyn.



RHIANNON YN EISTEDD YN YMYL YR ESGYNPAEN

Etifedd : y mab hynaf.

Dienyddio : cymeryd bywyd i fwrdd.

Cenawon ci : cwn ieuaine.

Gwyllo : cadw golwg ar bethau

Eithriad : rhyweth na ddi-gwydda yn aml.

Esgyn-faen : carreg i gynorthwyo'r marchog i esgyn ar gefn ei farch.

Ymwelwr : un am dro o le arall.

Estron : un o wlad arall.

Ymddadleu : dweyd yn groes i un arall.

Gwyr : y mae yn gwybod.

Gwyr : dynion.

X.—PA LE Y MAE'R BABAN ?


Yr amser hwnnw yr oedd Teyrnon Twrf Fliant yn arglwydd ar Went Iscoed ; yr oedd efe yn un o'r dynion goreu fu yn y byd erioed. Ac yn ei feddiant yr oedd caseg, ac nid oedd march na chaseg decach na hi yn ei deyrnas. A phob nos Calan-Mai deuai ag ebol bach, ond collwyd yr ebol bob tro heb i neb wybod dim am dano. Ond un noson dywedodd Teyrnon wrth ei wraig :

“Ha, wraig, rhy ddrwg yw ein bod yn cadw caseg, a ninnau heb gael un o'r ebolion.”

“Ond pa beth a allwn wneud ?” ebe'r wraig.

“Calan-Mai yw hi heno,” ebe Teyrnon, “a mynnaf wybod beth sydd yn digwydd i'r ebolion.”

Felly, dodwyd y gaseg mewn tŷ. Gwisgodd Teyrnon arfau am dano, a dechreuodd wyllo. Ac ar ddechreu'r nos daeth y gaseg ag ebol mawr a hardd, yr hwn a safodd ar ei draed ar unwaith. Cododd Teyrnon i edrych ar yr ebol, ac wrth wneud hynny clywai swm mawr, ac ar ol y swm, wele law ac ewinedd mawr yn dod trwy'r ffenestr, ac yn cydio yn yr ebol wrth ei



TEYRNON YN GWYLLIO

fwng. Tynnodd Teyrnnon ei gleddyf allan, a thorrodd y fraich ymaith o ymyl y penelin, fel yr oedd darn o'r fraich a'r ebol ganddo ar ol i fewn yn y tŷ.

Ar hynny clywai dwrf a therfysg mawr. Agorodd y drws, a rhuthrodd allan i weled beth achosodd y swm; ond ni welai efe ddim, gan mor dywyll oedd y nos. Cofiodd iddo adael y drws yn agored, felly dychwelodd i'w gau. Ac wrth y drws gwelai fachgen bychan (mewn dillad plentyn newydd ei eni), a gwisg o sidan am dano. Cododd y bachgen i'w freichiau, a gwelodd ei fod yn blentyn cryf am ei oedran. Cauodd y drws, a daeth i'r ystafell lle yr oedd ei wraig.

"Arglwyddes," ebe efe, "a wyt ti yn cysgu?"

"Nac wyf, arglwydd," ebe hi. "Mi a gysgais, ond a ddeffrôais pan ddaethost ti i mewn."

"Os dymuni gael peth na fu gennyf erioed o'r blaen," ebe Teyrnnon, "dyma fab i ti."

"Arglwydd," ebe hi, "dywed wrthyf yr holl hanes."


A dywedodd Teyrnnon y cwbl wrthi.

"Pa fath wisg sydd ar y baban?" ebe hi.

"Gwisg o sidan," ebe Teyrnnon.

"Felly," ebe hi, "rhaid ei fod yn fab i ryw ŵr bonheddig, a phleser fydd gennyf, os caf, wahodd gwragedd y wlad yma, a dywedyd wrthynt fod mab gennyf." Ac felly y gwnaethpwyd.

Bedyddiwyd y mab yn ol arferiad y wlad, a dodwyd arno yr enw Gwri Gwallt Euryn, am fod ei wallt mor felyn a'r aur. Magwyd y mab yn y llys hyd nes yr oedd yn flwydd oed, a chyn pen y flwyddyn yr oedd yn cerdded yn gryf, ac yr oedd yn fwy na baban teirblwydd, er i hwnnw fod yn un mawr. Yr ail flwyddyn yr oedd



TEYRNON A'R EBOL

gymaint a mab chwe mlwydd oed. A chyn ei fod yn bedair oed, rhoddai arian i weision y meirch er cael caniatâd i arwain y meirch i'r dwfr.

"Arglwydd," ebe ei wraig wrth Deyrnnon, "pa le y mae'r ebol a achubaist y nos y cefaist y mab?"

"Rhoddais ef i'r gweision," ebe ef, "a dywedais wrthynt am ofalu yn neulltuol am dano."

"Ai nid gwell fyddai i ti," ebe hi, "ei ddofi ef a'i roddi i'r bachgen, canys y nos y cefaist y bachgen y ganed yr ebol, ac yr achubaist ti ef?"

"Nid wyf yn erbyn hynny," ebe Teyrnnon, "a mi a adawaf i ti ei roddi iddo."

"Gwnaf hynny, gyda phleser," ebe hi.

Felly rhoddwyd y march i Wri Gwallt Euryn, a daeth yr arglwyddes at weision yr ystabl i orchymyn iddynt ofalu am y march i'w ddofi erbyn yr amser yr elai y bachgen i farchogaeth arno, a dwyn clod iddo ei hun.

Ac ar yr adeg yma clywsant yr hanes am Riannon a'i chosb. Gofidiodd Teyrnnon yn fawr wrth glywed yr hanes, a cheisiodd yn fanwl glywed y cwbl am Riannon. Holai yn barhaus bawb a ddeuai i'r llys; a chwynai'r rhai hynny oherwydd blinder mawr Rhiannon.

Meddyliodd Teyrnnon lawer am yr hyn a glywai, ac wrth edrych ar y bachgen yn fanwl, credai na welsai erioed fab a thad mor debyg i'w gilydd a'r bachgen hwn a Phwyll Pen Annwn. Gwyddai am Bwyll yn dda, canys bu cyn hyn yn un o'i wŷr.

Ar ol hyn gofidiodd wrth feddwl ei fod yn cadw'r mab, ac yntau yn gwybod ei fod yn fab i Bwyll. A phan gafodd amser cyfleus dywedodd wrth ei wraig, nad oedd yn iawn iddynt hwy gadw y mab ac achosi

cymaint poen i wraig mor dda a Rhiannon drwy hynny, oblegid credai yn sicr fod y bachgen yn fab i Bwyll. A chytunodd gwraig Teyrn on anfon y mab at Bwyll.

“Ac ni a gawn dri pheth am hynny,” ebe hi : “diolch a rhoddion am ollwng Rhiannon yn rhydd o’r poen y mae ynddo ; diolch gan Bwyll am fagu’r mab, a’i ddwyn yn ol iddo ; a’r trydydd peth, os bydd i’r mab dyfu i fod yn ŵr caredig, efe a wna’r goreu a allo drosom.”

A phenderfynasant felly fyned a’r mab yn ol i Bwyll.

Calan-Mai : y dydd cyntaf o | Terfysg : swm mawr.
fis Mai.



XI.—DWYN Y BABAN YN OL AT RIANNON.

A thrannoeth trefnodd Teyrn on ei farchogion—efe yn drydydd, a’r mab yn bedwerydd (ar y march a roddasai Teyrn on iddo), ac aethant tuag Arberth, ac ni fuont yn hir cyn cyrraedd. A phan ddaethant yn agos i’r llys, gwelent Riannon yn eistedd yn ymyl yr esgyn-faen. A phan ddaethant yn agos ati, dywedodd wrthynt :

“Ha, bendefigion, nae ewch ymbellach ; mi a gariaf bob un o honoch hyd y llys ; hynny yw fy nghosb am ladd fy mab fy hun.”

“Ha, wraig dda,” ebe Teyrn on, “nid yw yn debyg y cymer neb o honom ni i ti ei ddwyn.”

“Cymered y neb a fynno,” ebe’r mab, “ni chymeraf fi fy nwyn.”

“Yn wir,” ebe Teyrnnon, “ni chymerwn ninnau.”
Aethant i'r llys, a derbyniwyd hwy gyda llawenydd mawr.

Ac yr oeddynt yn dechreu gwledd yn y llys. Yr oedd Pwyll newydd ddod o'i deithiau yn Nyfed. Daethant i'r neuadd i ymolchi, a rhoddodd Pwyll groesaw mawr i Deyrnnon. Wedi gorffen bwyta, dechreuasant ymddiddan, a dywedodd Teyrnnon yr holl hanes am y gaseg, ac am y mab, fel yr ystyrriid ef yn fab iddynt hwy—Teyrnnon a'i wraig,—ac fel y magasent ef.

“Ac wele dyma dy fab i ti,” ebe Teyrnnon, “a phwy bynnag a ddywedodd anwiredd am danat, a wnaeth gam a thi. A minnau, pan glywais am y gofid a fu arnat, a fublin gennyf, ac a ofidiais. Ac ni chredaf fod yma un yn y wledd heno nad yw yn gweled fod y bachgen yn fab i Bwyll.”

“Sicr yw gennym hynny,” ebe pawb.

“Yn wir,” ebe Rhiannon, “diflannodd fy mhryder i os gwir yw hynny.”

“Arglwyddes,” ebe Pendaran Dyfed, “da y gelwaist dy fab Pryderi (hynny yw, fy mhryder i) a'r enw goreu iddo fydd Pryderi, fab Pwyll, Pen Annwn.”

“Edrychwch,” ebe Rhiannon, “feallai fod gwell enw arno yn awr.”

“Pa beth yw ei enw?” ebe Pendaran Dyfed.

“Gwri Gwallt Euryrn y galwasom ni ef,” ebe Teyrnnon.

“Pryderi fydd ei enw ef,” ebe Pendaran.

“Gwell yw hwnnw,” ebe Pwyll, “ac iawn iddo gael yr enw oddiwrth y gair a ddywedodd ei fam pan glywodd y newydd am dano.”

Ac felly y galwyd ei enw ef Pryderi.

“Teyrnnon,” ebe Pwyll, “taled Duw i ti am fagu fy mab hyd yr awr hon, ac iawn fydd iddo yntau, os bydd yn ŵr caredig, dalu i ti.”

“Arglwydd,” ebe Teyrnnon, “nid oes neb yn galaru mwy ar ei ol na'r wraig a'i magodd; ac iawn fydd iddo gofio fy ngwraig a minnau am yr hyn a wneuthom iddo.”

“Yn wir,” ebe Pwyll, “tra y byddaf byw, a thra y gallaf gynnal fy nheyrnas fy hun, mi a'th gynorthwyaf di a'th deyrnas hefyd. Ac os daw Pryderi yn fy lle, bydd ef yn sier o'th gynnal. Ac os yw boddlon gennyt ti a'r pendefigion hyn, rhoddwn ef i Bendaran Dyfed o hyn allan i'w fagu fel y megaist ti ef hyd yn awr, a byddwch chwithau gyfeillion a thadmaethau iddo.”

“Cyngor iawn yw hynny,” ebe pawb.

Yna y rhoddwyd y mab i Bendaran Dyfed, ac aeth gwŷr mawr y wlad gydag ef. Cychwynnodd Teyrnnon a'i gyfeillion tua'u gwlad mewn cariad a llawenydd. Cynhygiwyd iddo y tlysau tecaf, a'r meirch harddaf, a'r cwn goreu, ond ni fynnai efe ddim.

Magwyd Pryderi, fab Pwyll, Pen Annwn, yn ofalus, hyd nes y daeth i fod y gwr ieuanc harddaf a thecaf, a'r goreu ymhob camp dda yn y deyrnas. Felly yr aeth y flwyddyn a'r blynyddau heibio, nes y bu Pwyll, Pen Annwn, farw.

Teyrnasodd Pryderi ar saith gantref Dyfed yn llwyddiannus, ac yr oedd yn barchus drwy ei holl deyrnas, a chyda phawb o'i amgylch. Ar ol hynny, unodd dri chantref Ystrad Tywi, a phedwar cantref Ceredigion, a gelwir y rhai hynny yn Saith Gantref Seisyllwch. A theyrnasodd Pryderi, fab Pwyll, Pen

Annwn, ar y deyrnas gynhyddol hon, hyd nes y daeth i'w fryd i briodi. A'r wraig a fynnodd oedd Ciefa, ferch Wyn Gohoew, fab Gloew Wallt Lydan, fab Casnar Wledig, un o benedigion yr ynys hon.

Ac felly y terfyna'r rhan hon o'r Mabinogion.

Mabinogion : storïau i bobl
ieuainc.

Ceredigion : Sir Aberteifi.

Ystrad Tywi : rhan o Gaer-
fyrddin, drwy'r hon y llifa'r
Tywi.



BRANWEN, FERCH LLYR.

I.—MATHOLWCH YN CEISIO BRANWEN.

Yr oedd Bendigaid Frân yn frenin ar yr ynys hon, ac anrhydeddwyd ef a choron ardderchog Llundain. Un prynhawn yr oedd yn Harlech yn Ardudwy, ac eisteddai ar graig Harlech, uwchben y môr. Gydag ef yr oedd ei frawd Manawyddan ap Llyr, a dau frawd o'r un fam ag ef—Nisien ac Efnisien. Yr oedd yno hefyd lu o bendefigion ereill, fel y gweddai fod o gylch brenin.

Yr oedd y ddau frawd—Nisien ac Efnisien—yn feibion i Euroswydd, ond eu mam hwy a Bendigaid oedd Penardim, ferch Beli ap Mynogan. Yr oedd un o'r gwŷr ieuainc hynny yn ŵr da, a dygai heddwch i'r teulu, pan fyddent yn lliidiog—a hwnnw oedd Nisien. Y llall, Efnisien, a barai ymladd, pan fyddai pawb yn heddychol.

Pan eisteddent felly, gwelent dair llong ar ddeg yn dyfod o ddeheu'r Iwerddon tuag atynt gyda chyflymder, yn cael eu gyrru gan y gwynt.

"Gwelaf longau draw," ebe'r brenin, "yn dyfod yn gyflym tua'r tir. Gorchymynnwch i wŷr y llys wisgo a myned i ofyn beth yw neges y bobl yma."

Ac wedi ymwisgo, aeth y gwŷr i waered at y llongau.

Ac wedi gweled y llongau, yr oedd yn sicr ganddynt na welsant erioed eu gwell; ac yr oedd baneri o sidan arnynt. Ar hynny rhagflaenodd un o'r llongau y lleill; a hwy a welent darian yn uwch na bwrdd y llong, a'r swch i fyny fel arwydd o heddwch; a daeth y gwŷr

yn nes atynt fel y gallent glywed eu gilydd. Yna, bwrw badau allan a wnaethant, a dyfod tua'r tir, a chyfarch gwell i'r brenin.

Clywai'r brenin hwynt o'r graig uchel uwch eu pen.

"Duw a'ch bendithio," ebe efe, "a phob croesaw i zhwï. Pwy biau y llongau hyn, a phwy sydd ben arnynt?"

"Arglwydd," ebe'r gwŷr, "y mae Matholwch, brenin yr Iwerddon, yma, ac efe yw perchennog y llongau hyn."

"Pa beth a geisia?" ebe'r brenin. "A fyn efe ddyfod i'r tir?"

"Na fyn, Arglwydd," ebe'r gwŷr; "y mae ganddo neges atat ti, ac os na cha ei neges, ni ddaw i dir."

"Pa beth yw ei neges?" ebe'r brenin.

"Y mae am ymuno a'th deulu di, Arglwydd," ebe'r gwŷr, "a daw i geisio Branwen, ferch Llyr, yn wraig, ac os da gennyt, y mae am uno Ynys y Cedyrn a'r Iwerddon yn un, fel y byddont gadarnach."


"Ië," ebe'r brenin, "deued ef i dir, a ni a ymgynghorwn ar hyn."

Dygwyd yr atebiad yn ol at Fatholwch, ac ebe efe:

"Mi a âf yn llawen."

Ac efe a aeth i dir, a buwyd yn llawen iawn yn y llys y nos honno rhwng ei wŷr ef a gwŷr y llys. Drannoeth cymerwyd cyngor, pryd y penderfynwyd rhoddi Branwen i Fatholwch. Branwen oedd un o dair prif riannod yr ynys hon, a hi oedd y forwyn decaf yn y byd.

Trefnwyd i'r briodas gymeryd lle yn Aberffraw.



^
BENDIGAID FRAN YN GWELD LLONGAU MATHOLWCH

A chychwynnodd yr holl wŷr tuag yno—Matholwch a'i wŷr yn y llongau, a Bendigaid Frân a'i wŷr ar hyd y tir. Ac wedi iddynt ddyfod i Aberffraw, dechreuwyd y wledd. Ac fel hyn yr eisteddent yn y wledd—Brenin Ynys y Cedyrn yn y canol, a Manawyddan ap Llyr ar y naill ochr iddo, a Matholwch ar yr ochr arall, a Branwen, ferch Llyr, yn ei ymyl. Nid oeddynt mewn tŷ, ond mewn pebyll—yr oedd Bendigaid Frân yn rhy fawr i'r un tŷ ei gynnwys.

Dechreuwyd y wledd, ac yn gloddesta ac ymddiddan y buont. A phan welsant mai gwell oedd myned i gysgu, hwy a roisant heibio gwledda. A'r nos honno y priodwyd Matholwch a Branwen. Trannoeth cyfododd holl deulu y llys, a dechreuodd y swyddogion drefnu a rhannu'r meirch a'r gweision, a hwy a'u rhanasant ar hyd y tir hyd at y môr.

Llidiog: mewn tymer ddrwg.

Ab } : mab.

Ap }

Ap Llyr: mab Llyr.

Rhagflaenodd: aeth o flaen y lleill.

Swch y darian: y rhan isaf o'r darian.

Gloddesta: bwyta ac yfed llawer.

Aberffraw: yma yr oedd llys tywysogion Gwynedd. Y mae y dref yn Sir Fôn.

Arduw: rhan o Feirion

Ynys y cedyrn: Prydain.



II.—EFNISIEN YN ACHOSI GOFID.

Un diwrnod, pan yr oedd pawb ereill yn llawen, daeth Efnisien, y gwr anheddychol y soniwyd am dano uchod, i'r fan lle yr oedd meirch Matholwch, ac a ofynnodd pwy oedd perchennog y meirch.

“Meirch Matholweh, brenin yr Iwerddon, yw y rhai hyn,” ebe gwŷr y tŷ.

“Pa beth a wnant hwy yma?” ebe efe.

“Yma y mae'r brenin, gwr Branwen, dy chwaer,” ebe'r gwŷr, “a'i feirch ef yw'r rhai hyn.”

“Ha,” ebe Efnisien, “ai felly y gwnaethant i'r forwyn dŕg honno, sef ei rhoddi—a lithau yn chwaer i mi—heb fy nghaniatâd? Ni allent daflu mwy o ddirmyg arnaf.”

Ac yna yr aeth i blith y meirch, ac a dorrodd eu gweflau wrth eu dannedd, a'u clustiau wrth eu pennau, a'u rhawn wrth eu cefnau, ac os na chai afael yn eu hamrannau, torrai hwynt hyd at yr asgwrn; ac felly yr anffurfiodd y meirch, ac a'u gwnaeth yn hollol ddiwerth.

A daeth y newydd at Fatholweh, a dywedwyd wrtho fod ei feirch wedi eu hanffurfio, a'u gwneud yn hollol ddiwerth.

“Ië,” ebe un, “er dy waradwyddo y gwnaed hyn, ac eglur yw mai dy waradwyddo a geisiant.”

“Syn gennyf,” ebe Matholweh, “os mai er fy ngwaradwyddo y gwnaed hyn iddynt roddi i mi forwyn mor urddasol ac mor anwyl gan ei chenedl a Branwen.”

“Arglwydd,” ebe un arall, “gweli fel y mae pethau, ac nid oes gennyf ddim i'w wneud ond dychwelyd i'rh longau.”

A hynny a wnaeth Matholweh.

Dywedwyd wrth Fendigaid Frân fod Matholweh yn gadael y llys heb ei ganiatâd, ac aeth cenhadau i ofyn i Fatholweh paham y gwnai hynny. Y cenhadau hyn oeddynt Iddig ab Anarawd a Hefeydd Hir. A phan

ôdaliasant hwy Fatholwch, gofynasant iddo paham y darparai fyned i ffwrdd, a phaham y mynnai fyned ymaith.

"Yn wir," ebe efe, "pe gwyddwn, ni ddelwn yma; cefais fy nirmygu, ac ni fu neb yn fwy anffodus ar neges nag y bwm i wrth ddyfod yma; digwyddodd peth rhyfedd iawn i mi."

"Pa beth yw hynny?" meddent hwy.

"Rhoddwyd i mi," ebe Matholwch, "un o dair prif riannod y deyrnas, sef Branwen, ferch Llyr. Mi a briodais ferch i frenin Ynys y Cedyrn, ac ar ol hynny fe'm gwaradwyddwyd, ac y mae yn rhyfedd gennyf na wnaed hynny cyn rhoddi i mi forwyn mor ardderchog."

"Yn wir," ebe'r gwŷr, "nid o fodd neb yn y llys nac yn y cyngor y gwnaed y gwaradwydd yma i ti. A chan i ti gael dy waradwyddo, y mae y gwaradwydd yn fwy i Fendigaid Frân nag i ti."

"Y mae hynny yn wir," ebe Matholwch, "ond nis gall efe ddileu y gwaradwydd a gefais."

Aéth y cenhadau yn ol at Fendigaid Frân, ac a ddywedasant wrtho atebiad Matholwch.

"Yn wir," ebe Bendigaid, "ni thâl i ni ei adael i fyned i ffwrdd mewn teimladau drwg, ac nis gadawn iddo chwaith."

"Anfon genhadau ar ei ol," ebe'r gwŷr.

"Anfonaf," ebe Bendigaid. "Cyfodwch, Fanawyddan ap Llyr, a Hefeydd Hir ac Unig Glew Ysgwydd, ac ewch ar ei ol ef, a dywedwch wrtho y caiff farch am bob un a anafwyd, ac fel iawn am y dirmyg, efe a gaiſſ ffon o arian cyhyd ag ef ei hun, a chlawr o aur cyflled a'i

wyneb; a dywedwch wrtho hefyd pwy a wnaeth y weithred ddrwg honno, ac mai yn erbyn fy ewyllys i y gwnaed hynny, a chan mai brawd un-fam a mi a wnaeth y drwg, nid yw yn hawdd gennyf ei ladd na'i ddifetha. Dywedwch wrtho am ddod i ymweled a mi, a mi a wnaf dangnefedd ag ef fel y mynno efe ei hun."

Y cenhadau a aethant ar ol Matholwch, ac a fynegasant iddo yn garedig yr hyn a ddywedasai Bendigaid Frân, ac efe a wrandawodd arnynt.

"Ha wŷr," ebe Matholwch, "ni a gymerwn gyngor."

A hwy a ddaethant i'r penderfyniad, pe gwrthodent y cynnyg hwn, y byddai yn debycach iddynt dderbyn cywilydd a fyddai fwy, na derbyn iawn a fyddai gymaint. Felly hwy a aethant i'r llys yn heddychol; ac yno y trefnwyd pabell iddynt ar ddull neuadd, a hwy a aethant i fwyta.

Amrannau: y croen sydd yn cau dros y llygaid.

Anffurfio: niweidio nes gwneud yn hagr.

Gweflau: gwefusau.

Anafwyd: clwyfwyd.

Urddasol: o deulu uchel.

Gwaradwyddo { gwneud
yn fach o

Dirmygu { honno.



III.—BENDIGAID YN GWNEUD Y GOLLED I FYNY.

Yna Matholwch a Bendigaid Frân a ddechreusant ymddiddan a'u gilydd, a thybiai Bendigaid Frân fod Matholwch yn drist iawn oherwydd y dirmyg a gawsai, ac am na chawsai ddigon o iawn am y cam.

"Ha, wŷr," ebe Bendigaid Frân, "nid wyt mor llawen heno ag arfer, ac os mai oherwydd bychander yr iawn a

gefaist y mae hyn, ti a gei ychwaneg yn ol dy ewyllys dy hun, ac yfory rhoddaf y meirch i ti yn ol fy addewid."

"Arglwydd," ebe Matholwch, "Duw a dalo i ti."

"A mi a ychwanegaf hefyd at fy iawn," ebe Bendigaid Frân; "rhoddaf bair i ti o'r fath, fel os lleddir un o'th wŷr heddyw, ac y teflir ef i'r pair, erbyn yfory y bydd byw, ac mor iach ag a fu erioed, ond ni fydd yn gallu siarad."

A Matholwch a ddiolchodd yn fawr i Fendigaid, a llawen iawn oedd ganddo gael y pair. Trannoeth talwyd y meirch i Fatholwch tra y parhâodd meirch dof yn y lle; yna yr aethant i le arall, a rhoddasant ebolion iddo nes gwneud y nifer i fyny; a galwyd y lle hwnnw Tâl Ebolion.

Yr ail noson, eisteddasant ynghyd eto.

"Arglwydd," ebe Matholwch, "o ba le y cefaist y pair a roddaist i mi?"

"Rhoddwyd ef i mi," ebe Bendigaid, gan ŵr a fu yn dy wlad di, ac nis gwn nad yno y cafodd ef."

"Pwy oedd hwnnw?" ebe Matholwch.

"Llasar Llaesyfnewid," ebe Bendigaid, "a ddaeth yma o'r Iwerddon, a Chymideu Cymeinfol, ei wraig, gydag ef, y rhai a ddianghasant o'r ty haearn yn yr Iwerddon, pan wnaed y lle yn wyn-boeth o'u hamgylch. Y mae yn syn gennyf na chlywaist ti ddim am hynny."

"Gwn am yr hanes," ebe Matholwch, "a dywedaf wrthyf yr oll. Un diwrnod yr oeddwn yn hela gerllaw llyn a elwid Llyn y Pair, a mi a welwn ŵr melyn goch mawr yn dyfod o'r llyn, a phair ar ei gefn; a gwr gofidus yr olwg arno, ac erchyll ei wedd, ydoedd. Canlynai gwraig ef; ac os oedd ef yn fawr, yr oedd y wraig yn

fwy ddwywaith nag ef. Daethant tuag ataf, a chyfarchasant well i mi. 'Pa beth yw eich neges?' ebe fi. Dywedasant eu neges, ac yna cymerais hwynt i'r tŷ, a buont gyda mi am flwyddyn yn gysurus; eithr o hynny allan dechreusant beri gofid i'm gwŷr, a'm gwŷr a godasant i'w herbyn, ac a ddymunasant arnaf eu gyrru o'r wlad; a dywedasant wrthyf fod yn rhaid i mi ddewis naill ai cadw fy nheyrnas, neu eu cadw hwy. Yna yr ymgynghorais pa beth i'w wneud a hwynt. Nid aent o'u bodd, ac nis gellid eu gyrru o'u hanfodd. Yn y diwedd penderfynwyd gwneuthur ystafell o haearn, a galw pob gôf yn yr Iwerddon ynghyd, a gosod llawer o lô o amgylch yr ystafell. Gosodwyd hefyd yn yr ystafell ddigonedd o fwyd a diod i'r gwr a'r wraig, a'r plant; a phan ddeallwyd eu bod wedi meddwi, gosodwyd tân wrth y glô oedd o amgylch yr ystafell, a chwythwyd ef gan feginau, hyd nes oedd yr ystafell yn goch gan y tân. Yna yr ymddiddanasant a'u gilydd ynghanol yr ystafell, ac arhosodd y gwr nes oedd un ochr i'r ystafell yn wŷn gan y gwres, ac yna, oherwydd y gwres mawr, rhuthrodd a'i ysgwydd yn erbyn yr ochr, ac a aeth allan drwyddi, a'i wraig yn ei ganlyn, ond ni ddihangodd neb arall; a dyna'r adeg yn ddiau y daeth efe yma atat ti."

"Yn wir," ebe Bendigaidd, "efe a ddaeth yma, ac a roddodd y pair i mi."

Y noson honno y bu canu a chyfeddach, hyd nes y tybiasant ei bod yn well myned i gysgu. Ac felly y treuliasant y nos mewn digrifwch. Wedi gorffen y wledd, cychwynnodd Matholwch a Branwen tua'r Iwerddon; ac o Aber Menai y cychwynasant mewn tair llong ar ddeg, ac a ddaethant hyd yn Iwerddon.



BRANWEN YN DYSGU'R ADERYN

Yn yr Iwerddon cawsant groesaw mawr. Ni ddelai gwr o nôd, na gwraig dda, i ymweled a Branwen, na roddai hi iddynt fodrwy neu dlws teilwng cyn myned o'r llys. Ac felly y treuliodd hi y flwyddyn honno mewn parch mawr. Ymhen amser, ganwyd mab iddi, a galwyd ef Gwern ap Matholwch, a rhoddwyd ef i'w fagu yn y lle yr oedd gwŷr goreu Iwerddon.

Pair: llestr mawr ar gyfer
berwi pethau ynddo.

Erchyll ei wedd: a golwg
hagr a chas arno.

Digrifwch: llonder.

Aber Menai: lle ar lan
calfor Menai.



IV.—DYRNOD BRANWEN.

Yn yr ail flwyddyn, wedi i Fatholwch ddychwelyd, bu terfysg yn yr Iwerddon oherwydd y dirmyg a gafodd Matholwch yng Nghymru, ac am y niwed a wnaed i'w feirch. Gwawdiai brodyr Matholwch ef o hyd am y sarhâd a gafodd, ac ni chawsai heddwch hyd nes dial am y gwaradwydd. A'r dial a wnaethant oedd gyrru Branwen o'i ystafell ef, a'i gwneud yn gogyddes yn y llys, a gorchymynnwyd i'r cigydd, wedi iddo fod yn torri cig, roi bonclust bob boreu iddi.

“Arglwydd,” ebe'r gwŷr, “gorchymyn na chaiff un llong fyned o'r Iwerddon i Gymru, ac os daw rhywrai yma o Gymru, carchara hwynt, fel nad êl y newydd am Franwen i Gymru.”

Penderfynwyd hynny, ac felly y bu am dair blynedd.

Ac yn yr amser hwnnw, dysgodd Branwen aderyn bychan i siarad a hi, ac a ddywedodd wrtho y fath ddyn

oedd ei brawd ; a hi a ysgrifennodd lythyr yn disgrifio ei phoenau a'i hamarch, ac a'i rhwymodd ar aden yr aderyn, ac a'i anfonodd tua Chymru. A'r aderyn a ddaeth i'r ynys hon, ac a gafodd Fendigaid Frân yng Nghaer Seiont yn Arfon, ac efe a ddisgynnodd ar ei ysgwydd, ac a ysgydwodd ei blu hyd oni chanfuwyd y llythyr, a gwybuwyd fod yr aderyn yn ddôf.

○ Yna y cymerwyd y llythyr, ac wedi ei ddarllen, gofiodd Bendigaid Frân oherwydd trallod Branwen ; ac efe a anfonodd genhadau i alw holl wŷr yr ynys ynghyd, ac a barodd i holl alluoedd pedair gwlad a saith ugain ddyfod ato, ac a ddywedodd ei gŵyn wrthynt am boen Branwen. Penderfynasant fyned i'r Iwerddon, a gadael saith o wŷr yn dywysogion yma, a Charadog ap Brân yn ben arnynt hwy. Arhosai y saith hyn i ofalu am yr ynys, a Charadog ap Brân oedd y prif swyddog.

A Bendigaid Frân a'i lu a hwyliasant tua'r Iwerddon, ac ni fuont yn hir ar y môr cyn dyfod i ddwfr bâs, lle nad oedd ond dwy afon a elwid Lli ac Archan. Yna y cerddodd Bendigaid, a'i glud ar ei gefn.

Ac yr oedd gweision Matholwch ar lan y môr, a hwy a ddaethant at Fatholwch, ac a ddywedasant wrtho :

“ Henffych well ! Arglwydd.”

“ Duw a'ch bendithio,” ebe efe. “ Pa newydd sydd gennych ? ”

“ Y mae gennym newydd rhyfedd iawn,” ebe'r gweision. “ Gwelsom goed yn y môr mewn man na welsom erioed o'r blaen yr un pren.”

“ Dyna beth rhyfedd,” ebe Matholwch, “ a welsoch chwi ddim arall ? ”

“Gwelsom,” meddent, “fynydd mawr gerllaw i'r coed, ac ochr uchel oedd i'r mynydd, a llyn o bob tu i'r ochr, ac yr oedd y coed a'r mynydd, a phopeth arall, yn cerdded.”

“Yn wir,” ebe Matholwch, “ni wŷr neb ddim am hyn, os na wŷr Branwen; gofynnwch iddi.”

Aeth y cenhadau at Franwen, ac a ofynasant iddi:

“Pa beth a debygi di yw hyn?”

“Gwŷr Ynys y Cedyrn sydd yn dyfod drosodd,” ebe hi, “am iddynt glywed am fy mhoen a'm gofid.”

“Pa beth yw y coed a welid ar y môr?” ebe'r cenhadau.

“Hwylbrennau llongau ydynt,” ebe hi.

“Pa beth oedd y mynydd welid wrth ochr y llongau?”

“Bendigaid, fy mrawd, yw hwnnw,” ebe hi, “yn dyfod i'r dwfr bās; nid oes llong a eill ei ddâl.”

“Pa beth yw 'r ochr uchel, a'r llyn o bob tu i'r ochr?”

“Efe ydyw,” ebe hi, “yn edrych yn lliidiog ar yr ynys hon, a'i ddau lygad o bob tu i'w drwyn yw y ddau lyn o bob tu i'r ochr.”

Yna y casglwyd holl wŷr Iwerddon ynghyd i ymgynghori ar hyn.

“Arglwydd,” ebe'r gwŷr wrth Fatholwch, “nis gellir gwneud dim yn well na chilio dros Linon (afon yn Iwerddon), a gadael Llinon rhyngot ag ef, a thorri 'r bont sydd ar yr afon, canys y mae maen sugn yng ngwaelod yr afon, ac nis gall llong na llestr fod arni.”

Felly hwy a giliansant dros yr afon, ac a dorasant y bont.

Dyrnod: ergyd yn achosi poen

Bonclust: ergyd â'r llaw ar y glust.

Canfuwyd: gwelwyd.

Gwybuwyd: deallwyd.

Dwfr bas: hynny yw, dwfr heb fod yn ddwfn.

Maen sugn: craig a gallu i dynnu pethau at.

Henffych well: ffordd o annereh.

Caerseint: hên enw Caernarfon

Clud: baich.



V.—BENDIGAID YN YR IWERDDON.

A daeth Bendigaid Frân i'r tir, a'i llynges gydag ef, tua glan yr afon.


"Arglwydd," ebe ei wŷr wrtho, "ni a wyddom natur yr afon hon. Ni eill neb fyned trwyddi, ac nid oes pont arni. Pa beth yw dy gynllun ynghylch pont?"

"Nid oes gennyf gynllun," ebe Bendigaid Frân, "ond a fo ben, bydded bont. Myfi a fyddaf bont."

Y pryd hwn y dywedwyd y ddihareb hon gyntaf, ac y mae yn ddihareb hyd heddyw.

Wedi i Fendigaid orwedd dros yr afon, gosodwyd clwydi arno, ac aeth ei luoedd drosto. Yna, cyfododd, a daeth cenhadau oddiwrth Fatholwech yn cyfarch gwell iddo, ac yn ei annereh yn enw Matholwech, ei berthynas (gwr ei chwaer, Branwen), ac yn dywedyd wrtho na haeddai ef o'i law ond da. "Ac y mae Matholwech," meddent, "yn rhoddi brenhiniaeth Iwerddon i Wern, fab Matholwech, a dy nai dithau, fab dy chwaer, a hyn a wna yn dy wŷdd yn lle 'r cam a'r dirmyg a wnaed i Franwen; ac yn y lle y mynni di, ai yma ai yn Ynys y Cedyrn y bydd Matholwech fyw."

"Yn wir," ebe Bendigaid Frân, "oni chaf fi y frenhiniaeth fy hun, nid ymgynghoraf ar y cynnyg a



"A FO BEN, BYDDED BONT."

wnewch, ac hyd nes y dygwech well cynnyg i mi, dyna yr unig ateb a gewch gennyf."

"Ni a ddygwn atat yr ateb goreu a gawn," ebe'r gwŷr, "ac aros dithau am ein cenadwri ni."

"Arhosaf," ebe efe, "a deuwch yn ebrwydd."

Dychwelodd y cenhadau at Fatholwch, ac a ddywedasant wrtho :

"Paratôa ateb gwell i Fendigaid Frân; ni wrandawai ddim ar yr ateb oedd gennym iddo."

"Pa beth yw eich cyngor chwi?" ebe Matholwch.

"Arglwydd," ebe'r gwŷr, "nid oes ond un cyngor i ti. Ni thrigodd efe mewn tŷ erioed. Felly gwna dŷ i'w gynnwys ef a'i wŷr yn un rhan o honno, a thithau a'th wŷr yn y rhan arall, a dyro dy frenhiniaeth iddo ef, a thâl warogaeth iddo; ac oherwydd yr anrhydedd o wneuthur tŷ iddo, efe a wna heddwch â thi."

A'r cenhadau a aethant â'r ateb yna at Fendigaid Frân, ac wedi iddo gymeryd cyngor, penderfynwyd derbyn cynnyg Matholwch. Trwy gyngor Branwen y gwnaed hyn, a rhag dinistrio'r wlad y cynghorodd hi felly. Wedi gwneuthur y cytundeb, adeiladwyd y tŷ yn fawr ac eang; ond y Gwyddyl a gynllwynasant frâd, a dyma'r ffordd y gwnaethant: Gosodwyd hoel ar bob colofn ag oedd yn y tŷ, a gosodwyd ffetan ar bob hoel, a gwr arfog ym mhob un o honynt. Ond Efnisien a ddaeth i fewn o flaen llu Ynys y Cedyrn, ac a edrychodd a golwg wyllt ar hyd y tŷ, ac a welodd y ffetanau ar y colofnau, ac a ofynnodd i un o'r Gwyddyl:

"Pa beth sydd yn y ffetan yma?"

"Blawd, syr," ebe yntau.

Ac Efnisien a deimlodd hyd nes y cafodd afael ym mhen y Gwyddel oedd yn y ffetan, ac a'i gwasgodd nes i'w fysedd gyffwrdd a'r ymennydd trwy'r asgwrn. Yna y gadawodd hwnnw, ac a ddododd ei law ar un arall, a gofynnodd :

“ Pa beth sydd yma ? ”

“ Blawd,” meddai'r Gwyddyl.

Ond Efnisien a wnaeth yr un peth a phob un o'honynt, hyd nas gadawodd yn fyw ond un gwr o'r dau cant oedd yn y ffetanau.

Ac efe a ddaeth at hwnnw, ac a ofynnodd :

“ Pa beth sydd yma ? ”

“ Blawd, syr,” ebe'r Gwyddyl eto.

Yna y teimlodd Efnisien ef hyd nes y cafodd ei ben, ac fel y gwnaeth efe â'r lleill, y gwnaeth efe â hwn, ac nis gadawodd ef nes ei ladd. Ac yna y canodd y pennill hwn :

“ Mae yn y ffetan flawd tra neilltuol,
Milwyr glew arfog, i ymladd yn wrol ;
Parod i ryfel. Fradwriaeth anghueol ! ”

A fo ben, bydded bont :
os yw dyn am godi i safle uchel
rhaid iddo wasanaethu ereill.
Dihareb : dywediad doeth
mewn geiriau byr.
Yn ebrwydd : ar unwaith.
Gwyddyl : trigolion yr
Iwerddon.

Bradwriaeth anghueol :
ymddanghosai 'r Gwyddyl yn
gyfeillgar, ac ar yr un pryd yr
oeddynt wedi paratoi mewn
modd dirgel i ladd gwyr Ynys
y Cedyrn.

VI.—TYNGED ALAETHUS GWYR YNYS
Y CEDYRN A BRANWEN.

Ar hynny daeth y gwŷr i'r ty—gwŷr Ynys y Cedyrn i fewn i un ran o'r ty, a gwŷr Ynys Iwerddon trwy'r porth arall. Ac wedi iddynt eistedd ynghyd, gwnaethant gytundeb a'u gilydd, a rhoddwyd y frenhiniaeth i'r mab. Yna, wedi gwneuthur heddwch, galwodd Bendigaidd Frân y mab ato, ac oddiwrth Fendigaid aeth y mab at Fanawyddan. A phawb a'i gwelai a'i carai.

A galwodd Nisien, fab Euroswydd, y mab ato oddiwrth Fanawyddan, ac yntau a aeth ato yn wylaidd. Yna y dywedodd Efnisien :

“Paham na ddaw fy nai, fab fy chwaer, ataf fi? Pe na byddai yn frenin Iwerddon, buasai yn dda gennyf groesawi'r mab.”

“Efe a ddaw atat yn llawen,” ebe Bendigaidd Frân. A'r mab a wnaeth felly.

Yna y dywedodd Efnisien ynddo ei hun :

“Ni thybia'r teulu am y gyflafan a achosaf yn awr.”

Ac efe a gododd i fyny, ac a gymerodd y mab wrth ei draed, ac heb oedi, a chyn i neb ei rwystro, taflodd y mab dros ei ben i'r tân poeth. A phan welodd Branwen ei mab yn llosgi yn y tân, ceisiodd neidio i'r tân o'r lle yr eisteddai rhwng ei dau frawd. Ond ymaflodd Bendigaidd Frân ynddi âg un llaw, ac yn ei darian â'r llaw arall. Yna y cyfododd pawb, a bu cynnwrf mawr yn y tŷ, a chymerai pawb afael yn eu harfau.

A phan oedd pawb yn defnyddio eu harfau, amddiffynnodd Bendigaidd Frân Franwen rhwng ei darian a'i ysgwydd. Yna y dechreuodd y Gwyddyl gynneu tân o

dan y pair, ac yna y bwriwyd y cyrff i'r pair nes yr oedd yn llawn, a thrannoeth cyfodent yn wŷr ymladd cystal a chynt, eithr ni allent siarad.

Ac yna, pan welodd Efnisien nad oedd cyrff gwŷr Ynys y Cedyrn yn adfywio, dywedodd yn ei feddwl :


“Gwae fi, fy mod yn achos y golled hon i wŷr Ynys y Cedyrn, a boed gwarth arnaf os na cheisiaf ymwared rhag hyn.”

Ac yna y gorweddodd ymhlith cyrff y Gwyddyl, a daeth dau Wyddel ato, ac a'i taflodd i'r pair, gan feddwl mai Gwyddel ydoedd.

Ac efe a ymestynnodd yn y pair, hyd nes y torrodd y pair yn bedwar darn, a thorrodd ei galon yntau hefyd. Ac ar hynny troes yr ymladd yn ffafr gwŷr Ynys y Cedyrn. Dihangodd saith o'r gwŷr, ond brathwyd Bendigaid Frân a gwaewffon wenwynig yn ei droed. A dyma enwau y seithwyr a ddianghasant : Pryderi, Manawyddan, Gliferi, Eil Taran, Taliesin, Ynawg Gruddiau ap Muriel, a Heilyn ap Gwyn Hên.

Yna y gorchymynnodd Bendigaid Frân iddynt am dorri ei ben i ffwrdd.

“A chymerwch y pen,” ebe fe, “a dygwch i'r Gwynfryn yn Llundain, a chleddwch ef yno, a'i wyneb ar Ffrainc. Chwi a fyddwch yn hir ar y ffordd. Byddwch yn Harlech am saith mlynedd ar ginio, ac yno y cân adar Rhiannon, a bydd cystal gennych gael cwmi y pen, ag oedd gennych fy nghael i pan oedd arnaf. Ac yng Nghwalas ym Mhenfro y byddwch bedwar ugain mlynedd. A gellwch fod yno a'r pen heb lygru hyd nes yr agoroch y drws sy'n gwynebu ar Aber Henfelen tua Chernyw. Ond ni ellwch aros yno wedi i chwi agor



EFNISIEN YN TORRI'R PAIR

y drws hwnnw, a chwi a ewch i Lundain i gladdu y pen. Ac yn awr ewch ymlaen rhagoch."

Ac yna y torrwyd ei ben, a hwy a gymerasant y pen gyda hwy.

Ac yr oeddynt yn wyth mewn nifer, sef y seithwyr a enwyd, a Branwen. A hwy a ddaethant i dir yn Aber Alaw yn Nhal Ebolion, ac yno yr eisteddasant ac a orffwysasant.

Ac edrychodd Branwen ar gymaint ag a welai o'r Iwerddon, ac o Ynys y Cedyrn.

"Gwae fi o'm genedigaeth," ebe hi. "Dwy ynys a ddifethwyd o'm hachos i."

A hi a roes ochenaid fawr, ac a dorrodd ei chalon, fel y bu hi farw. A hwy a wnaethant fedd iddi, ac a'i claddasant hi ar lan afon Alaw.

Alaethus: ofnadwy.

Cyflafan: digwyddiad alaethus

Heb oedi: ar unwaith, heb aros dim.

Gwynfryn: bryn y Twr Gwyn yn Llundain.

Adfywio: codi yn fyw drachefn.

Ceisiaf ymward: edrychaf am ffordd i atal y dinistr.



VII.—CLADDU PEN BENDIGAID FRAN.

Ar ol marwolaeth Branwen, aeth y seithwyr tua Harlech, a'r pen ganddynt. A phan oeddynt yn cerdded, wle dyrfa o wŷr a gwragedd yn eu cyfarfod.

"A oes gennych chwi newyddion?" ebe Manawyddan.

"Nac oes," meddent hwy, "ond fod Caswallon ap Beli wedi goresgyn Ynys Prydain, a'i fod yn frenin coronog yn Llundain."

“Pa beth a ddigwyddodd i Garadog?” ebe'r gwŷr, “ac i'r seithwyr a adawyd yn yr ynys hon?”

“Daeth Caswallon i'w herbyn, a lladdodd y chwe gwŷr, a Charadog a dorrodd ei galon o dristwch, am weled cleddyf yn lladd ei wŷr, ac na wyddai pwy a'u lladdai. Gwisgai Caswallon len hud, ac ni welai neb ef yn lladd y gwŷr; y cleddyf yn unig a welent. Ni fynnai Caswallon ladd Caradog am mai ei nai, fab ei gefnder, oedd. Dihangodd Pendarar Dyfed, gwas ieuanc y gwŷr, i'r coed.”

Yna y cyrchasant hwythau Harlech, ac a ddech-reusant eistedd a chael eu gwala o fwyd a diod. Yna y daeth tri aderyn gan ddechreu canu iddynt; ac o bob cerdd a glywsant, nid oedd un i'w chymharu a chân yr adar. Gwelent yr adar o bell, draw ar y môr, ond yr oedd eu cân mor eglur a phe baent yn eu hymyl. Ac felly y buont ar ginio am saith mlynedd.

Ymhen y seithfed flwyddyn aethant tua Gwalas ym Mhenfro. Ac yno yr oedd iddynt le tég brenhinol uwch ben y môr, ac yr oedd neuadd fawr yno iddynt, a hwy a aethant i fewn i'r neuadd. Yr oedd dau ddrws i'r neuadd yn agored, ond yr oedd y trydydd, sef yr un a wynebai ar Gernyw yn gauedig.

“Dacw'r drws,” ebe Manawyddan, “nad yw yn iawn i ni ei agor.”

Y noson honno cawsant ddigon o fwyd, a digrifwch.

Ac yno y treuliasant y pedwar ugain mlynedd mwyaf dedwydd a fu erioed, ac ni wyddai neb o honynt faint o amser y buont yno. Ac yr oedd yn llawn cystal ganddynt fod pen Bendigaid Frân yno, a phe bai ef ei

hun yn fyw gyda hwynt. Ac o achos hynny y pedwar ugain mlynedd a elwid "Gwledd yr Urddol Ben."

Un diwrnod, dywedodd Heilyn ap Gwyn :

"Mefi ar fy marf os nad agoraf y drws i wybod os dywedir y gwir am dano."

Yna yr agorodd y drws, ac a edrychodd tua Chernyw, ac ar Aber Henfelen. A phan edrychasant, daeth i'w côf ar unwaith am bob colled a gawsant, am bob cyfaill a gollasant, a phob drwg a ddigwyddodd iddynt, ac yn bennaf, cofiasant am eu harglwydd, Bendigaid Frân.

Ac o'r awr honno ni allent orffwys, ond hwy a gychwynasant tua Llundain, ac a gladdasant y pen yn y Gwynfryn.

A dyma fel y terfyna y rhan hon o'r Mabinogion ynghylch dyrnod Branwen, ac ynghylch Brân, pan aeth gwŷr deg gwlad a saith ugain i'r Iwerddon i ddial dyrnod Branwen, ac ynghylch y ginio a fu am saith mlynedd yn Harlech, ac am gerdd adar Rhiannon, ac am "Wledd yr Urddol Ben" am bedwar ugain mlynedd.

"Mefi ar fy marf": ffordd arall o ddweyd "Bydded cywilydd arnaf."

Goresgyn : concro.

Cernyw : sir yng Ngorllewin Lloegr gyferbyn a Sir Benfro.



BREUDDWYD MACSEN WLEDIG.

I.—YR YMERAWDWR YN BREUDDWYDIO.


Yr oedd Macsen Wledig yn ymerawdwr yn Rhufain, ac yr oedd efe yn harddach a doethach, a mwy cymwys i fod yn ymerawdwr, na'r holl rai a fu o'i flaen ef. Un diwrnod, pan oedd y brenhinoedd yn ymgynghori a'u gilydd, dywedodd wrth ei gyfeillion :

“Dymunaf fyned i hela yfory.”

A thrannoeth, cododd yn foreu, a daeth i ddyffryn, lle yr oedd afon yn llifo tua Rhufain, a bu yn hela yn y dyffryn hyd hanner dydd. Yr oedd ganddo hefyd ddeuddeg ar hugain o frenhinoedd yn wasanaethwyr iddo. Nid i fwynhau yr hela yn unig yr aeth yr ymerawdwr mor belled, ond er dangos ei fod yn ben ar y brenhinoedd hyn.

Ac yr oedd yr haul yn uchel yn y ffurfafen, a'r gwrês yn fawr, a daeth awydd cysgu ar Facsen Wledig. A'i weision a osodasant eu tariannau o'i amgylch, ac a gadwasant wrês yr haul oddiwrtho felly. Hwya osodasant darian gerfiedig o dan ei ben, ac felly y cysgodd; ac yn ei gwsg, cafodd freuddwyd rhyfedd iawn.

Gwelai ei hun yn cerdded nes dyfod i ben uchaf y dyffryn lle yr oedd yr afon, ac efe a ddeuai i'r mynydd uchaf yn y byd. Meddyliai fod y mynydd yn cyffwrdd a'r ffurfafen. Ac wedi iddo groesi'r mynydd, gwelai ei fod yn cerdded trwy'r gwledydd harddaf a'r gwastataf a welsai erioed. A gwelai afonydd mawrion yn llifo o'r mynydd i'r môr; ac efe a gerddai hyd nes y deuai i ymyl y môr, ac yn y fan gwelai brif ddinas ar lan yr afon.



MACSEN WLEDIG YN CYSGU

Ac yn y ddinas yr oedd castell hardd, a llawer iawn o dyrrau amryliw. Ac yr oedd llynges ymhen yr afon, a dyna'r llynges fwyaf a welodd erioed. A gwelai un llong yn fwy a harddach o lawer na'r llongau ereill. Ac o'r hyn a welai ef o'r llong, yr oedd un ystyllen o aur, a'r llall o arian. Gwelai bont o asgwrn morfil yn croesi o'r llong i'r tir, a meddyliai ei fod ef yn myned ar hyd y bont i'r llong.

Yna y codwyd yr hwyliau, a thros y môr y nofiai 'r llong. Ac yna gwelai ei ddyfod i'r ynys harddaf yn y byd; ac efe a gerddai ar draws yr ynys hyd yr ymyl pellaf o honi. Gwelai gymoedd a chreigiau uchel a garw. Ni welodd o'r blaen eu cyffelyb. Ac yna gwelai ynys gyferbyn a'r tir lle yr oedd, a rhyngddo a'r ynys gwelai wlad, a'i gwastadedd mor eang a'r môr, a'i mynydd mor eang a'i choedwig.

Ac o'r mynydd yma gwelai afon yn llifo dros y wlad tua'r môr. Ac ymhen yr afon gwelai'r castell harddaf a welodd dyn erioed. Gwelai ddrws y castell yn agored, ac efe a aeth i fewn. A gwelai neuadd hardd yn y castell, a meddyliai fod tŷ y castell i gyd o aur. Meddyliai fod yr ochrau o feini gwerthfawr, disglair, a bod y drysau i gyd o aur. Gwelai hefyd droedfeinciau o aur yn y neuadd, a byrddau arian.

Ac ar y droedfainc, gyferbyn ag ef, gwelai ddau ddyn ieuanc yn chwareu gwyddbwyll; ac yr oedd ganddynt fwrdd o arian, a gwerin aur arno. Yr oedd gwisg o sidan du ar y dynion ieuainc, a rhactalau o aur yn cylymu eu gwallt, a meini disglair a phrydferth ynddynt. Yr oedd ganddynt esgidiau o ledr newydd, a byclau aur yn eu cau.

Ac wrth waelod prif golofn y neuadd gwelai ŵr, llwyd ei wallt, mewn cadair o asgwrn eliffant, ac yr oedd lluniau euraidd dau eryr arni. Yr oedd breichledau aur am ei freichiau, a llawer o fodrwyau ar ei fysedd, a rhactal aur yn cylymu ei wallt, ac yr oedd golwg nerthol arno. Yr oedd bwrdd gwyddbwyll ger ei fron, a gwialen aur yn ei law, ac yr oedd ganddo lifau dur er gwneuthur gwerin gwyddbwyll.

Gwelai hefyd forwyn o'i flaen mewn cadair euraidd, a haws fyddai iddo edrych ar yr haul, pan oedd ddisgleiriaf, nag edrych arni hi, oherwydd ei thegwch. Yr oedd ganddi wisg o sidan gwyn, a meini gwerthfawr ar ei bron. Yr oedd mantell o sidan euraidd arni, a rhactal o aur a meini gwerthfawr ynddo am ei phen, ac yr oedd gwregys o aur coch am dani. Hi oedd y forwyn harddaf a welodd dyn erioed.

Cododd y forwyn o'r gadair ger ei fron, ac efe a ddododd ei freichiau am ei gwddf, a hwy a eisteddasant ill dau yn y gadair aur. A phan ydoedd ef a'i ddwyllaw am wddf y forwyn, wele, oherwydd swm y cwn, a thrwst y tariannau wrth gyffwrdd a'u gilydd, a gweryriad y meirch, deffrôdd yr ymerawdwr.

Rhufain : tref yn yr Eidal.

Ymerawdwr : pan fydd llawer o frenhinoedd ar ranau o wlad, gelwir yr hwn sydd ben ar yr holl wlad yn ymerawdwr.

Gwastadedd : darn eang o dir gwastad.

Gweryriad : y swm a wna'r march.

Gwyddbwyll : chwareuir hwn heddyw ar fwrdd wedi ei wneud i'r pwrpas—ysgwar du a gwyn bob yn ail.

Gwerin gwyddbwyll : y brenin, brenhines, marchog, &c., y chwareuir a hwynt.

II.—MYNED I CHWILIO AM Y FORWYN.

A phan ddeffrôdd yr ymerawdwr, nid oedd egni na bywyd ynddo, oherwydd ei gariad at y forwyn a welsai yn ei gwsg. Yna y dywedodd ei wŷr wrtho :

“Arglwydd, y mae yn llawn bryd i ti gymeryd bwyd.”

Yna yr esgynnodd yr ymerawdwr ar ei farch, ac a gerddodd tua Rhufain, a golwg drist iawn arno. Ac felly y bu am wythnos gyfan mewn tristwch. Pan elai'r teulu i yfed gwin a medd o'r eur lestri, nid ai efe gyda hwynt. Pan elent hwy i wrando cerddau a diddanion, nid ai efe. A chysgu yn unig a wnai.

Ac mor amled ag y cysgai, gwelai yn ei gwsg y wraig a garai fwyaf; a phan na chysgai, ni wyddai ddim am dani, gan na wyddai y fan lle'r ydoedd. Yna y dywedodd un o weision ei ystafell wrtho un diwrnod (ac er ei fod yn was i'r ymerawdwr yr oedd yn frenin ar y Rhufeinwyr) :

“Arglwydd,” ebe efe, “y mae dy wŷr oll yn dy wawdio.”

“Paham y gwawdiant fi?” ebe'r ymerawdwr.

“Oherwydd na chânt neges nac ateb oddiwrthyt fel y ca gwŷr oddiwrth eu harglwydd, dyna'r rheswm paham y maent yn dy wawdio di,” ebe'r gwas.

“Fy ngwas,” ebe'r ymerawdwr, “galw ddoethion Rhufain yma o'm cylch, a mi a ddywedaf wrthynt paham yr wyf mor drist.”

Yna y dygwyd doethion Rhufain ato, ac efe a ddywedodd wrthynt :

“Cefais freuddwyd, ac yn y breuddwyd gwelais

forwyn, ac oherwydd fy nghariad at y forwyn, yr wyf mor ddifywyd a diegni."

"Arlwydd," ebe'r doethion, "gan y bernaist yn dda ymgynghori a ni, rhoddwn gyngor i ti; a dyma ein cyngor: Danfon genhadau am dair blynedd i dair rhan y byd i chwilio am y forwyn a welaist yn dy freuddwyd, a chan na wyddost y dydd na'r nos y daw hanes atat am dani, bydd y gobaith am dani yn dy gynnal."

Yna yr aeth y cenhadau i grwydro trwy'r byd, ac ymhen y flwyddyn dychwelasant, wedi chwilio am y lle y dywedodd yr ymerawdwr iddo weled yn ei freuddwyd. Ond ni wyddent ddim mwy am dano yn awr nag yn nechreu y flwyddyn. Yna y gofiodd yr ymerawdwr yn fiin wrth feddwl na chai fyth glywed am y wraig a garai fwyaf.

Yna y dywedodd brenin y Rhufeinwyr wrth yr ymerawdwr:

"Dos di i gychwyn hela ar y ffordd y breuddwydiaist dy fod yn myned, ai tua'r dwyrain, ai tua'r gorllewin."

Yna y cychwynnodd yr ymerawdwr eto i hela, ac a ddaeth i lan yr afon.

"Dyma," ebe fe, "y fan y gwelwn yn fy mreuddwyd, ac ymlaen gyda'r afon yr awn tua'r gorllewin."

Ac yna y cerddodd tri-ar-ddeg o wŷr ymlaen yn genhadau dros yr ymerawdwr, ac o'u blaen gwelent fynydd mawr a debygent ei fod yn cwrdd a'r ffurfafen. A dyma fel y cerddent; Yr oedd un llawes ar gapan pob un o honynt o'u blaen fel arwydd mai cenhadau oeddynt, ac na wnaent ddrwg i'r gwledydd y tramwyent

drwyddynt. Ac wedi iddynt fyned dros y mynydd hwnnw, gwelent wledydd mawrion, gwastad, ac afonydd mawrion yn rhedeg trwyddynt.

“Dyma'r tir,” meddent, “a welodd ein harglwydd.”

A hwy a gerddasant nes dyfod i ben y brif afon, ac yno y gwelent brif ddinas, a phrif gastell yn y ddinas, a thyrrau amryliw yn y castell. Yno y gwelent hefyd y llynges fwyaf yn y byd, ac un llong yn fwy na'r lleill i gyd.

“Dyma eto,” ebe'r gwŷr, “yr hyn a welodd ein harglwydd yn ei freuddwyd.”

Ac yn y llong fawr honno yr hwyliasant ar y môr, ac a ddaethant i Ynys Prydain.

A hwy a gerddasant dros yr ynys hyd nes dyfod i'r Eryri.

“Dyma eto,” meddent, “yr hyn a welodd ein harglwydd yn ei gwsg.”

A hwy a aethant ymlaen hyd nes y gwelent Ynys Môn.

“Dyma'r tir,” ebe'r gwŷr, “a welodd ein harglwydd.”

A hwy a welent Aber Sein ar lan yr afon, a gwelent borth y castell yn agored. A hwy a aethant i fewn i'r castell, a gwelent neuadd yno, ac ebe'r gwŷr :

“Wele'r neuadd a welodd efe yn ei gwsg.”

A hwy a aethant i fewn i'r neuadd, a hwy a welent ddau ddyn ieuanc yn chwareu gwyddbwyll ar droedfainc aur, a'r gwr llwyd wrth waelod y golofn yn ei gadair asgwrn yn torri gwerin gwyddbwyll. Gwelent hefyd y forwyn yn eistedd ar gadair o aur.

III.—MACSEN AC ELEN.

Pan welodd y cenhadau y forwyn, penliniasant, a dywedasant :

“Henffych well, Ymerodres Rhufain.”

“Ha, wŷr da,” ebe'r forwyn, “y mae gwedd gwŷr anrhydeddus arnoch, ac y mae gennych arwyddion cenhadau ; paham yr ydych yn fy ngwatwar ?”

“Nid ydym yn dy watwar, Arglwyddes,” ebe'r gwŷr, “ond Ymerawdwr Rhufain a'th welodd mewn breuddwyd, ac nid oes ynddo na bywyd nac egni o'th blegid di ; a dewis dithau naill ai dyfod gyda ni i'th wneuthur yn ymerodres yn Rhufain, ai gofyn i'r ymerawdwr ddod yma i'th gymeryd yn wraig iddo ei hun.

“Ha, wŷr da,” ebe'r forwyn, “nis amheuaŷ yr hyn a ddywedwch, na'i gredu chwaith yn ormodol, ond os yw yr ymerawdwr yn fy ngharu, deued yma i'm hol.”

Ac yna yr aeth y cenhadau yn ol ar frys. Teithient ddydd a nos, a phan ddiffygiai y meirch, prynent rai newydd. Ac wedi iddynt gyrraedd Rhufain, cyfarchasant well i'r ymerawdwr ; dywedasant yr hanes, a gofynasant am eu gwobrau. A hwy a gawsant fel yr addawodd yr ymerawdwr iddynt.

“Ni a ddanghoswn y ffordd i ti,” meddent, “dros fôr a thir, i'r lle y mae'r wraig a geri fwyaf ; ni a wyddom ei henw, a'r teulu, a'r genedl y perthyn iddynt.”

A'r ymerawdwr a aeth ar frys gyda'i wŷr, a'r cenhadau yn eu harwain. Hwy a aethant dros y môr i Ynys Prydain, ac a enillasant yr ynys oddiwrth Feli ap Manogan a'i feibion, a'r ymerawdwr a aeth rhagddo hyd nes dyfod i Arfon. Yna yr adnabu y wlad fel y

gwelodd yn ei freuddwyd, a phan welodd Gastell Aber Sein, dywedodd :

“Wele acw y castell lle y gwelais y wraig a garaf fwyaf.”

Ac efe a aeth tua'r castell, ac i fewn i'r neuadd, ac yno y gwelodd Cynnan ab Eudaf, ac Adeon ab Eudaf yn chwaren gwyddbwyll, ac Eudaf ap Caradog yn eistedd mewn cadair, ac yn torri gwerin gwyddbwyll. Gwelodd hefyd y forwyn a welodd yn ei freuddwyd yn eistedd mewn cadair o aur.

“Henffych well, Ymerodres Rhufain,” ebe fe, ac efe a roddodd ei freichiau am ei gwddf, a'r noson honno y priodwyd hwynt.

Boreu drannoeth y gofynnodd hi am y rhan o'i gyfoeth oedd i fod iddi hi am iddo ef ei chael yn wraig. Gofynnodd yntau iddi pa beth a ddymunai. A hithau a ofynnodd iddo am Ynys Prydain i'w thad, o Fôr Udd hyd ym Môr Iwerddon, a'r tair ynys gyfagos i'w cynnal o dan Ymerodres Rhufain, ac hefyd am iddo wneuthur tri chastell iddi hi yn y manau y dewisai hi yn Ynys Prydain.

A hi a ddewisodd wneuthur y castell uchaf yn Arfon, ac yno y dygwyd pridd o Rufain, gan ei fod yn iachus i'r ymerawdwr i gysgu, ac eistedd a cherdded arno. Wedi hynny gwnaed dan gastell arall iddi—un yng Nghaerlleon, a'r llall yng Nghaerfyrddin.

Un diwrnod aeth yr ymerawdwr i hela yng Nghaerfyrddin. Aeth i ben y Frenni Fawr, ac yno y gwnaed pabell iddo, a Chadair Facsen y gelwir y fan honno hyd y dydd heddyw; ac oherwydd iddo wneuthur y castell gyda myrdd o wŷr y gelwir y lle Caerfyrddin

Wedi hynny meddyliodd y forwyn wneuthur priffyrdd o bob caer i'w gilydd ar draws Ynys Prydain. A'r ffyrdd a wnaed, ac oherwydd hynny y gelwir hwynt Ffyrdd Elen Lueddog, oblegid ni wnai gwŷr Ynys Prydain hyn i neb ond iddi hi.

"Y gelwir y lle Caer-fyrddin": cofier mai chwedl yw hon.

Y Frenni Fawr : enw ar fynydd yn Sir Benfro.

Caerlleon : tref ar yr afon Wysg yn Sir Fynwy.



IV.—MACSEN YN DYCHWELYD I RUFAIN.

Bu'r ymerawdwr yn yr ynys hon am saith mlynedd. Ac yr oedd yn arferiad yn Rhufain ar yr adeg yma, pe trigai ymerawdwr mewn gwlad arall am dros saith mlynedd, na chai fyth ddychwelyd i Rufain ar ol hynny. Felly y Rhufeiniaid a ddewisasant ymerawdwr newydd, ac a ddanfonasant lythyr bygythiol at Facsen, a dyma i gyd oedd y llythyr : "Os deui di byth i Rufain, os deui."

A daeth y llythyr yma a'r hanes at Facsen pan oedd efe yng Nghaerlleon, ac oddiyno y danfonodd efe lythyr at y gwr a ddywedai ei fod yn ymerawdwr yn Rhufain, a dyma'r llythyr : "Os af finnau i Rufain, os af."

Yna yr aeth Maccen a'i fyddin tua Rhufain, ac efe a orchfygodd Ffrainc a Bwrgwyn a phob gwlad ar y ffordd hyd nes y daeth i Rufain, ac a eisteddodd y tu allan i'r ddinas. Felly y bu am flwyddyn, ac nid oedd ddim yn nes i orchfygu'r ddinas nag ar y dydd cyntaf.

Ac ar ei ol ef y daeth brodyr Elen Lueddog o Ynys Prydain, a llu bychan ganddynt, ac yr oedd y llu bychan yma yn well ymladdwyr na dau cymaint o Rufeiniaid. Dywedwyd wrth yr ymerawdwr fod llu yn disgyn ac yn pabellu yn ymyl ei lu ef, ac na welwyd llu tecach a gwell, na baneri harddach nag oedd gan y llu yma yn ol ei faint. Yna yr aeth Elen i edrych ar y llu, ac a adnabu faneri ei brodyr. Ac yna y daeth Cynnan ab Eudaf ac Adeon ab Eudaf i ymweled a'r ymerawdwr, a chafwyd amser llawen iawn.

Yna yr edrychodd y brodyr ar filwyr Maccsen yn ymladd yn erbyn y ddinas, a dywedodd Cynnan wrth ei frawd :

“Ni a geisiwn ymladd yn erbyn y ddinas yn gallach na hyn.”

Ac yna, ar hyd y nos, hwy a fesurasant uchder muriau'r ddinas, ac a ddanfonasant seiri i'r coed, a hwy a wnaethant ysgol i bob pedwar gwr o honynt.

A phan oeddynt yn barod, ac wedi bwyta a chryfhau eu hunain, a phan oedd y ddau ymerawdwr yn bwyta ac yn gorffwys ar ol ymladd, daeth y Brytaniaid at y ddinas, ac a ddodasant eu hysgolion ar furiau'r ddinas, ac yn fuan aethant i fewn iddi. Ni chafodd yr ymerawdwr newydd amser i wisgo ei arfau cyn iddynt ddyfod ar ei ben a'i ladd, a llawer o wŷr gydag ef.

Felly y buont am dri diwrnod a theirnos yn tawelu'r ddinas, ac yn gorchfygu'r castell. Ac ereill o'r gwŷr a gadwent y castell fel na ddelai neb o wŷr Maccsen i fewn iddi hyd nes i wŷr Ynys Prydain ddwyn heddwch o'i mewn.

Yna y dywedodd Maccsen wrth Elen :

“Y mae yn syn gennyf os nad i mi y gorchfygodd dy frodyr y ddinas hon.”

“Arglwydd,” ebe Elen, “fy mrodyr yw’r gwŷr doethaf yn y byd, a dos dithau i ofyn am y ddinas, ac os yw yn eu meddiant, ti a’i cei yn llawen.”

Yna yr aeth yr ymerawdwr ac Elen i ofyn am y ddinas. A hwy a ddywedasant wrth yr ymerawdwr nad oedd y ddinas ym meddiant neb ond gwŷr Ynys Prydain, ac nad allai neb ei rhoddi hi iddo ond hwy. Yna yr agorwyd pyrth dinas Rhufain, a’r ymerawdwr a eisteddodd yn ei gadair, a holl wŷr Rhufain a dalasant warogaeth iddo.

Yna y dywedodd yr ymerawdwr wrth Gynnan ac Adeon :

“Ha, wŷr da, cefais yr oll o’m hymerodraeth, a mi a roddaf y llu hwn i chwi i orchfygu unrhyw ran o’r byd y mynnoch.”

Yna hwy a aethant ac a orchfygasant wledydd a chestyll a dinasoedd, ac a laddasant eu gwŷr oll, ond a gadwasant y gwragedd yn fyw.

Ac felly y buont hyd nes i’r gweision ieuaine a ddaethant gyda hwynt fod yn wŷr llwydion. Yna y dywedodd Cynnan wrth Adeon ei frawd :

“Pa beth a fynni di, trigo yn y wlad hon, ai dychwelyd i’r wlad ydaethost o honi ?”

Ac efe a benderfynodd ddychwelyd a llawer o wŷr gydag ef, ac arhosodd Cynnan a’r rhan arall o’r gwŷr yno.

A’r chwedl hon a elwir “Breuddwyd Maesen Wledig, Ymerawdwr Rhufain,” ac yma y terfyna.

Y BRENIN ARTHUR

A'I

FARCHOGION.



(I.) DEWIS BRENIN NEWYDD.

Ymhen dwy flynedd wedi geni Arthur, cymerwyd Uthr Pendragon, ei dad, yn glaf, a daeth ei elynion i'w ddiorseddu, ac a ymladdasant a'i wŷr, a lladdwyd llawer o'i bobl.

"Syr," ebe Myrddin, "nis gelli orwedd yn y man yna; rhaid dy gario i faes y frwydr, oblegid nis gelli goncro dy elynion, os na fyddi yno yn bersonol."

Felly dygwyd Uthr i'r frwydr, ac yno y cafodd efe fuddugoliaeth.

Ar ol hyn bu Uthr yn fud am dridiau a theirnos, a'i holl benaethiaid a alarasant o'i blegid, ac a ofynasant gyngor gan Fyrddin.

"Nid oes feddyginiaeth," ebe Myrddin; "ewylls Duw a wneler; ond trefnweh chwi fod ei holl farwniaid ger ei fron yfory, a Duw a minnau a wnawn iddo siarad."

A thrannoeth daeth y barwniaid gyda Myrddin o flaen y brenin.

"Syr," ebe Myrddin wrth Uthr, "a fydd Arthur, dy fab, yn frenin ar dy deyrnas a'th eiddo ar dy ol di?"

Yna y trôdd Uthr Pendragon yn eu gŵydd hwynt oll, ac a ddywedodd:

“Bendith Duw, a'm bendith innau, fyddo arno. Boed iddo weddio dros fy enaid, a cheisied y goron yn gyfreithlon, neu efe a gyll fy mendith.”

Yna y bu farw Uthr, a llawer a geisiasant fod yn frenin yn ei le.

Yna yr aeth Myrddin at Archesgob Caergaint, ac a'i cynghorodd i alw ynghyd holl arglwyddi'r deyrnas, a'r holl wŷr arfog, a'u gorchymyn i gyfarfod yn Llundain cyn y Nadolig.

“Ac,” ebe Myrddin, “gan fod yr Iesu wedi Ei eni ar y Nadolig, bydd iddo Ef o'i fawr ddaioni ddangos trwy wyrth ar y Nadolig yma, yr hwn a ddylai fod yn frenin ar yr holl deyrnas.”

Felly y gyrodd yr Archesgob am holl arglwyddi a milwyr y wlad, gan orchymyn iddynt ddod ynghyd i Lundain ar y noson cyn y Nadolig. A hwy a ddaethant i'r Eglwys yn Llundain i weddio.

Ac ar foreu'r Nadolig, wedi'r gwasanaeth boreuol, gwelwyd ym mynwent yr Eglwys, yn ymyl yr allor, faen mawr ysgwar, tebyg i faen mynor. Ac ynghanol y maen yr oedd eingion o ddur, troedfedd o uchder; ac yn yr eingion yr oedd cleddyf hardd. Ac yr oedd blaen y cleddyf yn noeth, ac arno yr oedd y frawddeg hon: “Pwy bynnag a dynno'r cleddyf hwn o'r maen a'r eingion yma a fydd frenin cyfreithlon Lloegr.”

Synnodd y bobl pan welsant hyn, a hwy a ddywedasant wrth yr Archesgob.

“Gorchymynnaf i chwi aros yn eich eglwys,” ebe'r Archesgob, “a gweddiwech ar Dduw na chyffyrddo neb a'r cleddyf hyd nes gorffen y gwasanaeth olaf.”

Felly, wedi'r gwasanaeth olaf, aeth pawb i weled y garreg a'r cleddyf; a phan welwyd yr ysgrifen, ceisiodd y rhai ddymunai gael y goron, dynnu'r cleddyf. Ond ni allai neb ei syflyd.

"Nid yw'r gwr a all dynnu'r cleddyf yma," ebe'r Archesgob," ond Duw yn ddiau a'i dengys ef i ni—a dyma fy nghyngor: Dewiswn ddeg o filwyr dewr ac enwog i wyllo'r cleddyf yma."

Felly y penderfynwyd, a threfnwyd i bob dyn geisio tynnu'r cleddyf yn rhydd.

Ac ar ddydd Calan trefnodd y barwniaid amryw chwarenon a gorchestion, fel y gallai'r holl filwyr ddangos eu dewrder a'u medr mewn gwahanol gampau. A gwnawd hyn i gyd er cadw'r arglwyddi a'r bobl ynghyd, oblegid credai'r Archesgob yn sicr mai trwy'r cleddyf yr hysbysai Daw pwy ddylai gael y goron.

Y Brenin Arthur: tybir iddo fod yn frenin Prydain yn y chweched ganrif. Dywedir iddo ennill parch mawr iddo ei hun a'i farchogion trwy ei ddewrder a'i ddoethineb.

Myrddin: disgrifir Myrddin fel un yn meddu gallu hudol. Byddai yn aml yng nghwmni'r Brenin Arthur.

Diorseddu: tynnu oddiar yr orsedd.

Hysbysu: rhoddi gwybod.

Buddugoliaeth: concwest ar eilynion.

Eingion: darn o haearn, ar yr hwn y bydd y gôf yn taro'r haearn poeth.



(II.) CYNNYG ETO I DYNNU'R CLEDDYF.

Felly ar ddydd Calan daeth Syr Ector i'r chwareufa. Dyma'r Syr Ector y rhoddwyd Arthur iddo i'w fagu yn fab iddo ei hun. Daeth Syr Caw, ei fab, hefyd gydag ef, ac Arthur ieuanc, brawdmaeth Caw. Ac felly y marchogasant tua'r campau.

Ar y ffordd gwelodd Caw eisieu ei gleddyf. Cofiodd iddo ei adael yn nhŷ ei dad, ac erfyniodd ar Arthur ieuanc fyned i'w geisio.

"Gwnaf yn llawen," ebe Arthur, a marchogodd yn gyflym i gyrchu'r cleddyf; ond, pan ddaeth adref, cafodd fod pawb wedi myned i weled yr ymdrechfa.

Yna y teimlodd Arthur yn ddig, ac a ddywedodd ynddo ei hun.

"Af i'r fynwent, a thynnaf y cleddyf sydd yn y maen, oblegid ni cha fy mrawd, Caw, fod heb gleddyf heddyw."

Clymodd ei farch y tu allan i'r fynwent, ac aeth i fewn. Nid oedd yno neb yn gwylio'r garreg, oblegid yr oedd y milwyr i gyd yn yr ymdrechfa.

Yna yr ymaflodd Arthur yn y cleddyf, ac a dynnodd yn egniol wrtho, ac a'i cafodd allan o'r maen. Yna yr esgynnodd drachefn ar ei farch, ac a ddaeth at ei frawd, Syr Caw, ac a roddodd y cleddyf iddo.

Pan welodd Syr Caw y cleddyf, gwybu yn iawn mai y cleddyf o'r maen oedd, ac efe a ddaeth at ei dad Syr Ector, ac a ddywedodd wrtho:

"Wele'r cleddyf o'r garreg, felly rhaid mai myfi sydd i fod yn frenin ar y wlad hon."

Pan welodd Syr Ector y cleddyf, dychwelodd ar unwaith i'r Eglwys, ac yna y disgynnodd y tri, ac a aethant i fewn i'r Eglwys, a pharodd Ector i Caw dyngu ar lyfr pa fodd y cafodd afael ar y cleddyf.

"Syr," ebe Caw, "cevais y cleddyf drwy fy mrawd, Arthur, oblegid efe a'i dug i mi."

Yna y dywedodd Syr Ector wrth Arthur



ARTHUR YN TYNNU'R CLEDDYF.

“Pa fodd y cefaiast ti'r cleddyf hwn?”

“Syr, mi a ddywedaf wrthyt,” ebe Arthur. “Pan euthum adref i gyrchu cleddyf fy mrawd, ni chefais neb a'i rhoddai i mi, ac felly meddyliais na chai fy mrawd, Caw, fod heb gleddyf, a deuthum yma yn ddiym-droi, a thynnais y cleddyf o'r maen heb ddim trafferth.”

“Oni welaist farchogion o amgylch y cleddyf?” ebe Ector.

“Naddo,” ebe Arthur.

“Yn awr,” ebe Syr Ector wrth Arthur, “y gwn mai tydi sydd i fod yn frenin ar y wlad yma.”

“Paham myfi,” ebe Arthur, “ac am ba achos?”

“Oblegid mai dyna yw ewyllys Duw,” ebe Syr Ector, “canyis nid oedd un dyn i dynnu'r cleddyf hwn ond y gwr sydd i fod yn gyfiawn frenin ar y wlad hon.”

“Ac yn awr,” ebe Syr Ector, “gâd i mi weled a elli ddodi'r cleddyf yn ol yn y man lle'r oedd, a'i dynnu allan drachefn.”

“Hawdd yw hynny,” ebe Arthur, ac a'i dododd yn y maen. Yna y ceisiodd Syr Ector ei dynnu allan, ond nis gallai.

“Yn awr ceisia di,” ebe Ector wrth Caw, ond er tynnu â'i holl nerth, nis gallai Caw ei symud.

“Cais dithau eto yn awr,” ebe Syr Ector wrth Arthur.

“Gwnaf gyda phleser,” ebe Arthur, a thynnodd ef allan yn rhwydd.

Ac yna y penliniodd Syr Ector a Syr Caw ar y ddaear o flaen Arthur.

“Och fi,” ebe Arthur, “fy nhad anwyl a'm brawd, paham y penliniwch chwi i mi?”

“Na, na, fy Arglwydd Arthur,” ebe Ector, “nid felly y mae. Ni fum i erioed yn dad i ti, nac o’th waed di, ond da y gwn yn awr dy fod o waedoliaeth uwch nag y meddyliais dy fod.”

Yna y dywedodd Syr Ector wrtho y modd y cymerodd ef i’w fagu, ac y dygwyd ef ato gan Fyrddin.

Chwareufa : y man lle y bydd
yr ymladd a’r gorchestion yn
cael eu cario ymlaen.

Yn egniol : gyda nerth.

Yn ddiymdroi : heb aros.

O waedoliaeth uwch : yn
perthyn i deulu uwch.



(III). PENDERFYNU’R FRENHINIAETH.

Gofdiodd Arthur yn ddirfawr pan ddeallodd nad Syr Ector oedd ei dad.

“Syr,” ebe Ector wrth Arthur, a fyddi di’n garedig wrthyf pan ddeui yn frenin?”

“Mawr fyddai fy mai pe na fyddwn,” ebe Arthur, “oblegid tydi yw’r unig ŵr yn y byd yr wyf yn ddyledus iddo, a bu dy arglwyddes yn wir fam i mi; ac os ewylls Duw yw i mi fod yn frenin, nis gallaf fyth eich anghofio.”

“Un peth a geisiaf gennyf,” ebe Ector, “sef gwneuthur o honot fy mab, Caw, yn oruchwyliwr ar dy diroedd.”

“Hynny a fydd,” ebe Arthur, “ac ni cha neb arall y swydd tra fydd ef a mi byw.”

Yna yr aethant at yr Archesgob, ac a ddywedasant wrtho y modd y cafwyd y cleddyf, a chan bwy; ond ni fynegwyd i neb arall.

Ac ar y deuddegfed dydd daeth y pendefigion ynghyd eto i geisio tynnu'r cleddyf, ond er eu holl ymdrechion, methasant gael y cleddyf yn rhydd. Ond wedi i bawb fethu, daeth Arthur ymlaen yn wylaidd ei wedd. Gwawdiai'r pendefigion a'r milwyr arfog ef, a gofynnent pa ddiben oedd i fachgen fel efe geisio am y cleddyf.

Yna Arthur a ymaflodd yn y cleddyf, ac a'i tynnodd allan yn rhwydd a didrafferth. A phawb a synasant wrth weled mor rhwydd y tynnai Arthur y cleddyf allan.

Ond y pendefigion a lidiasant, ac a ddywedasant :

“A ydym ni, arglwyddi'r tir, a milwyr y wlad, i gael ein llywodraethu gan hogyn dibrofiad fel hwn? Cywilydd fydd gennym gael ein harwain i ryfel gan lanc fel hwn nad yw yn hannu o deulu brenhinol.”

Felly y bu ymrafael yn eu plith, a hwy a benderfynasant ohirio'r prawf hyd Wyl Fair y Canhwyllau, fel y gallai ereill geisio eto am y cleddyf.

A phan ddaeth yr ŵyl, ymdrechodd holl filwyr y deyrnas, ond Arthur yn unig a allai dynnu'r cleddyf. Bu aruthr gan fawrion y wlad pau welsant, a galwent am ohirio'r prawf eto hyd y Pasg, a chydysniodd yr Archesgob a hyn trwy gyngor Myrddin.

Pan ddaeth y Pasg, daeth llu mawr o wŷr i gystadlu am y cleddyf, ond nis gallai neb ei siglo ond Arthur yn unig. Galwyd eto am brawf newydd, a gohiriwyd hynny hyd ŵyl y Pentecost. Ac ar yr ŵyl hon eto y daeth lluaws ynghyd o ddynion dewraf y wlad i geisio tynnu'r cleddyf. Ond fel o'r blaen, Arthur yn unig

a'i syflai, yr hwn a'i tynnodd allan yn rhwydd yng ngŵydd yr holl dyrfa.

Yna y llefasant oll :

"Nyni a fynnw'n Arthur yn frenin ; nid oedwn ddim yn hwy, oblegid gwelwn yn eglur mai hynny yw ewyllys Duw, a phwy bynnag a safo yn ei erbyn, lladdwn ef."

Yna y penliniodd pawb, hên ac ieuanc, tylawd a chyfoethog, o'i flaen, gan lefain am drugaredd oddiwrth Arthur am iddynt oedi cyhyd cyn ei wneud yn frenin. Yntau a faddeuodd iddynt, ac a estynnodd ei gleddyf i fyny i'r allor, lle yr oedd yr Archesgob, a gwnaed ef yn farchog goruwch pawb arall.

Ac ymhen amser daeth adeg ei goroni, pan y cymerodd Arthur lw i fod yn frenin cyfiawn, ac i sefyll dros gyfiawnder holl ddyddiau ei fywyd. Yna y gorchymynnodd i'r holl dywysogion a ddaliai feddiannau o dan y goron dalu teyrnged iddo. Daeth Arthur yn frenin doeth a dewr, a thrwy gymorth ei filwyr ffyddlon, gorchfygodd ei holl elynion, ac enillodd barch ei holl bobl.

Hogyn dibrofiad : bachgen yn gwybod dim am y byd a'i bethau.

Yn wylaidd : yn isel ei wedd ; heb falchder.

Gohirio : gadael hyd amser pellach.

Cystadlu : ymdrechu am y wobr.

Gwyl Fairy Canhwyllau : Chwefror 2il y byddai'r wyl hon.

Gwyl y Pentecost : Gwyl y Sulgwyn.

"Bu aruthr gan fawrion y wlad" : synment yn rhyfedd am fod Arthur yn gallu tynnu'r cleddyf.

(IV.) DIRGELWCH GENEDIGAETH ARTHUR.

Un diwrnod, ar ol bod yn hela mewn coedwig, eisteddai Arthur i lawr yn lluddedig. Wrth eistedd, aeth ei feddwl yn ol at dymor ei ieuencid, ac yr oedd yn brudd ganddo gofio am bechodau gyflawnodd pan yn ieuanc. Yna y daeth Myrddin ato ar ddull plentyn pedair-ar-ddeg oed, ac a ofynnodd iddo :

“Paham yr wyt mor brudd dy wedd?”

“Iawn y gallaf fod,” ebe Arthur, “oblegid blin gennyf feddwl am ddigwyddiadau rhyfedd fy mywyd.”

“Gwn am danynt i gyd,” ebe'r plentyn, “a gwn hefyd pwy wyt ti, a hysbys wyf o'th holl feddyliau. Yr wyt yn ffol i fod yn brudd dy yspryd, oblegid ni thyciai hynny ddim. Gwn hefyd pwy yw'th dad a'th fam, a medraf ddywedyd yr amser y'th anwyd.”

“Nid gwir yw hynny,” ebe Arthur, “pa fodd y medri di wybod? Nid wyt ti yn ddigon hên i gofio am fy nhad.”

“Gwn,” ebe'r plentyn, “gwn dy hanes yn well na thi dy hun, a gwell nag un dyn byw.”

“Nis gallaf dy gredu,” ebe Arthur, ac aeth yn ddig wrth y plentyn.

Felly gadawodd Myrddin ef, ac a ddaeth ato drachefn ar ddull hên ŵr pedwar ugain oed.

“Paham yr wyt mor brudd?” gofynnai'r hên ŵr.

“Am lawer o resymau,” ebe Arthur. “Y foment hon yr oedd yma blentyn ieuanc a ddywedai bethau wrthyf nad allasai plentyn eu gwybod, oblegid nid ymddanghosai yn ddigon hên i gofio am fy nhad.”

“Ni ddywedodd ddim wrthyf ond y gwirionedd,” ebe'r hên ŵr, “a dywedai fwy wrthyf pe gwrandawet



ARTHUR A MYRDDIN.

arno. Medrai ddywedyd wrthyt mai Uthr Pendragon oedd dy dad, ac Eigr, ei wraig, oedd dy fam, a'th fod felly o waed brenhinol. Ond ti a wnaethost bethau croes i ewyllys Duw. Mab a enir i dy chwaer, yr hwn a'th ddinistria di a holl farchogion dy deyrnas."

"Pwy wyt ti a ddug y newyddion yma i mi?" ebe Arthur.

"Myrddin yw fy enw," ebe'r hên ŵr, "a deuthum atat o'r blaen ar ddull plentyn, ond ti a'm gwrthodaist."

"Ha," ebe Arthur, "un rhyfedd wyt ti, ond pa fodd y medri ddywedyd y byddaf farw mewn rhyfel?"

"Na ryfedda ddim," ebe Myrddin, "oblegid dyna yw ewyllys Duw. Byddi farw am dy bechodau, ond, er hynny, ti a fyddi farw mewn modd anrhydeddus. Bydd fy nhyled i yn llawer gwaeth. Cleddir fi yn fyw yn y ddaear, felly y dioddefaf am fy nhroseddau."

Pan yn ymddiddan felly a'u gilydd, dygwyd meirch y brenin yno, ac Arthur a Myrddin a esgynasant bob un ar farch, ac a ddaethant i Gaerlleon. Yna y gofynnodd Arthur i Syr Ector :

"Ai gwir y dywed Myrddin mai Uthr Pendragon oedd fy nhad, ac Eigr, ei wraig, oedd fy mam?"

A Syr Ector a gyfaddefodd nad efe oedd ei dad, ond iddo ef ei dderbyn gan Fyrddin i'w fagu fel mab iddo ei hun.

Pan ddeallodd Arthur mai'r frenhines Eigr oedd e fam, dywedodd wrth Fyrddin :

"Danfon am fy mam, fel y gallaf ymddiddan a hi, ac os dywed hi yr un peth wrthyf, yna mi a gredaf mai mab Uthr ydwyf."

Yna y danfonwyd ar unwaith am y frenhines, ac

Arthur a'i derbyniodd hi yn llawen, ac a wnaeth wledd iddi.

Ac ynghanol y wledd cododd Syr Ulfius, un o farchogion dewraf y brenin, i fyny, ac a gyhuddodd y frenhines o fod yn euog o dwyll, ac o wneud cam â'r brenin.

"Cymer ofal beth ddywedi," ebe Arthur, "oblegid defnyddi eiriau cryfion."

"Gwn yn iawn beth ddywedaf," ebe Ulfius, a dyma fy maneg i'r gwr a ddywed i'r gwrthwyneb. Dywedaf mai'r frenhines Eigr yw prif achos dy holl ryfeloedd di; oblegid pe dywedasai hi ar yr adeg yth anwyd yn nyddiau Uthr Pendragon dy fod di yn fab iddi, ni fyddai'r rhyfeloedd marwol hyn wedi digwydd. Ni wyddai dy farchogion, na'th filwyr, mab i bwy oeddit, a dylai dy fam ein hysbysu o hynny, felly dywedaf o flaen Duw a dynion ei bod yn euog o dwyll."

Yna y dywedodd Eigr :

"Gwraig wyf fi, ac nis gallaf ymladd, ond y mae yma rywun yn ddiau a gymer fy mhlaid. Ond Myrddin a wŷr yn iawn, a thithau, Syr Ulfius, mai ewyllys Uthr, y brenin, oedd peidio gwneud yn hysbys enedigaeth fy mab, ac am hynny y rhoddwyd ef i Syr Ector i'w fagu; ac felly nis gwelais fy mab ar ol hyn, ac nis gwyddwn ei enw, ac nis adnabŷm ef eto.

Yna y dywedodd Syr Ulfius wrth y frenhines :

"Felly y mae Myrddin yn fwy i'w feio na thi."

Yna y cymerodd Myrddin y brenin ger ei law, ac a ddywedodd wrtho : "Wele dy fam."

Ac yna y tystiolaethodd Syr Ector iddo fagu 'r plentyn ar gais y brenin Uthr.

Pan glywodd Arthur hyn, coffeiodd ei fam yn gariadus, ac a'i cusanodd, a dagrau o lawenydd a lifasant dros ruddiau'r fam a'i mab.

Parháodd yr ŵyl am wyth niwrnod, a llawen oedd gan bawb pan glywsant fod Arthur yn fab i Uthr Pendragon, ac mai Eigr, y frenhines, oedd ei fam.

Lluddedig: wedi blino.

Cyhuddo: dweyd fod un yn euog o fai.

Ni thyciai: ni fyddai ddim gwell o hynny.

I'r gwrthwyneb: yn wahanol
 "Dyma fy maneg": ffordd o herio i ymladd yn yr hên amser.



(V.) GWENHWYFAR A'R FORD GRON.

Yn nechreu teyrnasiad y Brenin Arthur, llawer o arglwyddi a phendefigion a wnaethant ryfeloedd yn ei erbyn, am na chredent ei fod yn fab i Uthr Pendragon, ond Arthur a'u gorchfygodd hwynt oll, ac a efe a wnaeth bopeth yn ol cyngor Myrddin.

Un diwrnod daeth Arthur at Fyrddin ac a ddywedodd wrtho:

"Y mae fy mhendefigion yn fy mlino yn barhaus, ac y maent yn awr am i mi gymeryd gwraig, ond ni wnaif ddim heb dy gyngor di."

"Credaf mai gwell fuasai it' briodi," ebe Myrddin; "ni ddylasai gwr o'th anrhydedd a'th fawredd di fod yn ddibriod. A oes yna ryw ddynes a geri yn fwy na'r lleill?"

"Oes yn wir," ebe Arthur. "Caraf Wenhwyfar, ferch Leodgrans, brenin Cameliard, gyda'r hwn y mae'r

Ford Gron a roddasai Uthr, fy nhad, iddo. Hi ydyw'r llances lanaf a welais ac a welaf byth."

"Ni ddywedaf ddim am ei harddwch na'i thegwech," ebe Myrddin, "ond os na roddaist dy galon arni, ac os na enillodd hi dy holl fryd, gallwn gael dynes i ti a fyddai yn fwy buddiol i ti. Ond lle y mae calon dyn, ofer yw disgwyl iddo ei rhoi mewn man arall."

"Gwir yw hynny," ebe Arthur.

Ond Myrddin a rybuddiodd y brenin y dygai Gwenhwyfar ofid i'w lys, ac nad oedd hi yn gymwys i fod yn wraig iddo. Ac efe a ofynnodd i'r brenin am ddynion i fyned gydag ef i geisio Gwenhwyfar, a'r brenin a'u rhoddodd iddo. Yna y daeth Myrddin at y brenin Leodgrans, ac a ddywedodd wrtho beth oedd dymuniad Arthur.

"Dyma'r newydd goreu a gefais erioed," ebe Leodgrans, "sef bod brenin o'r fath anrhydedd am briodi fy merch. Rhoddaf hi iddo yn llawen, a mi a roddaswn fy nhir iddo hefyd, onibai fod ganddo ddigon yn barod. Ond mi a roddaf anreg iddo a'i boddlona yn fwy na'm tir. Rhoddaf iddo'r Ford Gron a roddasai Uthr Pendragon, ei dad, i mi, ac o'i hamgylech y medr cant a hanner o farchogion eistedd. Y mae gennyf fi fy hun gant o'r marchogion dewraf, a mi a'u rhoddaf iddo ef, ac y mae ganddo ef yr hanner cant ereill i wneud y rhif yn gyflawn."

Ac felly y rhoddodd Leodgrans Wenhwyfar i Fyrddin, a'r Ford Gron a'r marchogion, a hwy a ddaethant yn llawen a chyda rhwysg mawr hyd yn Llundain.

A phan glywodd Arthur am ddyfodiad Gwenhwyfar

a'r Ford Gron a'r marchogion, yr oed^d yn llawen iawn, a dywedodd :

“Rhoddaf groesaw mawr i'r foneddiges harad yma, oblegid cerais hi yn hir, ac felly nid oes dim yn fwy dymunol gennyf, ac y mae'r marchogion yma a'r Ford Gron yn fwy gwerthfawr gennyf na chyfoeth lawer.”

Ac efe a orchymynnodd wneuthur paratoadau nawrion ar gyfer y briodas a'r coroniad, a hynny ar fyrder.

“Ac yn awr,” ebe Arthur, “dos dithau ac edrych am hanner cant o'r marchogion dewraf ac anrhydeddusaf yn y wlad.”

A Myrddin a aeth, ac a ddychwelodd mewn brys mawr wedi cael wyth-ar-hugain o farchogion teilwng o'r anrhydedd uchel yma, ond ni chafodd ragor na hyn. Yna y dygwyd Archesgob Caergrawnt yno, ac efe a fendithiodd y seddau o amgylch y Ford Gron yn ol a feriad yr oes. Ac wedi gwneuthur hyn, dywedodd Myrddin :

“Yn awr, foneddigion, codwch a deuwch at y brenin Arthur i dalu gwarogaeth iddo, oblegid gwybyddwch mai mawr fydd anrhydedd ac enwogrwydd pob un a eistedda o amgylch y Ford Gron.”

A hwy a godasant, ac a dalasant warogaeth i'r brenin Arthur. Ac wedi iddynt fyned, gwelodd Myrddin enw pob marchog wedi ei ysgrifennu ar ei sedd ei hun mewn llythyrennau o aur.

Yna y daeth Gawain, mab y brenin Lot, ac a ofynnodd am anreg gan y brenin.

“Gofyn,” ebe Arthur, “a mi a'i rhoddaf i ti.”

“Erfyniaf arnat,” ebe Gawain, “fy ngwneuthur yn



GWENHWYFAR AC ARTHUR.

farchog ar ddydd dy briodas gyda'r hardd Wenhwyfar."

"Gwnaf hynny yn llawen," ebe Arthur, "oblegid yr wyt yn fab i'm chwaer."

A gwledd fawr a wnawd, a'r brenin Arthur a briododd Wenhwyfar yn Eglwys Sant Stephan, a Gawain a wnawd yn farchog yr un dydd.

Y Ford Gron: O amgylch hon yr eisteddai marchogion Arthur yn ol eu teilyngdod. Gweinai'r frenhines Wenhwyfar arnynt.

Yn fwy buddiol: yn fwy o gymorth.

Ar fyrder: ar unwaith.



(VI.) ARGLWYDDES Y LLYN.

Yr oedd Arthur unwaith yn ymladd â milwr dewr a gyfarfu ar y ffordd. Yn yr ymdrech, torrwyd cleddyf Arthur, ac yr oedd mewn perygl o gollu ei fywyd. Ond ar hyn daeth Myrddin i'r lle, ac a ddywedodd wrth y milwr:

"Atal dy law, oblegid os lleddi y marchog yma, ti a achosi ofid mawr yn y wlad. Ni wyddost mai efe yw'r marchog mwyaf anrhydeddus yn y deyrnas."

"Pwy yw efe?" ebe'r milwr.

"Efe yw'r brenin Arthur," ebe Myrddin.

Yna y meddylodd y milwr y lladdai efe Arthur rhag ofn ei lid, ac a gododd ei gleddyf i'w daro, ond ar y foment honno tafodd Myrddin y milwr (trwy ei allu hudol) i gwsg trwm, ac efe a syrthiodd ar ei hyd i'r llawr.

A Myrddin a gododd Arthur yn ol ar farch y milwr, ac a aethant i ffwrdd ill dau.

“Och fi,” ebe Arthur, “pa beth a wnest ti, Myrddin? A leddaist ti'r marchog yna? Ni fu dewrach marchog erioed, a gwell fuasai gennyf golli fy nhir na cholli'r marchog yna.”

“Na ofala am hyn,” ebe Myrddin, “oblegid cysgu y mae, ac efe a ddefnyddio eto ymhen teirawr. Nid oes gwell milwr yn y deyrnas, ac efe a fydd o wasanaeth mawr i ti eto. Pellinon yw ei enw, ac efe a'i feibion a wnant wrhydri mawr drosot.”

A thra yr oeddynt yn ymadael â'r fan, dywedodd y brenin wrth Fyrddin:

“Nid oes gennyf gleddyf.”

“Na ofala am hyn eto,” ebe Myrddin oblegid gwn am gleddyf heb fod ymhell oddiyma, a thi a gei hwnnw.”

Felly hwy a ddaethant hyd at lyn eang a phrydfarth. Ac fel yr edrychai'r brenin, gwelai ynghanol y llyn fraich wedi ei gwisgo â sidan, a'r fraich a ddaliai gleddyf hardd uwchben y dwr.

“Ha,” ebe Myrddin wrth y brenin, “wele'r cleddyf y soniais am dano,” a chyda hynny gwelwyd boneddiges hardd yn cerdded ar wyneb y llyn.

“Pwy yw'r ddynes yna?” ebe Arthur.

“Hi yw Arglwyddes y Llyn,” ebe Myrddin. “Yn y llyn yma y mae craig, ac yn y graig y mae'r lle harddaf yn y byd, ac yna y trig y foneddiges hon. A hi a ddaw atat yn fuan, a gwna dithau siarad yn dêg a hi, a hi a rydd i ti'r cleddyf yna.”

Ac ar hyn daeth y foneddiges at Arthur, ac a gyfarchodd well iddo, ac yntau iddi hithau.

“Ha, ddynes,” ebe Arthur, “pa gleddyf yw'r un

acw a ddeil y fraich yna uwch wyneb y dwfr? Da fyddai gennyf pe bai yn fy meddiant, oblegid nid oes gennyf yr un cleddyf."

"Ha, frenin," ebe Arglwyddes y Llyn, "fy eiddo i yw'r cleddyf, ac os rhoddi di anreg i mi, pan geisiaf gennyf, ti a'i cei."

"Ar fy llw," ebe Arthur, "ti a gei beth bynnag a ddymuni."

"Wel," ebe'r foneddiges, "dos i'r cwch acw, a rhwyfa hyd nes y deui at y cleddyf, a chymer y cleddyf a'r wain, a gofynnaf anreg gennyf rywbyrd eto."

Felly y disgynnodd Arthur a Myrddin oddiar eu meirch, ac a ddaethant yn y cwch hyd at y cleddyf. A phan ddaethant at y fraich a ddaliasai'r cleddyf, ymaflodd Arthur yng ngharn y cleddyf, ac ar unwaith aeth y fraich a'r llaw o'r golwg yn y dwr, gan adael y cleddyf a'r wain yn llaw Arthur. A phan ddaethant i dir eto, yr oedd Arglwyddes y Llyn wedi diflannu, a hwy ill dau a aethant ymaith ar eu teithiau.

Ac ar y ffordd, gwelodd Arthur babell hardd, ac a ofynnodd i Fyrddin:

"Eiddo pwy yw'r babell yna?"

"Dyna babell Syr Pellinon, y marchog a ymlleddaist ag ef yn ddiweddar," ebe Myrddin.

"Yn awr ymladdaf ag ef eto," ebe Arthur, "oblegid y mae gennyf gleddyf newydd, a mynnaf ddial arno."

"Ni chei di wneud y fath beth," ebe Myrddin, "oblegid y mae efe yn flinedig trwy lawer o ymladd, ac ni fydd yn anrhydedd i ti orchfygu milwr blinedig."

"Gwnaf yn ol dy gyngor," ebe Arthur, gan edrych ar ei gleddyf, yr hwn a edmygai yn fawr.

“Pa un yr hoffi fwyaf,” ebe Myrddin: “y cleddyf neu'r wain?”

“Gwell gennyf y cleddyf,” ebe Arthur.

“Yr wyt yn annoeth yn dy ddewisiad,” ebe Myrddin, “gan fod y wain ddeng waith fwy o werth na'r cleddyf, oblegid tra fydd y wain arnat, ni cholli ddim gwaed, er maint fydd dy glwyfau, felly cymer ofal fod y wain gennyf bob amser.”

Felly y daethant i Gaerlleon, lle yr oedd holl farchogion y brenin. A phan glywsant am anturiaethau Arthur, yr oeddynt yn llawen iddo orchfygu pob gelyn, ac am iddo ddod yn rhydd o bob perygl. Yr oedd yn hapus ganddynt feddwl nad ofnai eu brenin wynebu yr un caledi a'r un peryglon ag y disgwylid i'w farchogion tlotaf eu hwynebu.



VII.—SYR BALIN A'R CLEDDYF HUDOL.



(A) Y LLANCES A'R CLEDDYF.

Un tro, pan yr oedd Arthur yn Llundain, daeth y newydd ato fod brenin Gogledd Cymru yn paratoi rhyfela yn ei erbyn. Galwodd Arthur gan hynny ar ei arglwyddi a'i farchogion i gwrdd mewn castell a elwid Camelot, er ymgynghori ynghylch y ffordd oreu i amddiffyn y deyrnas.

Pan oeddynt felly wedi cyfarfod, daeth llances i fewn i'r llys, wedi ei danfon gan y foneddiges Lili o Afallon. Pan ddaeth o flaen Arthur, dywedodd wrtho oddiwrth bwy y deuai, ac i ba amcan. A hi a adawodd i'w mantell ddisgyn oddiarni, a gwelwyd cleddyf hardd wrth ei hochr.

“Ha, fy ngeneth,” ebe Arthur mewn syndod, “paham y gwisgi'r cleddyf yna? Nid yw yn dy weddi.”

“Yn wir, syr,” ebe hithau, “baich trwm ydyw i mi, ond rhaid yw i mi ei wisgo hyd nes y daw marchog o anrhydedd uchel a chymeriad pur i'w gymeryd oddiarnaf; oblegid trefnwyd na cha neb ond gwr cywir ei dynnu o'r wain, a'm neges i yma ydyw chwilio am y gwr fedr dynnu'r cleddyf allan. Chwiliais ymhlith milwyr brenin Rions, ond ni chefais neb; felly deuthum i'th lys di, gan obeithio cael marchog i dynnu'r cleddyf.”

“Yn wir,” ebe Arthur, “y mae hwn yn rhyfeddod mawr. Ceisiaf dynnu'r cleddyf fy hun, nid am y tybiaf

mai fi yw'r marchog goreu, ond er rhoddi esiampl i'm holl filwyr, fel y gallont bob un geisio."

Yna y cydiodd Arthur yn y cleddyf, ac a'i tynnodd a'i holl nerth, ond ni symudai ddim.

"Nid oes angen i ti dynnu mor galed," ebe'r llances, "oblegid yr hwn a'i tyn allan a wna hynny drwy ychydig o nerth, ond a llawer o rinwedd."

"Dywedi y gwir," ebe Arthur, "ac yn awr ceisiweh chwi fy holl farwniaid, ond gofelweh nad ydych wedi eich difwyno gan warth, brâd, na thwyll."

"Ië," ebe'r llances, "oblegid ni thyn neb ef allan ond marchog rhinweddol, heb frâd yn ei galon, ac o deulu boneddigaidd."

Yna y ceisiodd mwyafrif o farchogion y Ford Gron dynnu'r cleddyf allan, ond ni lwyddai neb.

"Och fi," ebe'r llances, "mi a dybiais y cawn yn y llys yma farchogion goreu'r byd, heb na thwyll na brâd ynddynt."

"Ar fy llw," ebe Arthur, "nid oes gwell milwyr yn y byd nag sydd yma, ond blin gennyf nad oes yma neb eill dynnu'r cleddyf hwn."

Pan welodd y llances na chai yn y llys farchog allai dynnu'r cleddyf, cychwynnodd yn drist ar ei ffordd tuag adref.

Mwyafrif: y nifer fwyaf o honynt.

"O gymeriad pur": pan fydd dyn bob amser yn dewis y da, ac yn gwrthod gwneud drwg, dywedir ei fod o gymeriad pur.

"Ychydig o nerth ond a llawer o rinwedd": nid oedd yn rhaid bod yn ŵr o gorff cryf, ond rhaid oedd iddo fod yn ddyn da.

(B) BALIN YN TYNNU'R CLEDDYF.

Digwyddai ar yr adeg yma fod marchog tylawd yn llys y brenin Arthur, yr hwn fu yn garcharor am tua blwyddyn a hanner am ladd cefnder i'r brenin. Ei enw oedd Balin, ac yr oedd newydd gael ei ryddhau o'r carechar trwy gyfrwng rhai o'r barwniaid. Pan glywodd Balin beth a ddigwyddai yn y llys, yr oedd yn awyddus iawn am geisio tynnu'r cleddyf, ond yr oedd mor dylawd a charpiog ei wisg fel y cadwai yn ol mewn cywilydd.

Ond pan ymadawai'r llances a'r llys, galwodd ar ei hol, ac a ddywedodd wrthi :

"Erfyniaf arnat ganiatai i mi geisio tynnu'r cleddyf fel y gwnai yr arglwyddi yma, oblegid er i mi fod yn garpiog fy ngwisg, ac yr edrychir arnaf gyda sarhâd, credaf yn fy nghalon fy mod cyfuwech fy anrhydedd ag unrhyw un o'r marchogion yma, a thybiaf y llwyddaf i dynnu'r cleddyf."

Edrychodd y llances arno, a gwelodd ei wisg dylawd, a meddyliodd nas gallasai cymeriad glân orffwys o dan ddillad mor aflan, ac a erfyniodd arno beidio rhoddi trafferth iddi, am y gwyddai nas gallai fyth lwyddo mewn ymdrech lle y bu cymaint o fawrion y tir yn aflwyddiannus.

"Ha, lances," ebe Balin, "nid yw teilyngdod a doniau da i'w mesur wrth agwedd allanol dyn, ond y mae dynoliaeth aruchel a gwir fywyd yn guddiedig ym mherson y dyn, ac nid yn ei wisg; ac felly, nid pawb a wêl werthfawredd cymeriad."

"Yn wir," ebe'r llances, "dywedi yn iawn; ti a gei dynnu'r cleddyf os gelli: gwna yn ol dy gais."

Yna yr ymaflodd Balin yn y cleddyf, ac a'i tynnodd allan gyda'r fath rwyddineb, fel y synnodd y brenin a'r barwniaid yn fawr. Ond yr oedd llawer o'r marchogion yn eiddigeddus wrth Falin, ac a ddywedasant mai trwy hudoliaeth y tynasai Balin y cleddyf.

Yna y dywedodd y llances :

"Dyma'r marchog goreu a'r teilyngaf yn eich plith chwi i gyd, er fod ffawd wedi ei drin yn arw. Nid oes ynddo na thwyll na brâd, a llwyddiant a'i dilyno; ac yn awr, farchog mwyn, dyro'r cleddyf yn ol i mi eto."

"Na," ebe Balin, "enillais y cleddyf yn dêg, ac ni cha neb ei ddwyn oddiarnaf ond trwy nerth."

"Yn wir," ebe'r llances, "ni wnei yn iawn wrth ei gadw, oblegid ti a leddi a'r cleddyf yma y cyfaill goreu a feddi, a'r gwr goreu a geri yn y byd, a bydd y cleddyf yn ddinistr i ti."

"Mentraf ei gadw," ebe Balin, "a gwnaf fel y dengys Duw i mi, ond ni chei di'r cleddyf yn ol yn awr."

"Bydd yn edifar gennyf am hyn yn fuan," ebe'r llances. "Er dy les di, ac nid er fy lles fy hun, y gofynnaf am dano yn ol, oblegid y mae yn fiin gennyf ar dy ran di, oblegid ni chredi y bydd y cleddyf yn ddinistr i ti."

Ac ar hynny aeth y llances i ffwrdd mewn gofid mawr.

Yn eiddigeddus : yr oeddynt yn anfoddlon ei weled yn llwyddo ar ol iddynt hwy oll fethu.

"Nid yw teilyngdod a doniau da," &c. : anodd dweyd pa un ai da ai drwg yw dyn wrth edrych ar ei ddillad. Y galon sydd yn bwysig, ac nid y wisg.

(C) SYR BALIN YN LLADD BONEDDIGES A'I
GLEDDYF.

Wedi derbyn y cleddyf, galwodd Balin am ei farch a'i arfogaeth, ac a baratôdd i ymadael â'r llys ac â'r brenin Arthur.

"Ha, farchog," ebe Arthur, "paham ym gedi? Gwn i mi wneud yr hyn na ddylaswn i ti, ac feallai dy fod yn anfoddog oherwydd hynny. Ond nis gwyddwn dy gymeriad, a dywedwyd anwiredd wrthyf am danat. Ond mi a dalaf i ti am yr hyn oll a wnes, a thi a fyddi yn un o'm swyddogion."

"Diolchaf yn gynnes i ti," ebe Balin. "Nid wyf yn deilwng o'r hyn a addewi; eto, gyda'th ganiatâd, rhaid i mi ymadael yn awr."

"Yn wir," ebe Arthur, "blin gennyf hyn, ond na fydd yn hir cyn dychwelyd, a thi a gei groesaw calon yn fy llys."

Felly y gwisgodd Balin ei arfogaeth, ac a baratôdd i ymadael. Ond, cyn iddo fyned, daeth boneddiges brydferth i'r llys ar farch hardd, ac a gyfarchodd well i Arthur ac a ddywedodd wrtho mai hi oedd Arglwyddes y Llyn, ac mai hi a roddasai y cleddyf hwnnw iddo gynt, a'i bod yn awr wedi dyfod i geisio'r anreg a addawsai efe iddi pan gafodd y cleddyf.

"Cof gennyf i mi addaw anreg i ti," ebe Arthur, "a thi a'i cei, ond anghofiais enw'r cleddyf a roddaist i mi."

"Ei enw ydyw Caledfwlch," ebe'r Arglwyddes.

"Gwir a ddywedi," ebe Arthur, "ac yn awr gofyn yr hyn a fynni, a thi a'i cei os yw o fewn fy ngallu."

"Gofynnaf am ben y marchog a enillodd y cleddyf,"

ebe'r Arglwyddes, "neu am ben y llances a'i dug yma, neu y ddau ben os gelli."

"Yn wir," ebe Arthur, "gofynni am yr hyn nas gallaf ei roddi i ti yn anrhydeddus, felly gofyn am ryw beth arall, a thi a'i cei; oblegid nis gall hyd yn oed brenin dalu ei ddyledion drwy lofruddiaeth."

"Nis gofynnaf am ddim arall," ebe'r Arglwyddes, "ni feddyliais y buasai'r brenin Arthur yn ol o gyflawni ei air."

Pan glywodd Balin beth oedd cais Arglwyddes y Llyn, aeth i fewn ar unwaith i lys y brenin, ac a'i gwelodd o flaen Arthur, ac a ddywedodd wrthi:

"Ha, ddewines ddrwg, twyll a brâd sydd yn dy fynwes, ac aflan yw dy holl fywyd. Ti a geisi am fy mhen, ac yn lle hynny, ti a gei golli dy ben dy hun."

A chydag un ergyd o'r cleddyf torrodd ei phen i ffwrdd, fel y disgynnodd o flaen y brenin Arthur.

"Och fi," ebe Arthur, "pa aflanwaith yw hyn? Paham y gwnest felly? Paham y lleddaist foneddiges mor fwyn, yr hon a ddaeth i'm llys o dan fy ngofal? Nis gallaf fyth faddeu i ti am y fath weithred anfad."

"Blin iawn gennyf i mi achosi gofid i ti," ebe Balin, "ond ni wyddost hanes y foneddiges yma, neu ni fuaset yn flin am ei marwolaeth, oblegid yr oedd yn euog o lawer o weithredoedd drwg. Trwy hud a swyn bu yn gyfrwng i ladd llawer o farchogion da, a bum yn chwilio am dani er's tair blynedd, i ddial arni am ei thwyll a'i brad, pan achosodd losgi fy mam i farwolaeth."

"Pa beth bynnag oedd y cam a gefaist, ni ddylaset ddial arni yn fy llys i," ebe Arthur. "Gwnaethost

weithred gywilyddus, a thi a fyddi edifar am hyn. Dos ar unwaith o'm llys, ac na ddychwel fyth i'm gŵydd."

Gofidiodd Balin yn fawr wrth feddwl ei fod wedi digio Arthur, a gadawodd y llys gan benderfynu yr enillai ei ffafwr yn ol eto trwy nerth y cleddyf oedd ganddo.

Yn y cyfamser, bu galar mawr yn llys Arthur am farwolaeth Arglwyddes y Llyn, ac yr oedd yn flin gan yr holl farchogion am iddynt beidio atal Balin cyn iddo roddi yr ergyd marwol hwnnw a'i gleddyf. A threfnodd y brenin iddi gael angladd costus a rhwysgfawr.



VIII.—ERGYD ALAETHUS BALIN.



(A) Y MARCHOG ANWELEDIG.

Un diwrnod teimlai y brenin Arthur yn wael, ac efe a orchymynnodd wneuthur pabell mewn maes agored, er cael anadlu yr awyr iach, a mwynhau golygfeydd prydferth y wlad. Yna y ceisiodd gysgu, ond nis gallai, a gorweddaï yn hir heb gysgu dim.

Ond wrth orwedd felly, clywai swm march yn agoshau, a thrwy ddrws ei babell, efe a ganfu farchog yn dyfod ato mewn tristwch mawr.

“Aros, farchog gwych,” ebe Arthur, “a dywed i mi dy ofid.”

“Nis gelli di wneud yr un lles i mi,” ebe'r marchog, ac yna aeth i ffwrdd heb ddweyd yr un gair yn ychwaneg.

Ar hyn daeth Balin i fyny, a phan welodd y brenin, efe a ddisgynnodd oddiar ei farch, ac a gyfarchodd well i'w fawrhydi.

“Ar fy llw,” ebe Arthur, “y mae i ti groesaw mawr. Y foment hon aeth marchog heibio i mi mewn galar dwys, a phallodd ddweyd wrthyf beth oedd ei ofid; dos dithau, gan hynny, a dwg y marchog yn ol i mi.”

“Gwnaf lawer mwy na hynny drosot,” ebe Balin, ac i ffwrdd ag ef i chwilio am y marchog, ac a'i cafodd mewn coedwig gerllaw, a llances gydag ef.

“Ha, farchog,” ebe Balin, “rhaid i ti ddod gyda mi yn ol at y brenin Arthur i ddweyd wrtho achos dy ofid.”

“Ni wnaif hynny,” ebe'r marchog, “oblegid gwnai hynny niwed mawr i mi, ac ni wnaif les iddo ef nac i tithau.”

“Felly y mae yn rhaid i ti ymladd a mi,” ebe Balin, “oblegid cefais orchymyn i'th ddwyn o'th fodd neu o'th anfodd.”

“A fyddi di yn noddod im' os deuaif gyda thi?” ebe'r marchog.

“Byddaf yn wir,” ebe Balin, “neu mi a fyddaf farw wrth hynny.”

Ac felly y paratôdd y marchog i fyned gyda Balin, gan adael y llances yn y goedwig. Ond pan oeddynt o flaen pabell Arthur, daeth rhywun yn anweledig, ac a darawodd y marchog a gwaewffon, fel y cafodd ergyd marwol.

“Och fi,” ebe'r marchog, “lladdwyd fi, er fy mod o dan dy nawdd a'th ofal, gan farchog twyllodrus a elwid Garlon. Felly, dwg fy march, canys y mae yn well na'th un di, a dos at y llances, a dilyn hi i'r lle yr â, a dial fy marwolaeth hyd eithaf dy allu.”

“Mi a dyngaf i ti ar fy llw y gwnaf hynny,” ebe Balin, “neu mi a fyddaf farw yn yr ymdrech.”

Ac yr oedd Balin yn flin iawn oherwydd marwolaeth y marchog, ac efe a ddaeth at y llances, a hwy a aethant ill dau drwy'r goedwig. Ac wrth fyned, cyfarfu marchog a hwynt, ac a ofynnodd i Falin beth oedd achos ei ofid.

“Ni ddywedaf wrthyt,” ebe Balin.

“Yn wir,” ebe'r marchog, “pe bai gennyf arfau, mi

a'th orfodwn i ddweyd wrthyf, oblegid y mae dy atebiad yn rhy swrth i farchog anrhydeddus."

"Nid yw yn werth ymladd o'i blegid," ebe Balin, ac efe a fynegodd ei holl ofid wrtho, a'r modd bradwrus y lladdwyd y marchog gan ŵr anweledig.

"Ar fy llw," ebe'r marchog, "blin yw dy hanes, a mi a dyngaf nad ymadawaf a thi tra y pery fy mywyd."

Yna y gwisgodd y marchog ei arfogaeth, ac a aeth ymaith gyda Balin. A phan oeddynt yn myned heibio i gell meudwy, daeth Garlon eto yn anweledig ac a ddododd ei waewffon trwy gorff y marchog oedd gyda Balin.

"Och fi," ebe'r marchog, "lladdwyd fi gan y marchog bradwrus sydd yn rhodio yn anweledig."

"Ha," ebe Balin, "nid dyma'r sarhâd cyntaf a wnaeth efe â mi; pe'i gwelwn ef, mi a ddialwn arno am y weithred anfad hon."

A Balin a'r meudwy a gladdasant y marchog gyda galar o dan faen gwerthfawr.



(B) BALIN YN YMLID GARLON.

Drannoeth, daeth Balin a'r llances i ymyl castell. Ac yma y disgynnodd Balin, gan feddwl myned i fewn i'r castell. A phan aeth Balin i fewn trwy'r porth, caewyd y drws pan oedd y llances y tu allan, ac yn fuan amgylchynnwyd hi a milwyr a'i lladdai ar unwaith pe gallent.

A phan welodd Balin yr hyn a ddigwyddodd, cynhyrfodd ei lid am nas gallai gynorthwyo'r llances, ac efe a ddringodd i ben y mur, ac a neidiodd i lawr i'r ffos heb dderbyn niwed. Ac ar unwaith, efe a dynnodd ei gleddyf, gan fwriadu ymladd a'r milwyr.

Ond y milwyr a ddywedasant :

"Nid ymladdwn a thi, oblegid gwnawn yn ol arferiad ein castell."

"Pa arferiad yw hwnnw," ebe Balin, "oblegid tybiaf mai arferiad gwael yw os mai felly y dengys ei hun."

"Y mae ein harglwyddes yn glaf," meddent hwy, "ers llawer o flynyddau, ac nid oes dim i'w gwella ond llond llestr arian o waed dynes bur, a honno yn ferch i frenin. Y mae yn arferiad yma na cha'r un llances fyned trwy'r drws heb adael llond llestr o'i gwaed i'n harglwyddes."

Felly y llances a adawodd iddynt gymeryd o'i gwaed, ond ni wnaeth hynny ddim lles i'r arglwyddes. A gorffwysodd Balin a'r llances yn y castell y noson honno, lle y cawsant groesaw mawr, a boreu drannoeth aethant ymlaen ar eu taith.

Yna y teithiasant am dri neu bedwar diwrnod heb gyfarfod a'r un ddamwain. Un noswaith yr oeddynt yn lletya yn nhŷ gwr cyfoethog, a phan ar swper clywai

Balin swm ocheneidiau dolurus, ac a ofynnodd i ŵr y tŷ pwy oedd yn wylo.

“Dywedaf wrthyt,” meddai'r gwr. “Yr oeddwn yn ddiweddar mewn ymdrechfa, ac yno y bŵm mewn gornest gyda marchog a oedd yn frawd i'r brenin Pelam, a mi a'i gorchfygais ef, ac a'i teflais i'r llawr. Tyngodd yntau y dialai arnaf trwy glwyfo fy nghyfaill goreu, ac efe a wnaeth hynny trwy daro fy mab, yr hwn na fydd yn iach hyd nes y caf waed y marchog hwnnw. Ac nis gwn sut i gael gafael ynddo, oblegid â oddiamgylch yn anweledig, ac nis gwn ei enw.”

“Ha,” ebe Balin, “mi a wn pwy yw'r marchog. Garlon yw ei enw. Efe a laddodd ddau gyfaill i mi yn ddiweddar, a gwell fyddai gennyf gyfarfod ag ef na phe cawn holl aur y deyrnas hon. Ymladdwn ag ef nes y byddai efe neu fi farw.”

“Wel,” ebe gwr y ty, “dywedaf wrthyt beth i'w wneud. Trefnodd y brenin Pelam wneud gwledd o fewn ugain diwrnod, ac y mae wedi gwahodd pob marchog yn y deyrnas i'r wledd, ac i ddwyn ei wraig neu ei gariad gydag ef, a thi a weli y marchog hwnnw sydd yn elyn i ti a minnau yn y wledd.”

“Felly,” ebe Balin, “addawaf i ti ddigon o waed y marchog i iachau dy fab, pe byddwn farw wrth geisio ei gael.”

Boreu drannoeth cychwynasant i diriogaeth y brenin Pelam, gan fod ganddynt daith pymtheng niwrnod cyn cyrraedd yno. A dechreuodd y wledd ar y diwrnod y cyraeddasant y lle. A phan ddaethant i'r castell, derbyniwyd Balin a'r llances i fewn gyda chroesaw. A'r gweision a gymerasant Falin i ystafell, ac a dynasant

ei arfwig oddiarno, ac a'i gwisgasant â dillad o sidan, a cheisiasant ganddo adael ei gleddyf yn yr ystafell.

"Ni wnaif hynny," ebe Balin, "oblegid y mae yn arferiad yn y wlad y deuaif o honi, fod pob marchog i gadw ei gleddyf gydag ef. Mi a gadwaf yr arferiad hwnnw, neu mi a ddychwelaf fel y deuthum."

Wedi clywed hyn gadawodd y gweision ef i fyned i fewn, ac yn ystafell y wledd gosodwyd ef i eistedd ymhlith marchogion anrhydeddus, a'r llances yn ei ymyl.



(C) BALIN YN LLADD GARLON.

Aeth y wledd yn ei blaen. Cyn hir gofynnodd Balin i un o'r marchogion :

"Onid oes yma farchog yn y llys o'r enw Garlon?"

"Oes," ebe'r marchog, "daew ef yn y man draw a'r wyneb du yna ganddo. Nid oes marchog mwy hynod yn fyw. Medr fyned oddiamgylch yn anweledig, a lladdodd lawer o farchogion dewr felly."

"Ha," ebe Balin, "ai dyna'r gwr?" ac efe a feddyl-iodd yn ei galon: "Os lladdaf ef yn awr, nis gallaf achub fy mywyd fy hun, ond os gadawaf iddo fyned ymaith yn awr, feallai na chaf fyth gystal cyfleustra, ac efe a ddiflanna eto o'm gŵydd, ac a wna lawer o niwed eto."

A phan oedd Balin yn craffu ar wyneb Garlon, gwelodd Garlon ef, ac a aeth yn ddig iawn tuag ato, ac a ddaeth i fyny, ac a'i tarawodd ar ei wyneb â'i law, ac a ddywedodd :

"Farchog, paham yr edrychi arnaf? Bwyta dy fwyd; a gwna'r hyn y daethost yma i'w wneud."

"Gwnaf yn wir," ebe Balin; "nid dyma'r dirmyg cyntaf wnaethost i mi, felly mi a wnaf yr hyn y deuthum yma o'i blegid."

Ac efe a gododd, ac a dynnodd ei gleddyf allan, a chydag un ergyd marwol, efe a holltodd ben Garlon hyd ei ysgwyddau.

"Dyma fy neges yma," meddai Balin, "ac yn awr dyro i mi'r ffon (ebe efe wrth y llances) â'r hwn y lladdodd efe dy farchog."

A'r llances a roddodd y ffon iddo, ac efe a'i gwthiodd trwy gorff Garlon, gan ddywedyd:

"Dyma'r ffon â'r hon y lleddaist farchog dewr, a chyda'r ergyd yma y dialaf ef arnat."

Yna y galwodd efe wr y castell y deuai efe o honi, ac a ddywedodd wrtho:

"Dyma dy elyn, cymer ddigon o'i waed i iachau dy fab."

Ac ar hynny cododd y marchogion i fyny oddiwrth y ford, ac a chwiliasant am eu harfau, gan feddwl dial ar Falin am ei weithred anfad. A chododd y brenin Pelam yn lliidiog, ac a ddywedodd wrth Falin.

"Paham y lleddaist fy mrawd? Ha, lofrudd twyllodrus, cei dithau farw am hyn."

"Os ewyllysi ddial arnaf," ebe Balin, "gwna hynny dy hunan, a mi a safaf i ymladd a thi."

"Gwnaf fel y dywedaist," ebe Pelam, "ni châ neb ddod rhyngof a thi; er mwyn fy mrawd, mi a ddialaf arnat."

A Phelam a ymaflodd mewn offeryn trwm, ac a

darawodd Falin yn llidiog, ond Balin a ddaliodd ei gleddyf i fyny i arbed yr ergydion, a tharawodd Pelam y cleddyf fel y syrthiodd yn ddrylliau mân.

A phan welodd Balin ei fod heb ddim i amddiffyn ei hun, aeth i ystafell gerllaw i chwilio am gleddyf neu unrhyw beth arall er ei alluogi i ymladd yn erbyn Pelam; ond methodd gael yr un, ac aeth o ystafell i ystafell ar yr un neges, a dilynwyd ef gan Pelam, yr hwn a geisiai ei ladd.

O'r diwedd daeth Balin i ystafell ag oedd wedi ei haddurno a chelfi drudfawr, lle'r oedd gwely wedi ei wisgo a dillad o aur, a chysgai un ar y gwely. Gerllaw yr oedd bord o aur gyda choesau o arian, ac ar y ford yr oedd gwaewffon o wneuthuriad rhyfedd. A phan welodd Balin y waewffon, ymaflodd ynddi, a thrôdd i wynebu ei elyn, ac a'i tarawodd ef a'r waewffon fel y syrthiodd y brenin i lawr mewn llewyg.

Ychydig feddyliodd Balin beth fuasai canlyniad yr ergyd alaethus yna. Yr oedd yn draddodiad yn y wlad, y buasai drwg mawr yn dilyn ar ol defnyddio'r waewffon ryfedd hon. Nid cynt y syrthiodd Pelam nag yr holltwyd muriau'r castell, a bu megis daeargryn dros y wlad. Dywed rhai dynion i'r ergyd alaethus hwn beri i'r castell grynu fel coeden, ac i furiau'r castell syrthio. A dyna paham y gelwir y digwyddiad yma: "Ergyd Alaethus Balin."

(IX.) MARWOLAETH ARTHUR.



(A) BRAD SYR MEDROD.

Bu Arthur yn ymladd llawer brwydr galed yn ei oes, ond mewn brwydr gyda'i nai, Medrod, y derbyniodd ergyd anghheuol. Yr oedd Medrod yn un o lywodraethwyr y deyrnas, a phan oedd Arthur yn absennol o'r wlad, gorchymynnodd ddanfôn llythyrau fel pe byddent yn dyfod dros y môr, a dywedai'r llythyrau hyn fod Arthur wedi ei ladd mewn brwydr. Yna y galwodd Medrod y Senedd a'r arglwyddi ynghyd, ac a barodd iddynt ei ddewis ef yn frenin, a choronwyd ef yng Nghaergaint, a chynhaliodd wleddoedd yno am bymtheng niwrnod. Yna efe a ymadawodd oddiyno i Gaerwynt, ac a ddaeth at y frenhines Gwenhwyfar, ac a ddywedodd wrthi y byddai iddo ei phriodi. Ac efe a ddarparodd ar gyfer y wledd, ac a benododd ddydd y briodas. Yr oedd Gwenhwyfar yn drist iawn o herwydd hyn, eto ymostyngai i ewyllys Medrod. Gofynnodd iddo am ganiatâd i fyned i Lundain i brynu yr hyn oedd eisieu ar gyfer y briodas. Yntau a ganiatâodd iddi fyned gydag amryw o'i morwynion a'i gweision, ac a roddodd iddi arian i brynu yr hyn oedd eisieu arni. Pan ddaeth hi i Lundain, prynodd lawer iawn o fwyd a danteithion, ac wedi hynny aeth i guddio yn Nhŵr Llundain, ac amddiffynnwyd hi gan lawer o filwyr ffyddlon. Pan glywodd Medrod iddo gael ei dwyllo

felly, gwnaeth ymosodiadau lawer ar y tŵr, ond nis gallai fyned i fewn.

Yna y daeth gair at Syr Medrod fod Arthur wedi cychwyn adref o'r cyfandir, gyda byddin fawr, i ddial ar Fedrod. Ar hynny danfonodd Medrod lythyrau at holl bendefigion y tir, gan ddywedyd na chai neb ddim ond rhyfel a chaledi gydag Arthur, tra y caent bob pleser a seguryd gydag ef.

Llawer o wŷr y wlad a ymunasant felly gyda byddin Medrod, ac efe a ddaeth gyda byddin gref i Dover i gyfarfod ag Arthur, gan fwriadu ei guro a'i gadw allan o'r wlad.



(B) NEIDR YN PERI DECHREU BRWYDR.

Cytunwyd fod i'r brenin Arthur a Syr Medrod gyfarfod a'u gilydd hanner y ffordd rhwng y ddwy fyddin, a phob un i gymeryd pedwar-ar-ddeg o filwyr gydag ef. Felly Arthur a aeth i'r maes, ar ol rhybuddio ei wŷr, gan ddywedyd:

“Os gwelwch gleddyf yn cael ei dynnu allan o'r wain, deuwch ymlaen yn wrol, a lleddwch y bradwr acw, Medrod, canys nid oes ymddiried i'w rod-di ynddo.”

Dywedodd Medrod yr un peth hefyd wrth ei wŷr yntau am Arthur.

Wedi cyfarfod a'u gilydd, a gwneud cytundeb, dechreuwyd yfed gwin mewn anrhydedd i'r amgylchiad. Ar hynny, wele neidr yn dyfod allan o dan lwyn o eithin, gan frathu marchog yn ei droed. A phan welodd y marchog y neidr, yn ddifeddwl tynnodd ei gleddyf i'w lladd. A phan welodd y ddwy fyddin y

clleddyf, canwyd yr udgyrn, a llefodd pawb á llef uchel. Rhuthrodd y gwŷr at eu meirch a'u harfau, ac ni fu erioed frwydr mor flin a honno mewn gwlad Gristionogol. Ymddygodd Arthur yn ddewr fel pen-milwr y wlad, tra'r oedd Medrod hefyd yn wrol iawn. Ymladdasant a'u gilydd yn aml, ond gwahanwyd hwynt gan eu marchogion.

Cyn machlud haul, trodd Arthur i edrych o'i gwmpas, a gwelai nad oedd dim ond dau o'i brif filwyr yn aros, sef Llogas a Syr Bedwyr, a'r ddau hynny wedi eu clwyfo yn dost.

"Och fi," ebe Arthur, "pa beth a ddaeth o fy holl farchogion da? Gwelaf fy niwedd wedi dyfod, ond, O! na wyddwn y lle y cawn afael yn y bradwr, Medrod, yr hwn a achosodd yr holl flinder hyn."

Yna y gwelodd Arthur y lle yr oedd Medrod. Gwelai ef yn sefyll ac yn pwysu ar ei gleddyf ynghanol pentwr o gyrff meirwon.



(C) YR ORNEST RHWNG ARTHUR A MEDROD.

"Dwg fy ngwaewffon ataf," ebe Arthur wrth Syr Llogas, "canys gwelaf y bradwr acw a ddug yr holl flinder hyn arnom."

"Gad iddo," ebe Llogas, "canys y mae yn galed arno; a chan nad wyt eto wedi dy niweidio, gâd y maes yn awr, rhag ofn y cei rywbeth gwaeth. Gelli fod yn foddlon, oblegid enillaist y frwydr; canys wele ni ein tri yn fyw, a chyda Medrod nid oes un marchog wedi ei adael yn fyw."

"Nac atal fi," ebe Arthur, "canys gwelaf ef acw, ac ni chaiff ddianc oddiwrthyf."

“Duw a fyddo gyda thi,” ebe Syr Bedwyr.

Yna y dododd Arthur ei waewffon yn ei ddwyllaw, ac a redodd at Fedrod gan waeddi :

“Fradwr, yn awr y daeth awr dy farwolaeth di.”

A phan welodd Medrod y brenin, rhedodd i'w gyfarfod gyda'i gleddyf noeth yn ei law, a tharawodd Arthur Fedrod o dan ei darian nes yr aeth blaen ei waewffon drwyddo nes dyfod allan yn ei gefn. Teimlodd Medrod iddo dderbyn ergyd marwol, a chyda'i holl nerth, rhuthrodd ar Arthur ac a'i tarawodd ef gyda'i gleddyf ar ei ben, nes holli ei helm a'i glwyfo yn dost nes y cwmpodd Arthur mewn llewyg. Bu Medrod farw'r funud nesaf, a chariwyd Arthur o faes y gwaed gan ei ddau farchog.



(D) ORIAU OLAF ARTHUR FRENIN.

Pan deallodd Arthur iddo dderbyn ergyd marwol gan Fedrod, dywedodd wrth Syr Bedwyr :

“Ychydig o amser sydd gennyf i fyw eto, felly dwg fy nghleddyf, Caledfwlch, i'r llyn acw, a phan ddeui yno, tafi ef i'r dwr, a dychwel ataf i ddywedyd wrthyf yr hyn a welaist yno.”

“Gwnaf arglwydd,” ebe Bedwyr, “mi a âf yn ol dy gais yn llawen.”

Felly aeth Bedwyr tua'r llyn, ac wrth edrych ar y cleddyf hardd, a sylwi ar y meini gwerthfawr oedd ar y carn, dywedodd wrtho ei hun :

“Os taffaf y cleddyf yma i'r dwr, ni ddaw dim lles ond colled fawr.”

Yna y cuddiodd Bedwyr y cleddyf dan bren, a'r noson honno dychwelodd at y brenin Arthur, a dywedodd wrtho iddo dafu Caledfwlch i'r dwr.

"Pa beth a welaist yno?" ebe'r brenin.

"Ni welais ddim yno, ond y dwr a'r tonnau," ebe Bedwyr.

"Anwiredd ydyw hyn," ebe Arthur, "dos yn fuan a thafi y cleddyf ar fy nghais."

Aeth Bedwyr yr ail waith, ac a fwriadodd dafu'r cleddyf i'r dwr, ond meddyliodd eto am y golled fawr o dafu cleddyf mor werthfawr i'r dwr. Felly cuddiodd ef drachefn, ac a ddychwelodd at Arthur, ac a ddywedodd wrtho iddo wneud yn ol ei gais.

"Pa beth a welaist yno," ebe Arthur, a dywedodd Bedwyr na welodd ddim yno ond y dwr yn y llyn.

"Ha, fradwr!" ebe Arthur, "gwn i ti fy nhwyllo ddwy waith. Pwy a feddyliodd y buasai i ti, Fedwyr, fu mor anwyl gennyf, ac yn filwr mor ddewr, fy nhwyllo er mwyn y cleddyf gwerthfawr yma? Dos yn awr, ac heb betruso; gwna yn ol fy nghais, neu mi a'th laddaf a'm llaw fy hun."

Yna yr aeth Bedwyr at y llyn eto, ac a dafodd y cleddyf i'r dwr a'i holl nerth, mor bell ag y gallai; ac ar hynny, fel yr oedd y cleddyf Caledfwlch yn disgyn i'r dwr, wele fraich a llaw yn dyfod allan o'r llyn, ac yn ymaflyd ynddo, ac yn ei ysgwyd ef dair gwaith. Ac yna y diflannodd y llaw a'r cleddyf i'r dwr. Felly dychwelodd Bedwyr at Arthur, ac a ddywedodd wrtho yr hyn a welodd. Yna y dywedodd Arthur wrth Fedwyr am ei ddwyn i ymyl y llyn.

Cariodd Bedwyr Arthur ar ei gefn nes dyfod i ymyl

y llyn. A phan ddaethant yno, gwelent yn yr ymyl fâd bychan, a llawer o foneddigesau heirdd ynddo. Yn eu plith yr oedd brenhines, ac yr oeddynt oll wedi eu gwisge mewn dillad duon, ac yn wylo wrth weled Arthur.

“Gosod fi yn y båd,” ebe Arthur.

A'r tair brenhines a'i derbyniasant ef i fewn, ac un o honynt a osododd ei ben i orffwys arni, ac a ddywedodd wrtho :

“Ha, fy mrawd, paham yr oedaist gymaint? Dioddefaist lawer o herwydd y clwyf yma ar dy ben.”

Ar hynny rhwyfwyd y båd oddiwrth y tir, a gwelodd Syr Bedwyr yr holl foneddigesau ac Arthur yn diflannu oddiwrtho, ac a waeddodd allan :

“Ha, fy arglwydd Arthur, pa beth a ddaw o honof yn awr gan dy fod yn fy ngadael yn unig ymhlith fy ngelynyion?”

“Cymer gysur,” ebe Arthur, “a gwna fel y gweli oreu, oblegid âf i Ddyffryn Afallon i wellhau fy nghlwyf, ac os na chlywi ddim am danaf eto, gweddïa drosof.”

Ond y frenhines a'r boneddigesau a wylasant yn uchel, ac wedi i Fedwyr golli golwg ar y båd, wylodd yntau, ac a ofidiodd yn flin.

Tybia rhai fod Arthur eto yn fyw, ond wedi myned i wlad arall, ac y daw eto i ennill y groes sanctaidd; ond er fod Arthur yn frenin doeth, ac yn filwr dewr, nis gellir credu hyn am dano, er y dywed rhai fod yn ysgrifenedig ar ei gof-golofn y geiriau hyn :

Yma y gorwedd Arthur, a fu frenin ac a fydd frenin eto.

Caledfwlch : enw cleddyf Arthur.

(E) ARTHUR.

Gwrol a da ydyw Arthur i'r Cymry,
 Teilwng yw byth o anrhydedd a chlod ;
 Arthur sydd fawr megis tad yn ei deulu ;
 Arthur ein teyrn ydyw'r doethaf yn bod.
 Gwelir ei fawredd,
 Cenir ei glod.
 Swynion ei enw yn anwyl a gofir
 Tra pery y rhod.

Mwynion a gawn lawer blwyddyn drwy Arthur,
 Lloches i'r gwan a tharian dêg yw ;
 Mwyach bydd pawb yn ddiogel rhag dolur ;
 Ysgwyd wna'r cledd yn neheulaw ein llyw.
 Rhyddid gaed drwyddo ;
 Brydain, O! clyw,
 Cofir ei hanes "tra mor a thra Brython,"
 A'i enw gaiff fyw.

Gwisger ei ben â choronau y gwledydd,
 Cariad ei bobl nefoleiddia ei wedd ;
 Cododd ei wlad o droed y gorthrymydd
 Llwyddiant a bri gawsom oll trwy ei gledd.
 Dalied yn loew,
 Llanwed o'i sedd
 Wlad y Brythoniaid dros byth, megis heddyw,
 A llwyddiant a hedd.

R. J. DERFEL

(Cantawd Llys Arthur).

IARLLES Y FFYNNON.



I.—CYNNON YN DECHREU DWEYD STORI.

Yr oedd y brenin Arthur yng Nghaerlleon-ar-Wysg, ac un diwrnod eisteddai yn ei ystafell gydag Owain ab Urien, Cynnon ap Clydno, a Chai ap Cynner; ac yr oedd Gwenhwyfar a'i llawforwynion yn eistedd wrth y ffenestr. Ac er y dywedir yr arferai porthor fod yn llys Arthur, nid oedd yr un yr amser hwnnw, ond yr oedd Glewlwyd Gafaelfawr yno yn ymgymeryd a gwaith porthor, ac yn croesawu'r dieithriaid, gan ddechreu eu hanrhydeddu, a'u hysbysu am drefn y llys, a chyfarwyddo y rhai oeddynt i fyned i'r neuadd neu i'r ystafell, a dangos eu llety iddynt.

Eisteddai'r brenin Arthur ynghanol yr ystafell, ar faine o irfrwyn, ac yr oedd llen o sidan melyngoch am dano, a gobennydd wedi ei orchuddio a sidan coch o dan ei benelin. Yna y dywedodd Arthur:

“Ha, wŷr, âf i gysgu tra yn aros fy mwyd, a chwi a ellwch ymddiddan a'ch gilydd, a chymeryd ystenaidd o fedd a chig oddiwrth Gai.”

A chysgodd y brenin.

Yna y gofynnodd Cynnon ap Clydno i Gai am yr hyn a addawsai Arthur iddynt.

“Minnau hefyd,” ebe Cai, “a ofynnaf am y chwedl a addawyd i mi.”

“Ha,” ebe Cynnon, “tecach yw i ti wneuthur addewid Arthur yn gyntaf, ac yna ni a ddywedwn y chwedl oren a wyddom.”

Aeth Cai i'r gegin ac i'r feddgell, ac a ddaeth allan ac ystenaïd o fedd ganddo a llestr aur, a llond ei ddwrn o ferau a chig arnynt. A hwy a gymerasant y cig, ac a yfasant y medd.

"Yn awr," ebe Cai, "y mae yn bryd i chwi dalu i minnau drwy ddweyd eich chwedl."

"Cynnon, ebe Owain, "dywed chwedl wrth Gai."

"Yn wir," ebe Cynnon, "yr wyt ti yn hŷn ac yn well chwedleuwr na mi, a gwelaist fwy o ryfeddodau'r byd; felly dywed di chwedl wrth Gai."

"Dechreu di," ebe Owain, "a dywed y chwedl oreu sydd gennyt."

"Hynny a wnaf," ebe Cynnon.

Ac yna y dechreuodd Cynnon ei chwedl.

"Unig fab fy nhad a fy mam oeddwn, a hoff oeddwn o bleser, ac yn fawr fy rhyfyg. Credwn nad oedd neb yn y byd yn drech na mi mewn unrhyw gamp. Ac wedi i mi orchfygu ymhob gorchest oedd yn y wlad lle'r oeddwn, euthum a cherddais hyd derfynau'r byd. Yn y diwedd digwyddodd i mi ddod i'r glyn tecaf yn y byd. Ynddo yr oedd coed, yr oll o'r un uchder. Yr oedd yno hefyd afon redegog, ac yr oedd llwybr ar ochr yr afon. Cerddais ar hyd y llwybr hyd hanner dydd, a'r rhan arall a gerddais yn y prynhawn.

Yna y deuthum i faes mawr. Ymhen y maes yr oedd castell mawr, disglair, a rhaiadr yn agos i'r castell. A mi a euthum tua'r castell, a gwelwn ddau lanc pengrych melyn, a phais o sidan melyn arnynt, a byclau aur am eu traed. Ac yn eu llaw yr oedd bwa o asgwrn eliffant, a'r llinynnau oeddynt o iau hydd. Ac yr oedd eu saethau o asgwrn morfil, a phennau aur arnynt. Yr

oedd llafnau aur i'w cyllyll, a'u carnau oeddynt o asgwrn morfil, ac yr oeddynt yn bwrw eu cyllyll.

Ychydig oddiwrthynt gwelwn ŵr canol oed pengrych melyn, a'i farf wedi ei heillio, a mantell o sidan melyn arno. Ar ei draed yr oedd esgidiau o ledr amryliw, a byclau o aur arnynt. A phan y gwelais ef dynesais ato a chyferchais ef. Ac yr oedd mor fwyn, fel y cyfarchodd efe fi, cyn i mi ei gyfarch ef. Ac efe a'm harweiniodd tua'r castell. Ac yno yr oedd pedair morwyn ar hugain yn gwnïo sidan wrth y ffenestr, a dywedaf wrthynt, Gai, fod yr hagraf o honynt yn decach na'r un forwyn a welaist erioed yn Ynys Prydain. Yr oedd yr anharddaf o honynt yn harddach na Gwenhwyfar, gwraig Arthur, pan fu harddaf.

A hwy a godasant i'm herbyn, a chwech o honynt a gymerasant fy march, ac a ddiosgasant fy arfau; a chwech arall a gymerasant fy arfau, ac a'u golchasant nes oeddynt cyn wynned a'r eira; a'r trydydd chwech a ddodasant lieiniau ar y byrddau ac a ddarparasant fwyd, a'r pedwerydd chwech a ddiosgasant fy ngwisg ac a roisant wisg arall am danaf o sidan melyn, a hwy a drefnasant obenyddion a gorchuddion o lian coch o'm hamgylch.

A'r chwech a gymerasant fy march a wnaethant iddo gystal ag y gwnai gwŷr goreu Ynys Prydain. Ac ar hynny wele daeth cawgiau arian a dwfr i ymolchi ynddynt, a llieiniau gwynion a gwyrddion."

Medd: math o ddiod a wneir o fêl a dwfr.

Meddgell: yr ystafell lle y cedwir y medd.

"Yn fawr fy rhyfyg": yn mentro gwneud pethau na ddylai.

Chwedleuwr: un a ddywed stori.

Cyfarwyddo: dangos y ffordd iddynt.

"Dynesais ato": euthum yn agos ato.

Porthor: un yn gofalu am y porth neu'r drws a arweiniai i'r llys.

II.—CYNNON A'I STORI.


“Yna,” meddai Cynnon, “euthum i ymolchi, ac, ar ol hynny, aeth y gwr a minnau at y bwrdd. A'r holl wragedd a eisteddent islaw i mi. Yr oedd y bwrdd o arian, ac wedi ei orchuddio a llian main, ac nid oedd yr un llestr ar y bwrdd heb fod naill o aur neu o arian. Yna daeth y bwyd i'r bwrdd, ac yn sicr i ti, Gai, ni welais fwyd na diod erioed yn un man nad oedd ei gyffelyb yno, ac yr oedd y bwyd a'r diod yma wedi ei drefnu yn well nag a welais erioed cyn hynny. Mwynheais y wledd yn rhyfedd, ond hyd nes i mi fwyta hanner fy mwyd, ni ddywedodd y gwr nac un o'r morwynion yr un gair wrthyf. A phan welodd y gwr fod arnaf chwant ymddiddan, gofynnodd i mi pwy oeddwn. Dywedais wrtho fod yn dda gennyf gael rhywun i siarad a mi, ac mai'r bai mwyaf a welwn yn y llys oedd nad oedd yno neb yn siarad a mi.

‘Ha,’ ebe'r gwr, ‘mi a siaradwn a thi onibai fod arnaf ofn y buaswn yn dy rwystro ar dy fwyd, ond yn awr ni a ymddiddanwn.’

Yna y dywedais wrtho pwy oeddwn, a beth oedd fy neges, sef fy mod yn chwilio am un a'm gorchfygai, neu i weled a allwn i orchfygu pawb. Edrychodd y gwr arnaf, gan wenu, a dywedodd wrthyf, ‘Pe gwyddwn na ddelai gormod o ofid i ti, mi a fynegwn i ti pa le y cei yr hyn y chwili am dano.’ Ar hyn aeth fy ngolwg yn drist a phrudd. Gwelodd yntau hynny a dywedodd wrthyf: ‘Gan fod yn well gennyf i mi fynegi i ti yr hyn a all fod yn niwed i ti, mi a wnaif hynny. Ond cwsg yma heno, a chyfod yn foreu, a dos i'r llwybr sydd ar hyd y dyffryn uchod, nes y delych i'r goedwig y daethost

trwyddi. Wedi myned ychydig i fewn i'r coed, deui at groesffordd; dos ar dy union, hyd nes y delych at lannereh fawr, a thwyn yn ei chanol, ac ar ben y twyn, ti a weli ŵr du, mawr, heb fod yn llai na dau o wŷr cyffredin. Un troed sydd ganddo, ac un llygad ynghanol ei dalcen. Y mae ganddo ffon haearn, a hon sydd ddigon o lwyth i ddau ŵr cyffredin. Nid yw yn ŵr hawddgar, ond yn anhawddgar iawn, ac efe sydd yn gofalu am y coed. A thi a weli fil o anifeiliaid gwylltion yn pori o'i amgylch. Gofyn iddo y ffordd allan o'r llannerch. Efe a'th etyb yn sarrug, ond efe a ddywed wrthyt y ffordd allan o'r llannerch, ac felly y cei yr hyn y geisi.' Ac yr oedd y noson honno yn hir iawn i mi, a phan ddaeth y boreu, cyfodais a gwisgais, ac esgynnais ar fy march, ac euthum rhagof drwy'r dyffryn i'r coed. A mi a ddeuthum i'r llannerch ar hyd y ffordd a fynegodd y gwr i mi. A phan ddeuthum yno, sier gennyf i mi weled tri chymaint o anifeiliaid gwylltion ag y dywedodd y gwr wrthyt. Eisteddai'r Gwr Du ar ben y twyn, ac edrychai yn fwy o lawer nag a ddywedodd y gwr wrthyt am dano. Gwelais y ffon haearn a ddywedasai'r gwr, a sier oedd gennyf ei bod yn llwyth pedwar gwr, ac yr oedd hi yn llaw'r Gwr Du. Ac ni ddywedai efe ddim wrthyt ond yn sarrug. Gofynnais iddo pa awdurdod oedd ganddo ar y creaduriaid hyn. 'Danghosaf i ti, ddyn bychan,' ebe yntau, 'ac ar hynny cymerodd ei ffon yn ei law, a tharawodd garw oedd yn ei ymyl ag ergyd mawr, hyd nes i hwnnw frefu yn nerthol; ac, ar hyn, daeth yr anifeiliaid ynghyd, ac yr oeddynt mor aml a sér yn yr awyr, ac yr oedd yn gyfyng i mi sefyll yn y llannerch ynghanol yr holl seirff a'r gwiberod, a'r holl anifeiliaid

ereill. Edrychodd y Gwr Du arnynt, ac a archodd iddynt fyned i bori. A hwy a ostyngasant eu pennau, ac a ymgrymasant iddo fel gwŷr i'w harglwydd. Yna y dywedodd y Gwr Du wrthyf, 'A weli di, ŵr bychan, yr awdurdod sydd gennyf ar yr anifeiliaid hyn?' Yna gofynnais iddo am y ffordd allan o'r llannerch. Gofynnodd yntau i mi pwy oeddwn, a pha beth a geisiwn. Dywedais innau wrtho, ac efe a fynegodd y ffordd i mi. 'Cymer,' ebe efe, 'y ffordd a'th arweinia i ben y llannerch, a cherdda i fyny'r bryn, hyd nes y delych i'w ben, ac oddiyna ti a weli faes agored, megis dyffryn mawr. Ac ynghanol y maes, ti a weli bren mawr, glasach yn ei frig na'r ffynidwydd glasaf. O dan y pren y mae ffynnon, ac yn ymyl y ffynnon y mae llech o fynor, ac ar y llech y mae cawg arian, wrth gadwyn o arian, fel nas gellir eu gwahanu. Cymer y cawg, a bwrw ei lond o ddwfr ar ben y llech, ac yna ti a glywi swm mawr, a thi a feddyli fod y nefoedd a'r ddaear yn crynu gan faint y swm. Ac ar ol y swm y daw cawod mor enbyd fel o'r braidd y gelli ei dioddef, a byw. Cawod o genllysg fydd hi, ac ar ol y gawod y bydd tywydd tég. Ac ni adewir un ddeilen ar y pren ar ol y gawod. Ar ol hyn y daw cawod o adar, a hwy a ddisgynnant ar y pren, ac ni chlywaist erioed y fath ganu swynol yn dy wlad dy hun. A phan fyddi yn mwynhau cân yr adar, ti a glywi swm cwyno a gruiddfan yn dyfod o'r dyffryn, ac, ar hynny, ti a weli farchog ar farch du, a gwisg o sidan du am dano, a baner ddu ar ei waewffon.~ Efe a ymosoda arnat cyn gynted ag y gallo. Os ffoi a wnei, y mae yn sier o'th ddal; ond, os arhosi, mor sier a'th fod ar farch, efe a'th edy ar dy draed, ac os na chyfarfyddi



Y FFYNNON.

a gofid y tro yma, ni fydd eisieu i ti ofni yr un gofid tra fyddi byw'."

Sarrug : cas, ac yn siarad yn | **Hawddgar** : un caredig ac yn siarad yn gyfeillgar.



III.—EFFAITH Y CHWEDL AR OWAIN.

Aeth Cynnon ymlaen a'i chwedl :

"Euthum," meddai, "ar hyd y ffordd y deuthum, i ben y bryn, ac oddiyno y gwelwn fel y dywedai'r Gwr Du wrthyf. A mi a ddeuthum i ymyl y pren, ac a welais y ffynnon a'r llech o fynor yn ei hymyl, a'r cawg arian wrth y gadwyn. Cymerais y cawg, a bwriais ei lond o ddwfr ar y llech, ac, wele, daeth y swm yn fwy o lawer nag a ddywedasai'r Gwr Du wrthyf. Ar ol y swm daeth y gawod, a sier gennyf, Gai, na ddihangai na dyn nac anifail yn fyw o'r gawod hon, oblegid nid arhosai un o'r cenllysg ar y croen nac ar y cig, ond elai i fewn hyd at yr asgwrn. A mi a drois fy march ac a osodais un rhan o'm tarian ar ei ben a'i wddf a rhan uchaf y darian ar fy mhen fy hun, ac felly yr achubais rhag cael fy niweidio gan y gawod. A phan edrychais ar y pren, nid oedd yr un ddeilen arno, ac yna y daeth tywydd tég, ac wele fe ddaeth yr adar ar y pren i ganu, ac ni chlywais na chynt na chwedi hynny gystal canu. A phan oeddwn yn mwynhau cân yr adar, clywais lais cwyno yn dyfod o'r dyffryn tuag ataf ac yn dywedyd : 'Ha, farchog, pa beth a'th ddenodd di yma? Pa ddrwg a wnes i ti gan dy fod yn gwneud felly a mi ac i'm teyrnas? Oni wyddost nad adawodd y gawod heddyw na dyn nac anifail yn fyw yn fy nheyrnas, os oeddynt

allan ynndi?' Ac, ar hynny, wele farchog ar farch du, a gwisg o sidan du arno, a baner o lian du ganddo. Ac efe a ymosododd arnaf, a minnau arno ef, ac mor nerthol oedd yr ornest, fel y bwriwyd fi i'r llawr. Yna y dododd y marchog ben ei waewffon drwy ffrwyn fy march, ac ymaith yr aeth a'r ddau farch ganddo, a'm gadael innau yno, heb gymaint a'm carcharu na'm hysbeilic. A minnau a ddeuthum drachefn i'r llannerch lle yr oedd y Gwr Du, a chyffesaf i ti, Gai, ei bod yn rhyfedd na thoddais yn llyn gan faint fy nghywilydd, oherwydd y gwatwar a gefais gan y Gwr Du. A mi a ddeuthum yn ol i'r castell, lle'r oeddwn y noson gynt, a buwyd yn fwy llawen y noson honno na'r noson flaenorol. Ymddidenais a'r gwŷr a'r gwragedd, ond ni ofynnodd neb ddim i mi am fy nhaith i'r ffynnon, ac ni awgrymais innau ddim i neb. Ac yno yr arhosais y noson honno. A thrannoeth, pan gyfodais, yr oedd march llwyd, a ffroenau mor goched a'r ysgarlad, yn fy aros. Ac wedi i mi wisgo fy arfau, a gadael fy mendith yno, dychwelais i'm llys fy hun, ac y mae'r march hwnnw gennyf eto, ac ni newidiwn ef am y march goreu yn Ynys Prydain. Ac yn wir, Gai, y mae yn sier gennyf nad addefodd neb chwedl mor ddirmygus am dano ei hun, ac y mae yn syn gennyf na chlywais am neb erioed a wyddai am fy nhaith ond mi fy hun, ac i'r anturiaeth ddigwydd o fewn teyrnas Arthur, heb i neb glywed am dani."

"Ha, wŷr," ebe Owain ab Urien, "onid gwell yw chwilio am y lle hwn?"

"Yn wir," ebe Cai, "ti a ddywedi lawer o bethau a'th dafod, yr hyn na wnei mewn gweithred."

"Yn sier," ebe Gwenhwyfar, "fe fyddai yn well dy

grogi di, Gai, nag it' siarad mor ddirmygus am ŵr fel Owain."

"Ha, wraig dda," ebe Cai, "ni chanmolaist ti ddim mwy ar Owain nag a wnes innau."

Ar hynny, deffrôdd Arthur, a gofynnodd os oedd wedi cysgu yn hir.

"Do, arglwydd," ebe Owain, "cysgaist am gryn amser."

"A ydyw yn bryd i ni fyned at y byrddau?" ebe Arthur.

"Ydyw, arglwydd," ebe Owain.

Ac yna canwyd y corn, a hwy a ymolchasant, ac aeth y brenin a'i holl deulu i fwyta, ac wedi bwyta, diflannodd Owain ymaith.



IV.—OWAIN YN CYCHWYN I FFWRDD.

Wedi iddo glywed chwedl Cynnon, aeth Owain ar ei union i'w lety i baratoi ei arfau a'i farch. A boreu drannoeth, gwisgodd ei arfau am dano; esgynnodd ar ei farch, a theithiodd i gyrrau pellaf y byd, a thros fynyddoedd diffaith, er chwilio am y pethau yr adroddasai Cynnon am danynt. O'r diwedd daeth i'r glyn y mynegasai Cynnon iddo am dano.

Cerddodd ar hyd y glyn ar lan yr afon, hyd nes y daeth i'r dyffryn, ac aeth ar hyd y dyffryn, hyd nes y gwelai'r castell. Aeth tua'r castell, a gwelai'r gweision yn saethu eu cyllyll, fel y gwelsai Cynnon, a'r Gwr Melyn, perchennog y castell, yn sefyll yn eu hymyl.

Ac Owain a gyfarchodd y Gwr Melyn, a'r Gwr Melyn a'i cyfarchodd yntau. Aeth Owain rhagddo tua'r

castell, a phan ddaeth i'r ystafell, gwelai forwynion mewn cadeiriau aur yn gwnïo sidan. A synnai Owain yn fwy wrth weled mor hardd ac mor dæg yr oeddynt na phan ddywedai Cynnon wrtho am danynt. Cyfododd y morwynion i wasanaethu ar Owain fel y gwnaethant i Gynnon. A hoffai Owain y bwyd yn fwy nag a wnai Cynnon.

Ac ar hanner bwyd gofynnodd y Gwr Melyn i Owain beth oedd ei neges. Dywedodd Owain amcan ei daith, sef er ceisio gorchfygu'r marchog a gadwair ffynnon. Gwenodd y Gwr Melyn, a dywedodd ei fod yn anodd ganddo fynegi i Owain am y daith, fel y bu yn anodd ganddo fynegi i Gynnon. Eto, dywedodd y cwbl wrth Owain, ac yna yr aethant i gysgu.

Boreu drannoeth yr oedd march Owain yn barod gan y morwynion, ac aeth Owain ymlaen, hyd nes y daeth i'r llannerch lle'r oedd y Gwr Du ynddi. A synnodd Owain yn fwy na Chynnon wrth weled maint y Gwr Du, a gofynnodd iddo am y ffordd. Dywedodd y gwr wrtho, a cherddodd Owain ar hyd yr un ffordd ag y bu Cynnon, hyd nes y daeth i ymyl y pren glas. Ac efe a welai'r ffynnon, a'r llech yn ymyl y ffynnon, a'r cawg arni.

Cymerodd Owain y cawg, ac a daflodd ei lond o ddwfr ar y llech. Ar hynny y daeth swm mawr; ac, ar ol y swm, gawod fwy enbydus o lawer nag a ddywedasai Cynnon. Ac wedi'r gawod, goleuodd yr awyr, a phan edrychodd Owain ar y pren, nid oedd un ddeilen arno. Ac ar hynny, wele, disgynnodd yr adar, a phan oedd Owain yn mwynhau cerdd yr adar, gwelai farchog yn dyfod ar hyd y dyffryn, ac aeth Owain i'w gyfarfod.

Ac Owain a ymladdodd yn galed ag ef; a hwy a dynasant eu cleddyfau, ac a ymladdasant lafn wrth lafn, Ar hynny tarawodd Owain y marchog trwy ei helm. a thrwy'r groen, a'r cig a'r asgwrn, fel y clwyfwyd ef yn ei ymennydd. Yna y gwyddai'r marchog iddo gael ergyd angheuol, a thrôdd ben ei farch, ac a ffôdd, ac Owain a'i canlynnodd.

Ar hynny, gwe'ai Owain gastell mawr, disglair, a hwy a ddaethant i'r porth. Gollyngwyd y gwr i fewn, ond parwyd i ddrws y porth ddisgyn ar farch Owain, nes ei dorri yn ddau hanner, a gadawyd darn o yspardynnau Owain, a darn o'i farch y tu allan i'r drws. Ac yr oedd Owain a darn o'i farch rhwng y drws mewinol a'r un allanol. Caewyd y drws mewinol hefyd, ac ni allai Owain symud o'r man hwnnw. Pan oedd felly, gwelai trwy dwll yn y drws, heol, ac ystryd o dai bob ochr; ac efe a welai forwyn hardd, benfelen, a gwisg o sidan melyn am dani, ac esgidiau o ledr amryliw am ei thraed, yn dyfod tua'r drws. A hi a archodd Owain i agor y drws.

"Duw a wŷr," ebe Owain, "nas gallaf ei agor i ti o'r tu yma, mwy nag y gelli di ei agor i mi o'r tu yna."

"Ha, wŷr da," ebe'r forwyn, "y mae yn drueni nas gellir dy achub, a thêg yw i wraig wneud caredigrwydd a thi, oblegid ni welais erioed wŷr harddach na thi, a thi a fyddi yn wŷr da i'th wraig, ac am hynny y gwnaf yr hyn a allaf drosot."

"Cymer y fodrwy yma, a dod ar dy fys, a dod y maen hwn yn dy law, gan gau dy ddwrn am y maen, a thra y cuddi di ef, y maen a'th guddi di. Wedi iddynt ymgynghori a'u gilydd, deuant i'th ladd. A phan na

welant di, bydd yn flin ganddynt, a mi a fyddaf ar yr esgynfaen acw yn dy aros, a thi a'm gweli i er na welaf fi di. Tyred dithau, a dod dy law ar fy ysgwydd, ac yna y gwybyddaf dy ddyfod ataf, ac yna dos dithau yr un ffordd ag yr âf finnau."

Ar hynny, aeth y forwyn oddiwrth Owain, ac efe a wnaeth yn hollol yn ol ei gorchymyn hi.



V.—OWAIN A LUNED.

Ymhen ychydig amser daeth y gwŷr o'r llys i geisio lladd Owain, ond ni welsant ddim ond hanner y march. Gofidiasant yn flin am hyn, a hwy a agorasant y drws allanol i chwilio am Owain. Yna y dihangodd Owain o'u plith, a daeth at y forwyn. Dododd ei law ar ei hysgwydd, a chychwynnodd hithau i ffwrdd. Dilynnodd Owain hi nes iddynt ddyfod i ddrws lloft fawr odidog.

Agorodd y forwyn y drws, ac wedi iddynt fyned i fewn, caewyd drws y llofft drachefn. Edrychodd Owain ar hyd y llofft, ac yr oedd hyd yn oed yr hoelion wedi eu lliwio a lliw gwerthfawr, ac nid oedd un ystyllen yno heb fod delw aur arni.

Wedi cyneuu tân, cymerodd y forwyn lond cawg arian o ddwfr, a thywel o lian gwyn, ac a ddywedodd wrth Owain am ymolchi. Gosododd y forwyn hefyd ffwrdd arian ger ei fron, a llian melyn arno, a chiniaw arno i Owain. Ac yr oedd Owain yn sier na welodd unrhyw fath o fwyd mewn unrhyw fan nad oedd yno ar y bwrdd ger ei fron, ond yr oedd y bwyd yma wedi ei ddarparu yn well na dim a gafodd erioed o'r blaen.

Yr oedd yr holl lestri o aur neu o arian. Ac Owain a fwytaodd ac a yfodd nes yr oedd yn hwyr yn y prynhawn. Wedi bwyta, clywai swm gwaeddi yn y castell. Gofynnodd i'r forwyn :

“Pa waeddi yw hwn?”

“Dodi olew y maent ar y gwr da biau'r castell,” ebe'r forwyn.

Yna aeth Owain i gysgu, ac yr oedd y gwely a ddarparodd y forwyn i Owain yn deilwng o Arthur. Yr oedd wedi ei orchuddio a sidan coch, ac a llian main. Ac ar hanner nos clywent swm gwaeddi mewn dychryn.

“Pa beth ydyw'r swm yma?” ebe Owain.

“Bu farw'r gwr da biau'r castell yma,” ebe'r forwyn.

Ac ychydig wedi toriad gwawr, clywyd swm cwyno a gwaeddi mawr. Gofynnodd Owain i'r forwyn eto :

“Pa beth yw ystyr y gwaeddi yna?”

“Y maent yn myned a chorff y gwr da i'r Eglwys,” ebe'r forwyn.

Cododd Owain i fyny, gwisgodd ei ddillad, agorodd y ffenestr ac edrychodd tua'r castell, Ac ni welai derfyn ar y bobl a lenwai'r heolydd, a'r rhai hynny oll yn dwyn arfau. Ac yr oedd llawer o wragedd yn eu plith, rhai ar feirch, a'r lleill yn cerdded ar draed. Ynghanol y llu gwelai ef yr elor, a llen o lian main gwyn arni, a chanhwyllau cwyr yn llosgi o'i hamgylech ac nid oedd un o'r elor-gludwyr heb fod yn ŵr cyfoethog iawn.

Ni welodd Owain erioed y fath nifer hardd mewn sidan coch. Ar ol y dyrfa, gwelai wraig â gwallt melyn dros ei hysgwyddau, ac wedi ei liwio a gwaed, a gwisg o sidan melyn am dani, a dwy esgid o ledr amryliw am ei thraed; ac yr oedd yn rhyfedd na fai ei bysedd wedi

eu torri, gan mor galed y curai ei dwylaw. Ni welodd Owain erioed wraig mor lân ei gwedd; a hi a lefai yn uwch na swm corn pob dyn.

A phan welodd Owain y wraig, meddiannwyd ef yn llwyr gan gariad tuag ati, a gofynnodd i'r forwyn pwy ydoedd hi.

"Yn wir," ebe'r forwyn, "gallaf ddywedyd wrthyt mai hi ydyw'r wraig buraf, haelaf, harddaf, a doethaf a welaist erioed. Fy meistres yw hi, a gelwir hi Iarles y Ffynnon; hi ydyw gweddw'r gwr a leddaist ti ddoe."

"Ar fy llw," ebe Owain, "hi yw'r wraig a garaf fi fwyaf o bob gwraig."

"Yn wir," ebe'r forwyn, "a hithau hefyd a'th gâr dithau."

Ar hynny, cododd y forwyn, ac wedi iddi gynneu tân, a thwymo llond llestr o ddwfr, hi a gymerodd dywel o lian main, gwyn, ac a'i dododd ar wddf Owain. Yna hi a gymerodd lond cawg aur o'r dwfr twym ac a olchodd ben Owain. Yna hi a eilliodd ei farf, ac a sychodd ei ben a'i wddf a'r tywel. Yna y dug y forwyn ei giniaw iddo; ac ni chafodd Owain erioed giniaw wedi ei darparu yn fwy difai.

Wedi ciniaw, trefnodd y forwyn y gwely, a dywedodd wrth Owain:

"Dos i gysgu yma, a mi a âf i ymddiddan a'r Iarles drosot."

Aeth Owain i gysgu, ac wedi cau drws y lloft, aeth y forwyn tua'r castell, a phan ddaeth yno, nid oedd yno ond tristwch a gofid. Ni adawai yr Iarles i neb ei gweled gan faint oedd ei thristwch.

VI.—OWAIN A'R IARLLES.

Aeth Luned at yr Iarlles, ac a gyfarchodd well iddi, ond nid atebai'r Iarlles yr un gair. Gofidiodd y forwyn oherwydd hyn, a gofynnodd i'r Iarlles :

“Pa beth a ddigwyddodd i ti, gan na ddywedi air wrth neb heddyw ?”

“Luned,” ebe'r Iarlles, “pa beth a ddigwyddodd i ti, gan na ddaethost i'm gweled yn fy nghofid? Nid oedd yn iawn i ti beidio dyfod i'm gweled. Mi a'th wneuthum yn gyfoethog, a thi a ddylesit dalu i mi yn awr yn nyddiau fy nhriswch.”

“Yn wir,” ebe Luned, “meddyliais dy fod yn ddoethach nag yr wyt. Onid gwell yw i ti geisio am ŵr arall na galaru felly am y gwr a gollaist ?”

“Yn wir,” ebe'r Iarlles, “ni allwn fyth gael un tebyg i'r un a gollais.”

“O! gallet,” ebe'r forwyn, “mae yn bosibl i ti gael ei gystal a'i well hefyd.”

“Yn wir,” ebe'r Iarlles, “pe na bai gas gennyf ladd un a fegais, mi a barwn dy ladd di am ddywedyd yr hyn a ddywedaist, ond mi a'th yrraf allan o'm llys.”

“Da gennyf,” ebe'r forwyn, “mai am i mi fynegi rhywbeth er dy les y gwnei di hyn, a bydded cywilydd ar yr un o honom a ddenfyn i geisio heddwch gan y llall.”

Ar hynny, aeth Luned ymaith, a'r Iarlles hefyd a gyfododd, ac a ddaeth hyd at ddrws yr ystafell ar ol Luned, ac a besychodd yn uchel. Edrychodd Luned yn ol, a gwelodd fod yr Iarlles yn gwneud arwydd iddi ddyfod yn ol, a hi a ddaeth drachefn ati.

“Yn wir,” ebe'r Iarlles, “er dy fod yn ddrwg; eto,



YR IARLLES YN GALW LUNED I'N OL.

gan dy fod am ddweyd rhywbeth fydd er fy lles, cei ddywedyd beth ydyw.”

“Mi a wnafl,” ebe Luned. “Ti a wyddost nas gellir cadw'r deyrnas yma ond trwy nerth arfau a milwriaeth; am hynny, cais yn ebrwydd un a fedr ymladd drosot.”

“Pa fodd y gallaf wneud hynny?” ebe'r Iarllles.

“Dyma'r ffordd,” ebe Luned. “Ni eill neb amddiffyn y ffynnon yma ond un o deulu Arthur. Mi a âf i lys Arthur, a bydd cywilydd arnaf os na ddof yn ol a milwr a gadwo'r ffynnon gystal os nad yn well na'r gwr a'i cadwodd o'r blaen.”

“Anodd yw hynny,” ebe'r Iarllles; “eto dos i brofi yr hyn a ddywedaist.”

Yna yr aeth Luned ymaith, a daeth yn ol i'r lloft at Owain, ac yno y buont ill dau hyd nes daeth yr amser i Luned fyned yn ol at yr Iarllles.

Yna y daeth Luned at yr Iarllles, a'r Iarllles a'i croesawodd hi.

“A oes gennyf newyddion o lys Arthur?” ebe'r Iarllles.

“Oes,” ebe Luned, “y mae gennyf newydd da. Ces yr hyn a geisiais. Dywed i mi pa bryd yr hoffet weled y pendefig a ddaeth gyda mi.”

“Dwg ef yma erbyn hanner dydd yfory,” ebe'r Iarllles, “a mi a drefnaf i'r dref yma roddi croesaw teilwng iddo.”

Yna yr aeth Luned adref.

Ar hanner dydd drannoeth, gwisgodd Owain am dano wisg, a mantell o sidan melyn, a rhwymyn llydan o liw aur ar y fantell, ac esgidiau o ledr amryliw ar ei draed, a byclau o aur yn eu cau. Ac efe a ddaetn

gyda Luned at yr Iarlles, a hi a'i croesawodd. Wedi edrych yn graff ar Owain, yr Iarlles a ddywedodd :

"Luned, nid oes golwg teithiwr ar y gwr hwn."

"Pa ddrwg yw hynny?" ebe Luned.

"Y mae yn sicr gennyf," ebe'r Iarlles, "mai dyma'r hwn a laddodd fy ngwr."

"Da yw hynny i ti," ebe Luned, "canys pe na buasai efe yn drech na'th arglwydd nis gallasai ei ladd. Ac ymhellach nis gellir newid yr hyn a ddigwyddodd."

"Ewch adref drachefn," ebe'r Iarlles, "a mi a gymeraf gyngor."

A thrannoeth y galwodd yr Iarlles holl wŷr y deyrnas ynghyd, ac a ddywedodd wrthynt fod y deyrnas heb amddiffynnydd, ac nas gellid ei amddiffyn ond trwy nerth march, ac arfau, a milwriaeth.

"Chwi a gewch eich dewis," ebe hi, "naill ai i un o honoch chwi fy nghymeryd, neu ganiatau i mi gymeryd gwr o le arall."

A hwy a benderfynasant mai gwell fyddai iddi gymeryd gwr o le arall.

Yna y galwodd yr Iarlles yr esgobion a'r arch-esgobion ynghyd, ac a wnaeth wledd briodasol, a hi a gymerodd Owain yn ŵr. Ac Owain a amddiffynnodd y ffynnon â nerth ei gleddyf, a phan ddelai marchog yno i ymladd ag ef, efe a'i tarawai i'r llawr, ac a werthai'r marchog a'i eiddo am eu llawn gwerth, ac efe a rannodd yr arian cydrhwng milwyr a marchogion y tir. Ac nid oedd neb mewn un deyrnas yn caru eu harglwydd yn fwy nag a garai gwŷr Owain ef. Ac felly y bu am dair blynedd.

VII.—ARTHUR YN MYNED I CHWILIO
AM OWAIN.

Fel yr oedd Gwalchmai un diwrnod yn teithio gyda'r brenin Arthur, gwelodd fod Arthur yn edrych yn drist a phrudd iawn. A gofiodd Gwalchmai wrth ei weled felly, ac a ofynnodd i Arthur :

“Arglwydd, pa beth a ddigwyddodd i ti?”

“Yn wir, Gwalchmai,” ebe Arthur, “y mae arnaf hiraeth gweled Owain, yr hwn a gollais er's tair blynedd, ac os byddaf bedair blynedd heb ei weled, ofnaf nad allaf fyw. Ac y mae yn sier gennyf mai oherwydd y chwedl a adroddodd Cynnon ap Clydno yr aeth Owain i ffwrdd.”

“Nid oes angen i ti,” ebe Gwalchmai, “alw dy fyddinoedd ynghyd er mwyn dod o hyd i Owain. Gall gwŷr dy dŷ ddwyn dial os lladdwyd ef, a'i ryddhau os ydyw yng ngharchar, a'i ddwyn yn ol os ydyw yn fyw.”

Ac hynny a benderfynwyd, ac ymbaratôdd Arthur a gwŷr ei dŷ fyned i geisio Owain. A'u rhif oedd tair mil, heblaw gwasanaethyddion, ac yr oedd Cynnon ap Clydno yn eu cyfarwyddo.

A daeth Arthur hyd at y castell, lle y bu Cynnon. A phan ddaethant yno, gwelent y gweision yn saethu yn yr un lle; a'r Gwr Melyn yn sefyll yn eu hymyl. A phan welodd y Gwr Melyn Arthur, cyfarchodd ef, ac a'i gwahoddodd ef i'r castell. Ac Arthur a'i wŷr a aethant i fewn, ac er cymaint oedd eu nifer, cawsant oll ddigon o le a'u gwala o fwyd. A chyfododd y morwynion i'w gwasanaethu, ac ni chawsant yr un bai ar eu gwasanaeth, ac yr oedd y ddarpariaeth i weision y meirch y noson honno cystal ag y cawsai Arthur yn ei lys ei hun.

Boreu drannoeth, cyfododd Arthur, a hwy a ddaethant i'r lle yr oedd y Gwr Du. A synnodd Arthur yn fwy o lawer, pan welodd y Gwr Du, na phan ddywedwyd wrtho am dano. A hwy a ddaethant i ben y bryn, ac a aethant ar hyd y dyffryn, hyd yn ymyl y pren glâs, ac a welsant y ffynnon, a'r cawg, a'r llech.

Ac yna y daeth Cai at Arthur, ac a ddywedodd wrtho :

“Mi a wn achos y daith yma, ac erfyniaf arnat adael i mi fwrw'r dwfr ar y llech, a derbyn y gofid cyntaf a ddel.”

Ac Arthur a ganiatâodd iddo wneud hynny. A Chai a fwriodd lond y cawg o ddwfr ar y llech. Ac ar hynny daeth y swm; ac ar ol y swm, daeth y gawod. Ac ni chlywsant hwy erioed swm na chawod gyffelyb i'r rhai hynny. A lladdwyd llawer o wasanaethyddion Arthur gan y gawod.

Ac ar ol y gawod daeth tywydd têt. A phan edrychasant ar y pren, nid oedd deilen arno, a disgynnodd yr adar ar y pren, ac yr oedd yn sic ganddynt na chlywsant erioed gystal canu gan adar. Ac ar hynny, wele farchog ar farch du, a gwisg o sidan du am dano, yn dyfod yn frysiog atynt. Ac aeth Gai i'w gyfarfod, ac a ymladdodd ag ef, ond tafwyd Cai i'r llawr yn fuan. Ac yna aeth y marchog du yn ol i'w gastell, ac Arthur a'i wŷr i'w pebyll dros y nos. A phan ddaeth y boreu, gwelent fod y marchog yn rhoi arwydd i ymladd.

A daeth Cai at Arthur ac a ddywedodd wrtho :

“Trwy gam y'm tafwyd y ddoe, ac am hynny, gâd i mi fyned unwaith eto i ymladd a'r marchog.”

“Dos,” ebe Arthur.

VII.—ARTHUR YN MYNED I CHWILIO
AM OWAIN.

Fel yr oedd Gwalchmai un diwrnod yn teithio gyda'r brenin Arthur, gwelodd fod Arthur yn edrych yn drist a phrudd iawn. A gofidiodd Gwalchmai wrth ei weled felly, ac a ofynnodd i Arthur :

“Arglwydd, pa beth a ddigwyddodd i ti?”

“Yn wir, Gwalchmai,” ebe Arthur, “y mae arnaf hiraeth gweled Owain, yr hwn a gollais er's tair blynedd, ac os byddaf bedair blynedd heb ei weled, ofnaf nad allaf fyw. Ac y mae yn sicr gennyf mai oherwydd y chwedl a adroddodd Cynnon ap Clydno yr aeth Owain i ffwrdd.”

“Nid oes angen i ti,” ebe Gwalchmai, “alw dy fyddinoedd ynghyd er mwyn dod o hyd i Owain. Gall gwŷr dy dŷ ddwyn dial os lladdwyd ef, a'i ryddhau os ydyw yng ngharchar, a'i ddwyn yn ol os ydyw yn fyw.”

Ac hynny a benderfynwyd, ac ymbaratôdd Arthur a gwŷr ei dŷ fyned i geisio Owain. A'u rhif oedd tair mil, heblaw gwasanaethyddion, ac yr oedd Cynnon ap Clydno yn eu cyfarwyddo.

A daeth Arthur hyd at y castell, lle y bu Cynnon. A phan ddaethant yno, gwelent y gweision yn saethu yn yr un lle; a'r Gwr Melyn yn sefyll yn eu hymyl. A phan welodd y Gwr Melyn Arthur, cyfarchodd ef, ac a'i gwahoddodd ef i'r castell. Ac Arthur a'i wŷr a aethant i fewn, ac er cymaint oedd eu nifer, cawsant oll ddigon o le a'u gwala o fwyd. A chyfododd y morwynion i'w gwasanaethu, ac ni chawsant yr un bai ar eu gwasanaeth, ac yr oedd y ddarpariaeth i weision y meirch y noson honno cystal ag y cawsai Arthur yn ei lys ei hun.

Boreu drannoeth, cyfododd Arthur, a hwy a ddaethant i'r lle yr oedd y Gwr Du. A synnodd Arthur yn fwy o lawer, pan welodd y Gwr Du, na phan ddywedwyd wrtho am dano. A hwy a ddaethant i ben y bryn, ac a aethant ar hyd y dyffryn, hyd yn ymyl y pren glâs, ac a welsant y ffynnon, a'r cawg, a'r llech.

Ac yna y daeth Cai at Arthur, ac a ddywedodd wrtho :

“Mi a wn achos y daith yma, ac erfyniaf arnat adael i mi fwrw'r dwfr ar y llech, a derbyn y gofid cyntaf a ddel.”

Ac Arthur a ganiatâodd iddo wneud hynny. A Chai a fwriodd lond y cawg o ddwfr ar y llech. Ac ar hynny daeth y swm; ac ar ol y swm, daeth y gawod. Ac ni chlywsant hwy erioed swm na chawod gyffelyb i'r rhai hynny. A lladdwyd llawer o wasanaethyddion Arthur gan y gawod.

Ac ar ol y gawod daeth tywydd têt. A phan edrychasant ar y pren, nid oedd deilen arno, a disgynnodd yr adar ar y pren, ac yr oedd yn sic ganddynt na chlywsant erioed gystal canu gan adar. Ac ar hynny, wele farchog ar farch du, a gwisg o sidan du am dano, yn dyfod yn frysiog atynt. Ac aeth Gai i'w gyfarfod, ac a ymladdodd ag ef, ond taflwyd Cai i'r llawr yn fuan. Ac yna aeth y marchog du yn ol i'w gastell, ac Arthur a'i wŷr i'w pebyll dros y nos. A phan ddaeth y boreu, gwelent fod y marchog yn rhoi arwydd i ymladd.

A daeth Cai at Arthur ac a ddywedodd wrtho :

“Trwy gam y'm taflwyd y ddoe, ac am hynny, gâd i mi fyned unwaith eto i ymladd a'r marchog.”

“Dos,” ebe Arthur.

genhadau at yr Iarllles i ofyn iddi ollwng Owain i fyned gydag ef am dri mis, fel y gallai ei ddangos i wŷr a gwragedd Ynys Prydain. A'r Iarllles a foddlonodd i hynny, er mai anodd oedd ganddi adael i Owain fyned. A daeth Owain gydag Arthur i Ynys Prydain, ac a arhosodd yno am dair blynedd yn lle tri mis.

Ac fel yr oedd Owain un diwrnod yn bwyta wrth y bwrdd yng Nghaerlleon-ar-Wysg, daeth morwyn ato ar farch gwineu, ac yr oedd y ffrwyn, a chymaint ag a welid o'r cyfrwy, o aur. A hi a ddaeth at Owain, ac a gymerodd y fodrwy oedd ar ei law.

"Fel hyn," ebe hi, "y gwneir i dwyllwr a bradwr anffyddlon."

A hi a drôdd ben y march, ac a aeth ymaith. Yna y cofiodd Owain am y daith i'r castell, ac a ofidiodd, ac wedi gorffen bwyd, aeth i'w lety.



IX.—OWAIN YN TRAMWY BYD.

Bu Owain mewn pryder mawr y noson honno oherwydd geiriau'r forwyn. Drannoeth, efe a gyfododd, ac a dramwyodd i eithafoedd y byd, a thros fynyddoedd diffaith. Ac felly y teithiodd, nes i'w ddillad dreulio allan. Ei gorff hefyd a waethygodd, a thyfodd blew hirion drosto. Cyd-gerddai â bwystfilod, a chydymborthai â hwynt.

Yn y diwedd, ei gorff a wanychodd, fel nas gallai en dilyn. Yna efe a ddisgynnodd o'r mynydd i'r dyffryn, ac a ddaeth i'r parc tecaf yn y byd, yr hwn oedd yn feddiant i Iarllles weddw. Un diwrnod aeth

yr Iarllles a'i llawforwynion i gerdded ar ymyl y llyn oedd yn y parc. Pan ddaethant tua'i ganol, hwy a welent yno gorff ar lun a delw dyn. Aethant yn ofnus ato i'w deimlo, ac i edrych arno.

A hwy a welsant fod bywyd yn ei wythiennau, er ei fod yn gwywo yn yr haul. A'r Iarllles a aeth yn ol i'w chastell, ac a gymerodd flwch o eli gwerthfawr, ac a'i rhoddodd i un o'i llawforwynion, ac a ddywedodd wrthi :

“ Dos a hwn gennyt, a dwg at y marchog acw, a march a dillad gennyt hefyd, a dod hwynt gerllaw'r gwr, a dod yr eli yn ymyl ei galon ; ac os oes bywyd ynddo, efe a gyfyd trwy rinwedd yr eli yma. Aros yna, ac edrych beth a wnel.”

A'r forwyn a ddaeth, ac a roddes yr holl eli arno, ac a adawodd y march a'r dillad yn ei ymyl, ac a aeth ychydig oddiwrtho, gan ymguddio, ac edrych beth a wna'r gwr. Ymhen ychydig, gwelai ef yn crafu ei freichiau, ac yn cyfodi i fyny, ac yn edrych ar ei gnawd. A chywilyddiodd Owain wrth weled mor hagr yr oedd, ac efe a welodd y march a'r dillad yn ei ymyl, ac efe a ymlusgodd hyd nes cael gafael yn y dillad oedd ar y cyfrwy, ac efe a'u gwisgodd hwynt, ac a esgynnodd ar ei farch gydag anhawster.

Yna yr ymddanghosodd y forwyn ger ei fron, a hi a'i cyfarchodd ef. Ac yr oedd yn llawen ganddo ei gweled, ac a ofynnodd iddi :

“ Pa dir yw hwn, a pha le y mae ? ”

“ Yn wir,” ebe'r forwyn, “ Iarllles weddw biau'r castell acw. Pan fu farw ei gwr, gadawodd ddwy deyrnas iddi, ond heddyw nid oes ganddi ddim ond y tŷ

hwn, yr hwn ni ddug Iarll ieuanc, ei chymydog, oddiwrthi. Dug ei holl gyfoeth ond hyn, am nad elai yn wraig iddo."

"Blin gennyf glywed hynny," ebe Owain.

Ac efe a aeth gyda'r forwyn i'r castell. Disgynnodd Owain yn y castell, a dug y forwyn ef i ystafell esmwyth, ac a gynhenodd dân iddo, ac a'i gadawodd yno. Daeth y forwyn at yr Iarlles, ac a roddodd y blwch iddi.

"Ha, forwyn," ebe'r Iarlles, "pa le y mae'r holl eli?"

"Fe gollwyd y cwbl," ebe'r forwyn.

"Yn wir," ebe'r Iarlles, "nid hawdd gennyf faddeu i ti am hyn. Colled fawr oedd i mi ddefnyddio gwerth saith-ugain punt o eli gwerthfawr ar ddyn nas gwn pwy ydyw. Eto, gwasanaetha di arno nes y ca ei wala o bob peth."

Gwnaeth y forwyn hynny. Gofalodd ddarparu ar gyfer Owain ddigonedd o fwyd, a diod, a thân, ac eli. Ymhen tri mis, yr oedd Owain yn holliach; yr oedd y blew oll wedi diflannu, ac yr oedd ei gnawd yn wynnach nag y bu erioed.

Un diwrnod clywai Owain swn cynnwrf yn y castell. Gofynnodd i'r forwyn:

"Pa beth yw'r cynnwrf yma?"

"Yr iarll," ebe hi, "a soniais am dano, sydd yn dyfod i'r castell a llu mawr ganddo i geisio difa'r wraig hon."

"A oes gan yr Iarlles farch ac arfau?" ebe Owain.

"Oes," ebe'r forwyn, "a hynny o'r fath oreu yn y byd."

"A ei di i geisio march ac arfau i mi," ebe Owain, "fel y gallaf fyned i edrych ar y llu?"

“Af,” ebe'r forwyn.

A hi a ddaeth at yr Iarll, ac a fynegodd iddi gais Owain.

Chwerthinodd yr Iarll, ac a ddywedodd :

“Yn wir, mi a roddaf farch ac arfau iddo am byth, ac ni fu ganddo erioed farch ac arfau cystal, a da yw gennyf iddo eu cymeryd, rhag i'm gelynion eu cael o'm hanfodd yfory. Ond nis gwn pa beth a wna â hwynt.”

A dygwyd march du, braf, i Owain, a digon o arfau iddo ef a'r march.

Ymwisgodd Owain yn ei arfau; esgynnodd ar ei farch, ac a aeth ymaith a dau was ieuanc, arfog, gydag ef. A phan ddaethant at fyddin yr Iarll, nis gallent weled ei maint gan mor fawr ydoedd. Gofynnodd Owain i'r gweision ieuaine :

“Ym mha fyddin y mae'r Iarll?”

“Yn y fyddin lle mae'r pedair baner felen ynddi— dwy ymlaen a dwy yn ol,” ebe'r gweision.

“Ewch chwi yn ol,” ebe Owain, “ac arhoswch yn ymyl porth y castell.”

A hwy a aethant yn ol, ac aeth Owain ymlaen nes cyfarfod a'r iarll. Ac Owain a'i tynnodd o'i gyfrwy, ac a drôdd ben ei farch tua'r castell, ac wedi trafferth mawr, dug yr Iarll at y gweision ieuaine i ddrws y castell, a hwy a aethant i fewn. A rhoddodd Owain yr Iarll yn anreg i'r Iarll, ac a ddywedodd wrthi :

“Dyma fy nhâl i ti am yr eli rhyfedd hwnnw.”

Pabellodd y llu o amgylch y castell, a rhoddwyd bwyd i'r Iarll. Rhoddodd yntau y ddwy deyrnas yn ol i'r Iarll, am iddi arbed ei fywyd. Ac am ei ryddid, rhoddodd iddi hanner ei deyrnas ei hun, a'i holl aur, a'i arian, a'i holl dlysau.


X.—OWAIN A'R LLEW.

Ar ol hyn, aeth Owain ymaith, ac er i'r Iarles a'i gwŷr ei wahodd i aros yn y deyrnas, gwell oedd ganddo dramwy drwy'r diffeithwch, ac i eithafoedd y byd. Un diwrnod, wrth deithio, clywai swm gwaeddi mawr yn y coed, a chlywodd yr un swm o'r un man eto yr ail a'r trydydd dydd. Aeth Owain tua'r man, ac yno gwelai glogwyn mawr ynghanol y coed, a chraig lwyd ar ochr y bryn. Ac yr oedd hollt yn y graig, ac yr oedd sarff yn yr hollt. Yn ymyl y graig yr oedd llew du, a phan geisiai'r llew fyned oddiyno, neidiai'r sarff ato i'w frathu.

Tynnodd Owain ei gleddyf allan, ac a ddaeth at y graig; ac fel y deuai'r sarff o'r graig, tarawodd Owain hi a'r cleddyf, nes yr oedd yn ddau hanner. Wedi sychu ei gleddyf, aeth ymlaen fel cynt; ond gwelai fod y llew yn ei ganlyn, ac yn chwareu o'i amgylch fel milgi a fagasai ei hun. Ac felly y cerddasant hyd y prynhawn.

A phan ddaeth yr amser i Owain orffwys, disgynnodd oddiar ei farch, ac a gynheiodd dân. A phan oedd y tân yn barod gan Owain, yr oedd y llew wedi casglu digon o goed am dair noswaith. Yna yr aeth y new ymaith, ond heb fod yn hir dychwelodd a iwrech mawr ganddo, ac a'i dododd ger bron Owain, ac aeth yr ochr arall i'r tân. Cymerodd Owain yr iwrech, ac a'i blingodd, ac a ddododd ychydig o honno ar y tân, a'r gweddill a roddodd efe i'r llew i'w fwyta.

Ac fel yr oedd Owain yn bwyta, clywodd swm ochenaid ddwywaith neu deirgwaith yn dod o rywle yn yn ei ymyl. Gofynnodd Owain os mai swm bod dynol oedd.



OWAIN YN LLADD Y NEIDR.

"Iē, yn wir," ebe'r llais.

"Pwy wyt ti?" ebe Owain.

"Myfi," oedd yr ateb, "yw Luned, llawforwyn Iarlles y Ffynnon."

"Pa beth a wnei di yma?" ebe Owain.

"Carcherir fi," ebe Luned, "o achos marchog a ddaeth o lys Arthur i gymeryd yr Iarlles yn wraig. Bu yn ŵr iddi am ychydig amser, ac yna yr aeth am dro i lys Arthur, ond ni ddaeth fyth yn ol. Yr oedd yn gyfaill mawr i mi, a charwn ef yn fawr. Ond dau o weision yr Iarlles a'i galwasant ef yn dwyllwr, a dywedais innau nas gallasant hwy ill dau gyda'u gilydd ymladd ag ef, ac am hynny y carcherir fi yma. Dywedir wrthyf ym lleddir os na ddaw ef i'm gwared cyn pen dydd arbennig, a'r dydd hwnnw yw'r dydd ar ol yfory. Owain, fab Urien, yw efe, ac nid oes gennyf neb i'w geisio."

"A ydwyf yn sicr pe gwyddai'r marchog hwnnw am dy helbul y deuai i'th amddiffyn?" ebe Owain.

"Ydwyf yn berffaith sicr," ebe hi.

A phan oedd y cig yn barod, rhannodd Owain ef yn ddau rhwng y forwyn ag ef, ac wedi iddynt fwyta, hwy a ymddiddanasant hyd drannoeth.

Foreu drannoeth gofynnodd Owain i'r forwyn, os gwyddai am le y gallai gael bwyd a chroesaw y noson honno.

"Oes, arglwydd," ebe hi, "dos yn dy flaen, a cherdda ar lan yr afon, ac ymhen ychydig, ti a weli gastell mawr, a thyrrau lawer arno. Yr Iarll biau'r castell hwn yw'r gwr goreu yn y byd am roddi bwyd, a thi a elli gyrraedd yno heno."

“Arhosodd y llew gydag Owain, ac ni wylodd gwyliwr ei arglwydd erioed yn well nag y gwyliodd y llew Owain y noson honno



XI.—OWAIN YN GWAREDU MEIBION GWR Y CASTELL.

Paratôdd Owain ei farch, ac aeth rhagddo trwy'r rhyd, hyd nes gweled y castell. Ac efe a aeth i fewn i'r castell, a chroesawyd ef yn anrhydeddus. Dygwyd ei farch hefyd i'r ystabl, a dodwyd bwyd ger ei fron. Aeth y llew hefyd i orwedd i breseb y march, ac nid anturiai neb o'r castell i ymyl y march.

Ni welodd Owain cystal darpariadau erioed, ac eto yr oedd pob dyn yno mor drist a phe bai angau ar gymeryd meddiant o honynt; a hwy a aethant i fwyta. Eisteddai yr Iarll ar y naill law i Owain, ac ar y llaw arall i Owain eisteddai unig ferch yr Iarll. A'r llew a ddaeth rhwng dwy droed Owain o dan y ford, ac Owain a roddai iddo o bob bwyd oedd ar y ford. Ac ni welodd Owain un bai yno ond tristwch y dynion.

Ac ar hanner bwyta croesawodd yr Iarll Owain.

“Yn wir,” ebe Owain, “y mae yn bryd i ti fod yn llawen.”

“Duw a wŷr,” ebe'r gwr, “mai nid o'th achos di yr ydym yn drist, ond am fod achos tristwch a gofid wedi dod arnom.”

“Pa beth yw hynny?” ebe Owain.

“Yr oedd dau fab gennyf,” ebe'r gwr, “a hwy a aethant allan ddoe i'r helfa. Ond y mae bwystfil yno yn

lladd dynion, ac yn eu bwyta; ac efe a ddaliodd fy meibion. Ac yfory y mae'r dydd y penderfynwyd fy mod i roddi'r forwyn hon iddo, neu iddo ladd fy nau fab yn fy ngŵydd. Y mae delw dyn arno, ond y mae gymaint a chawr."

"Drwg gennyf glywed hyn," ebe Owain, "a pha beth a fwriedi wneud?"

"Duw a ŵyr," ebe'r Iarll, "fod yn well gennyf iddo ladd fy meibion a gafodd o'm hanfodd, na rhoddi fy merch iddo o'm bodd i'w difetha."

Ac ymddiddan a wnaethant am bethau ereill, ac yno y bu Owain y noson honno.

Foreu drannoeth clywent swn nerthol. Yr achos am hyn oedd fod y gwr mawr yn dwyn y ddau fab ganddo at y castell. Ac yr oedd yn well gan yr Iarll amddiffyn y castell, gan adael y ddau fab i'w tynged. Gwisgodd Owain ei arfau am dano, ac a aeth allan i ymladd â'r gwr mawr; ac yr oedd y llew yn ei ddilyn.

A phan welodd y gwr fod Owain yn arfog, rhuthrodd ato i ymladd ag ef. Ond ymladdai'r llew yn well o lawer nag Owain gyda'r gwr mawr.

"Ar fy llw," ebe'r cawr, "medrwn ymladd a thi onibai am yr anifail sydd gyda thi."

Yna caeodd Owain y llew yn y castell, a chlôwyd drws arno. Ac aeth Owain i ymladd a'r cawr fel o'r blaen. A rhuodd y llew yn uchel, oblegid clywai fod gofid ar Owain; ac efe a ddringodd i ben neuadd yr Iarll, ac oddiar y neuadd aeth i ben y castell, ac oddiar y castell neidiodd i ymuno ag Owain. Ag un ergyd, tarawodd y llew y cawr ar ei ysgwydd ac a'i lladdodd yn y man. Ac Owain a roddes y ddau fab yn ol i'w tad.

XII.—OWAIN YN DYCHWELYD I LYS ARTHUR.

Ar ol rhoddi'r ddau fab yn ol i'w tad, gwahoddodd yr iarll Owain yn gynnes i'r castell, ond dymunai Owain ddychwelyd i'r ddôl, lle yr oedd Luned. Ac yno y gwelai dân mawr, a dau was yn myned i fwrw'r forwyn i'r tân. Yntau a ofynnodd iddynt beth a geisient gan y forwyn, a hwy a ddywedasant wrtho yr un amodau ag a ddywedasai'r forwyn y nos cynt. "Peidiodd Owain a dyfod i'w hamddiffyn, felly ni a'i llosgwn hi."

"Yn wir," ebe Owain, "marchog da oedd hwnnw, ac y mae yn rhyfedd gennyf pe gwyddai fod angen cymorth ar y forwyn, na ddeuai i'w hamddiffyn, ac os cymerwch fi yn ei le, mi a ymladdaf â chwi drosto."

"Cymerwn yn wir," ebe'r ddau was.

Ac ar unwaith, hwy a ymladdasant ag ef ill dau; ac yr oeddynt yn achosi gofid i Owain; ac ar hynny daeth y llew i gynorthwyo Owain, a gorchfygwyd y gweision. Yna y dywedasant:

"Ni wnaethom amod i ymladd ond gyda thi; anodd yw i ni ymladd a'r anifail acw hefyd."

Yna y dododd Owain y llew yn y man lle y bu'r forwyn yn rhwym, ac a'i caeodd i fewn â cherryg. Ac efe a aeth i ymladd fel cynt a'r gweision; ond nid oedd ei lawn nerth wedi dychwelyd iddo, ac yr oedd y gweision yn ei orchfygu.

Rhuai'r llew wrth weled fod Owain mewn perygl, ac o'r diwedd rhwygodd y mur, a rhuthrodd allan, ac yn fuan lladdodd y naill a'r llall o'r gweision, ac felly y gwardasant Luned rhag ei llosgi.

Ac yna y daeth Owain a Luned i deyrnas Iarllles y Ffynnon; a phan aeth oddiyno, cymerodd Owain yr



Y LLEW YN CYNORTHWYO OWAIN.

Iarlles gydag ef i lys Arthur, a hi a fu yn wraig iddo tra fu byw.

Ac ar y ffordd i lys Arthur cyfarfu Owain a'r Gwr Du. Ac Owain a ymladdodd ag ef, a thrwy gymorth y llew, gorchfygodd ef. A phan ddaeth i lys y Gwr Du, aeth i fewn i'r neuadd, ac yno gwelai bedair-ar-hugain o'r gwagedd harddaf a welwyd erioed; ond nid oedd y dillad oedd arnynt o werth pedair-ceiniog-ar-hugain. Ac yr oeddynt oll mor drist ag angeu.

Gofynnodd Owain iddynt pahan yr oeddynt mor drist. Yna y dywedasant wrtho eu bod oll yn ferched i ieirll, ac iddynt ddod yno bob un a'r gwr goreu a garent.

"A phan ddaethom ni yma rhoddwyd croesaw i ni," meddent hwy, "a danghoswyd parch tuag atom. Gwnawd ni i gyd yn feddw, a phan oeddym felly, daeth y gwr drwg, perchen y llys yma, ac a laddodd ein gwŷr, ac a gymerodd ein meirch a'n dillad, a'n haur, a'n harian. Y mae cyrff ein gwŷr yn gelaneddau yn y tŷ yma, a dyna'r pahan yr ydym mor drist, a drwg gennym i tithau ddyfod yma, gan mai yr un fydd dy dynged."

A gofidodd Owain pan glywodd hyn, ac efe a aeth allan o'r castell, ac a welodd farchog yn dyfod ato yn serchog, fel pe buasai yn frawd iddo, a hwnnw oedd y Gwr Du cas.

"Yn wir," ebe Owain, "nid i geisio dy gyfeillgarwch y deuthum yma."

"Ac yn wir," ebe'r Gwr Du, "nis cei chwaith."

A hwy a ymladdasant a'u gilydd yn galed, ac o'r diwedd, gorchfygodd Owain ef, ac a rwymodd ei ddwy-law y tu ol i'w gefn.

Erfyniodd y Gwr Du creulon am i Owain arbed ei fywyd, ac a ddywedodd wrtho :

“Arglwydd Owain, rhagddywedwyd dy fod i ddyfod yma i'm gorchfygu, a thi a wnaethost hynny. Ysbeiliwr a fûm yma, ac ysbeildy fu fy nhŷ; ond os arbedi fy mywyd, deuaŷ yn ysbytwr, a'r tŷ hwn a fydd yn ysbyty i'r gwan ac i'r cadarn tra bwyf byw, er côf am danat.”

Derbyniodd Owain yr amod yma, ac yno yr arhosodd dros y nos. A boreu drannoeth cymerodd Owain y pedair gwraig ar hugain, a'u meirch, a'u dillad, a'r holl aur a thlysau a ddygasant yno, ac a ddaeth a hwynt i lys Arthur. Ac Arthur a roddodd iddynt oll groesaw mawr, ac arhosodd y gwragedd a ewyllysiai wneuthur hynny yn y llys. Owain hefyd a drigodd yn llys Arthur, ac a fu yn ben-teulu iddo, ac a fu yn anwyl iawn yn y deyrnas.

Ac felly y derfydd hanes “Iarlles y Ffynnon.”

Ysbyty: tŷ i groesawi ac i helpu'r tylawd a'r dieithr.

Ysbeildy: tŷ yspeiliwr.

Celaneddau: cyrff meirw.

Rhagddywedwyd: dywedwyd ymlaen llaw cyn i'r pethau ddigwydd.



GEIRFA.

ab }
ap }
Aberffraw

Abermenai

achub
adfywio
addewid
addurno
afllanwaith
afllwyddiannus
alaethus
amarch
amgylchynnu
amodau
amrannau
amryliw
anafwyd
anfoddog
anfodus
anffurfio
anbeddychol
annerch
anreg
anturiaeth
anturio
angheuol
anrhydeddus
anweledig
anwybodaeth
arbenig
archesgob
arferiad
arfogaeth
arglwydd
arhosiad

son
in Anglesey; the
seat of the
Princes of
Gwynedd
a town on the
Menai Straits
to save
to revive
promise
to adorn
foul deed
unsuccessful
woeful
dishonour
to surround
conditions
eyelids
of various colours
wounded
dissatisfied
unfortunate
to disfigure
quarrelsome
to address, salute
gift
adventure
to venture
deadly
honourable
invisible
ignorance
special
archbishop
custom
arms
lord
stay

Arthur

supposed to have
been King of
Britain in the
6th century, and
(with his
Knights of the
Round Table) to
have gained
great honour for
bravery and
wisdom.

aruthr

marvellous, tre-
mendous
leader
authority
to suggest
desire

arweinydd
awdurdod
awgrymu
awydd

barwniaid

barons
shallow
to skin
box on the ears
gentlemanly

bas

blingo

bonclust

bonheddig

brâd

bradwriaeth

brathu

brawdmaeth

breichled

brenhiniaeth

brenhinol

briwiau

broch

brys

buddiol

buddugoliaeth

Bwrgwyn

bwriadu

bwystfil

bychander

bydd wych!

} treachery
to bite, sting
foster brother
bracelet
kingship
royal
cuts, wounds
badger
haste
profitable
conquest
Burgundy
to intend
beast
smallness
Farewell

bygwith bygythiol	to threaten threatening	cydsynio	to agree to a demand
cadarn Caerlleon	firm, fixed a town on the River Usk in Monmouthshire	cyfaddef (yn y) cyfamser	to confess (in the) mean- time
Caergaint Caerseiонт Calan Mai Caledfwlch	Canterbury Caernarvon first of May Excalibur, name of Arthur's sword	cyfarch gwell cyfarfyddwn cyfarwyddo cyfeddach	to salute we shall meet to inform eating and drink- ing to excess
cais canfod caniatâd cantref	request to perceive permission a division of country, includ- ing at least a hundred fami- lies	cyfeillgarwch cyfeiriad cyferbyn cyfiawnder cyflafan cyflawni	friendship direction opposite to justice calamity to complete, to carry out
carn carpiog carw cawg cefnder celaneddau cenawon cenhadau cenllysg cerddediad	hilt of a weapon in rags stag bowl male cousin carcasses pups messengers hail style of walking, gait	cyfleus cyfleustra cyflym cyflymder cyfoeth cyfraith cyfreithlon cyfrwy cyffelyb cyffelybu cyffwrdd cyhuddo cylymu cymdeithion	convenient opportunity fast speed riches law according to law saddle similar to compare to touch to charge with to tie
Ceredigion cerfiedig Cernyw cleisiau	Cardiganshire carved Cornwall marks from blows	cymeriad cymharu cymwys cynnal cynnwrf	companions character to liken suitable to maintain noise, disturb- ance
clod clogwyn clwyfau colleidio cogydd colofn craffu croesaw cychwyn cydrhwng	praise precipice wounds to caress cook column to stare welcome to start between	cyntedd cyngor cyrchu cyrrau cystadlu cytundeb cytuno cywilydd	hall leading into a building advice to go towards, reach regions to compete agreement to agree shame

chwareufa	playground	dyled	debt
chwedleuwr	a teller of tales	dynesu	to approach
dadwisgo	to undress	dynoliaeth	manhood
damwain	accident	dyrnod	a blow
danteithion	sweetmeats	yn ebrwydd	immediately
darparwyd	prepared	echdoe	the day before
deffro	to awake		yesterday
deheu	south	edifarhau	to repent
denu	to allure	egniol	with force
dewines	witch	Eidal	Italy
dewrder	bravery	eiddgeddus	jealous
dial	revenge	cingion	anvil
dihangodd	escaped	eithafoedd	end of the
dibriod	unmarried		world
dibrofiad	without experi- ence	eithriad	exception
didrafferth	without trouble	eithin	furze, gorse
diennyddio	to execute	eli	ointment
difetha	to destroy	elor-gludwyr	pall-bearers
difwyno	to defile	enbydus	terrible
diffae:h	barren	enwogrwydd	fame
diffygio	to fail	erchyll	terrible
diffyg moes	lack of good manners	erfyniodd	implored
digrifweh	jollity	ergyd marwol	a deadly blow
digwyddiad	event	esgynfaen	mounting stone
dihareb	proverb	esiamp	example
dileu	to destroy	estron	foreigner
dinistrio		etifedd	heir
diorseddu	to dethrone	euraidd	golden
dirmyg	insult	ewinedd	nails (of body)
disglair	brilliant	feallai	perhaps
disgrifio	to describe	(y) Frenni Fawr	a Pembrokeshire mountain
distewi	to become silent	ffafr	favour
diymdroi	without delay	fferrau	ankles
dôl	dale, meadow	ffetan	sack
dolurus	painful	ffrwyn	reins
doniau	qualities	ffurfafen	the firmament, sky
drudfawr	expensive		faithfulness
dur	steel	ffyddlondeb	fir trees
Dyfed	a principality of Ancient Wales, of which the present Pem- brokeshire formed the greatest part.	ffynidwydd	the nerves,
		giau	siniws
		gloddesta	to feast
		glyn	valley
		gohirio	to postpone

golygfeydd	sights	gŵyr	he knows
gorchestion	deeds of valour	gwŷr	men
goresgyn	to overcome	gwyrrth	miracle
gorllewin	west	gwythiennau	veins
gorneſt	tournament	haeddu	to deserve
goruchwylwr	steward	Harlech	an old town in Merionethshire
gostyngeilig	humble	hawddgar	amiable
gruddfan	to moan	hebogau	hawks
gruddiau	cheeks	hebryngydd	escort
gwaedoliaeth	ancestry	heddwch	peace
(o waedoliaeth uwch)	(of nobler blood)	heddychol	peaceful
gwaewffon	spear	helbul	trouble
gwahodd	to invite	helgwn	hunting hounds
gwanychu	to weaken	Henffych well	All hail
gwaradwyddo	to insult		<i>Lit.</i> may you fare better
gwaredu	to save	hud	
gwarogaeth	homage	hudoliaeth }	magic
gwasanaeth	service	hundai }	houses for sleep- ing purposes
gwastadedd	a plain	hwylbren	mast
gwatwar }	to mock	hwyllo	to sail
gwawdio }		hynodrwydd	peculiarity
gwawr	dawn	hysbysu	to make known
gwedd	form, appearance	iarll	earl
gweflau	lips	iarlles	duchess
gweithred	an act	ieuenctid	youth
gwenwynig	poisonous	irfrwyn	green rushes
gwerin-	chess men	iwrch	roebuck
gwyddbwyll		llafn	blade
gwerthfawredd	value	llannerch	glade
gweryriad	neighing	llawes	sleeve
gwiberod	vipers	llawforwyn	maid
gwineu	auburn	llech	slab
gwegys	girdle	len (hud)	(magical) veil
gwrhydri	act of valour	llewyg	fainting fit
(i'r) gwrthwyneb	(to the) contrary	llian main	fine linen
gwrthio	to push away	llidiog	angry
gwyddbwyll	chess	llofruddiaeth	murder
Gwyddyl	Irishmen	llwyddiannus	successful
gwyl	a feast or holiday	llynges	a fleet of ships
Fairy Canhwyllau	(Feb. 2nd) Candlemas	llys	court
y Pentecost	Whitsuntide	llywodraethu	to govern
gwylio	to keep watch		
gwynder	whiteness		
Gwynfryn	the White Tower of London		

Mabinogion	tales for young people	petruso	to hesitate
maen sugn	lodestone	porthor	door keeper
marchog	knight	prudd	sad
marwol	deadly	pryder	worry, vexation
(ei) mawrhydi	(her) highness	rhactalau	frontlets
medd	mead	rhag-ddywedyd	to prophesy
meddiant	property	rhagflaenodd	preceded
meddyginiaeth	medicine	rhaiadr	waterfall
megin	bellows	rhawn	hair
meichiau	hostages, sureties	rhesymol	reasonable
meudwy	hermit	rhian	maid
milgwn	hounds	rhinwedd	purity, virtue
morfil	whale	Rhufain	Rome
mwyafrif	majority	rhuthro	to rush
mynor	marble	rhwydd hynt	good luck
Myrddin	a soothsayer and adviser of King Arthur	rhwyddineb	ease,
Narberth	in Pembrokeshire 10 miles from Tenby. The chief seat of the Princes of Dyfed	rhwymedig	bound
nawdd	protection	rhwysg	pomp
neges	message	rhybuddio	to warn
neuadd	hall	rhyd	ford
neilltuol	special	rhyfedd	remarkable
newyn	hunger, famine	rhyfyg	foolhardiness
nodded	protection	sarrug	saucy
ochenaid	sigh	swch y darian	lower end of shield
ocheneidio	to sigh	swrth	curt
oedi	to tarry	swyddogion	officials
(heb) oedi	immediately	swynol	charming
pabell	tent	tadmaeth	foster father
pair	cauldron	tangnefedd	peace
pendefig	chieftain	teilyngdod	merit
pengrych	curly headed	terfysg	commotion
penlinio	to kneel	teyrnged	tribute
penodedig	arranged	teyrnasiad	reign
pentwr	heap	tiriogaeth	regi n
perchennog	owner	tlysau	jewels
perllan	orchard	traddodiad	tradition
perygl	danger	trallod	trouble
		tramwy	to travel
		trefniadau	arrangements
		treulio	to spend
		tridiau	three days
		tristwch	sadness
		troedfainc	footstool
		troseddau	offences

trueiniaid	wretches	ymgyngori	to discuss
trugaredd	mercy	ymlusgo	to drag along
trwst	noise	ymosod	attack
twyllodrus	deceptive	ymrwymiad	an oath
tynged	fate	ymwahanu	to part
tyrrau (pl. of twr)	towers	ymwared	deliverance
tystiolaethu	to bear witness	ymweliad	a visit
urddasol	noble	Ynys y Cedyrn	Isle of Britain
wylofus	tearfully	ysgarlad	scarlet
(yn) wastadol	always	ysgol	ladder (or school)
ychwaneu	to increase	ysgwyd	to shake
ymdrechfa	site of a struggle	yspardynnau	spurs
ydddadleu	to contend	yspardynnu	to spur
ydddangos	to appear	ysbeilio	to steal
ydddiddan	conversation	ysbyty	a home for strangers, a hospital
ymerawdwr	emperor	ysbytwr	a hospitable man
ymerodraeth	empire	ystafell	room
ymerodres	empress	Ystrad Tywi	a part of the valley of the Towy, in Car- marthenshire
ymennydd	brains		
ymestyn	to stretch oneself	ystyllen	plank

The E.P.C.

Class Lessons in English



I—Large Class Pictures.

Set I.	15/- net.
Set II.	15/- net.
Set III.	15/- net.

For Standards I., II., and III.



II—Teacher's Manuals.

Books I. and II. ...	1/6 net.
Books III. and IV. ...	1/6 net.
Books V. and VI.-VII. ...	2/- net.



III—Scholar's Handbooks.

	Published Prices
Books I. and II. ...	3d.
Books III. and IV. ...	4d.
Books V. and VI.-VII. ...	5d.

In Cloth, 1d. extra.

THE Educational Publishing Co., Ltd.

Cardiff & Merthyr Tydfil

ANALYSIS OF THE HISTORY OF WALES

— BY —

HOWELL T. EVANS, B.A. Cantab. & Lond.

For the Use of Students in Colleges, County Schools, and P.T. Centres.

The first work of the kind in connection with Welsh History. ¶ Contains Six new Maps illustrating important developments in the History of the Principality

A GREAT BOON TO
TEACHERS & STUDENTS
OF WELSH HISTORY

Published Price 2s. 6d.

A 

PRIMER OF KYMRIC LITERATURE

— BY —

D. JAMES (Defynnog)

This handbook gives a bird's-eye view of the Literature of the Kymry from the earliest times up to the present. ¶ It provides brief biographies of the most famous Authors, with a description of their chief works, as well as extracts from the same. ¶ It has been thoroughly revised by the Author after the Merthyr National Eisteddfod where it secured a prize of £25 under the adjudication of Professors O. M. Edwards, M.A., Oxford, and J. E. Lloyd, M.A., Bangor. : : : :

The best Authorities have been consulted, and no effort has been spared to adapt the Primer to the needs of Private and Public School Students.

Is also edited by
Professor ANWYL, M.A., Aberystwyth.

Published Price 2s. 6d.

The EDUCATIONAL PUBLISHING Co. Ltd.
Cardiff and Merthyr Tydfil.

Flame Bearers of Welsh History

By OWEN RHOSCOMYL,

One of the foremost authorities on Welsh History, and
a writer of great reputation.

Public Edition, 5s. :: School Edition, 1s. 6d.

It is an original, connected History of Wales,

IN ENGLISH,

designed for use in Standards V., VI. and VII. in conjunction
with the ordinary English Readers.

FOR BOYS AND GIRLS.

This book is written in terse and vivid language, and aims
at stirring the imagination, and awakening the enthusiasm of
the rising generation by placing before them

LIVING PORTRAITS OF THE CHIEF
FIGURES IN WELSH HISTORY. ::: :::



BEAUTIFULLY PRINTED AND ILLUSTRATED.



“The Story of England and Wales” and “Flame Bearers of Welsh
History.” Two books written for Welsh Children. The stories are admir-
ably told, are well printed and excellently illustrated, so that there is no good
reason why they should not in time be read in every school in the
Principality.—THE SCHOOLMASTER.

THE
Educational Publishing Co., Ltd.

Cardiff & Merthyr Tydfil

. . . The . . .
Anglo-Welsh Historical Readers

By JOHN FINNEMORE

Author of "Boys and Girls of Other Days," "Stories of the Empire," &c.

JUNIOR BOOK

Summary for Home
Lessons 3d net.

1/3 net. An English Reader for Standard III. or in Grouped Classes for Standards III. and IV., containing Stories from English & Welsh History. It covers the whole field from the earliest times up to the present day.

INTERMEDIATE BOOK

Summary for Home
Lessons 3d net.

1/4 net. An English Reader for Standard IV., or in Grouped Classes for Standards IV. and V. This Book deals in greater detail with the notable events and persons in English & Welsh History.

BOTH the above Books ARE ADMITTED TO BE IN STYLE OF PRODUCTION AND IN MATTER AT LEAST EQUAL TO THE VERY BEST PUBLICATIONS ISSUED BY THE LONDON PUBLISHERS. They are profusely illustrated in Colour—THE ILLUSTRATIONS ARE ALL REPRODUCTIONS FROM CELEBRATED PICTURES IN THE NATIONAL AND OTHER GALLERIES. Teachers have in this series a set of books specially written to meet their needs—giving due consideration to the History of Wales, while giving a full treatment of English History.

COAL MINING A READER FOR
ELEMENTARY
SCHOOLS

BY HENRY DAVIES

Lecturer on Mining under the Glamorgan County Council.

Beautifully illustrated.





Price 1s. 6d. net.


Adopted for use in all their Schools by the main Education Committees on the English and Welsh Coalfields.


The Educational Publishing Co., Ltd.


Cardiff & Merthyr Tydfil














o. 6105





L
87.R
*